



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Environment
Agency

Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy 2015 – 2021 Crynodeb

Diweddarwyd: Rhagfyr 2015

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cediwr pob hawl. Gellir atgynhychu'r ddogfen hon gyda chaniatâd
Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
1.1 Cynllun Rheoli Basn Afon	4
1.2 Llywio o amgylch y Cynllun Rheoli Basn Afon	5
1.3 Cwmpas gyda chynlluniau a rhaglenni eraill	8
1.4 Cyfrifoldeb dros weithredu'r cynllun hwn	10
1.5 Dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddalgylch	12
1.6 Monitro ac adrodd ar gynnydd dros y chwe blynedd nesaf	15
2. Statws presennol ac adolygiad o gynnydd	16
2.1 Ardal Basn Afon Dyfrdwy	16
2.2 Statws presennol Ardal Basn Afon	19
2.3 Crynodeb o'r materion rheoli dŵr sylweddol	20
2.4 Cyflawni gweithredoedd	26
2.5 Dirywiad	27
2.6 Cynnydd o ran cyflawni amcanion y cylch cyntaf	28
2.7 Adolygiad o gynnydd y cylch cyntaf	29
3. Rhaglen o Fesurau	33
3.1 Trosolwg o'r Rhaglen o Fesurau	33
3.2 Rhaglenni cyflenwi	33
3.3 Crynodeb - rhaglen o fesurau cenedlaethol	45
3.4 Crynodeb - rhaglen o fesurau lleol	73
4. Amcanion a Chanlyniadau Amgylcheddol	76
4.1 Amcanion y cyrff dŵr	76
4.2 Ardaloedd Gwarchoddedig - cydymffurfio ac amcanion	78
4.3 Canlyniadau ar gyfer 2021	83
4.4 Arfarniad economaidd	83
5. Cynllunio i'r Trydydd Cylch - Blaengynllunio a'r heriau ar gyfer 2021-2027	85

1. Cyflwyniad

1.1 Cynllun Rheoli Basn Afon

Yn rhan o Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd, mae'n rhaid datblygu cynllun rheoli ar gyfer pob Ardal Basn Afon. Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy gyntaf yn 2009. Dyma'r diweddariad cyntaf i'r cynllun hwnnw. Bydd adolygiad pellach yn 2021 a bydd diweddariad pellach yn cael ei gyhoeddi bryd hynny hefyd. Mae'r rheoli basn afon yn gylch parhaus o gynllunio a chyflenwi.

Pwrpas y cynllun rheoli hwn yw gwarchod a gwella'r amgylchedd dŵr ar gyfer manteision ehangach i bobl a bywyd gwyllt. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r cynllun yn cynnwys crynodeb o Raglen o Fesurau sydd eu hangen i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ynghyd â'r canlyniadau amgylcheddol y rhagfynegir dros y chwe blynedd nesaf. Gyda'i gilydd, bydd y dulliau a'r gweithredoedd a nodir yn y cynllun hwn yn effeithio ar holl fathau o ddŵr ar draws y dalgylchoedd sy'n rhan o'r cynllun rheoli; mae hyn yn cynnwys: afonydd, llynnoedd, camlesi, dŵr daear, gwlyptiroedd, aberoedd a dyfroedd arfordirol. Mae'r cynllun yn anelu at fod yn integredig ar raddfa'r dalgylch gan sicrhau ymgysylltiad ar draws yr amgylchedd ehangach i bobl a bywyd gwyllt, o'r dalgylch i'r arfordir.

Mae'r amcanion amgylcheddol yn y cynllun hwn yn gyfreithiol rwymol ac wedi'u cymeradwyo gan Weinidog Cymru dros Adnoddau Naturiol a'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae'r cyflawni gofynion Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd a chanllawiau statudol y llywodraeth. Mae'n disodli'r cynllun a gyhoeddwyd yn 2009, ac eithrio yng Nghymru, ar gyfer dadansoddiad economaidd o'r defnydd o ddŵr (2009 Atodiad K) ac addasu ar gyfer newid yn yr hinsawdd (2009 Atodiad H).

Mae'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth am:

- **Dosbarthiad cyrff dŵr** - Statws gwaelodlin ymhob corff dŵr. Mae hyn yn ein galluogi i ddeall cyflwr presennol y cyrff dŵr gan gynnwys yr holl elfennau ansawdd. Mae atal unrhyw ddirywiad o'r waelodlin hon yn un o amcanion allweddol y cynllun hwn, a hefyd yn un o'n heriau mwyaf wrth fynd ati i warchod yr amgylchedd dŵr.
- **Crynodeb y Rhaglen o Fesurau i gyflawni amcanion statudol** – Mae'r rhain yn cynnwys amcanion statudol i Ardaloedd Gwarchodedig. Mae'r rhaglen yn nodi'r gweithredoedd dros y cylch cynllunio hwn a'r blaengynllunio ar gyfer y trydydd cylch. Mae'n cynnwys fframwaith i adolygu a thracio hynt y gweithredoedd i'w cymryd dros y chwe blynedd nesaf gyda ffocws ar gydweithio a chyflenwi manteision lluosol i bobl a bywyd gwyllt.
- **Amcanion statudol i gyrff dŵr** - Nodwyd amcanion sy'n gyfreithiol rwymol. Gosodwyd yr amcanion hyn i bob elfen ansawdd ymhob corff dŵr, gan gynnwys amcan i'r corff dŵr yn ei gyfanrwydd. Yr amcan yw sicrhau statws da neu botensial erbyn 2021. Mewn rhai achosion, rydym wedi ymestyn y dyddiad cau hyd 2027 neu wedi gosod amcan sy'n llai na da lle gellir cyfiawnhau hynny ar sail amodau naturiol, amser adfer ecolegol, dichonoldeb technegol neu gost anghymesur.

Yn lleol, mae'r cynllun hwn wedi'i ddylanwadu gan yr adborth o'r ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal dros y tair blynedd diwethaf. Rydym yn benodol wedi cymryd sylw o sylwadau a wnaed i sicrhau bod y cynllun hwn yn adlewyrchu'r canlynol yn well:

- Eglurhad ar y newidiadau i safonau; ceir manylion am y safonau diwygiedig yn yr **Atodiad**.
- Gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio neu sydd eisoes ar waith ac sydd wedi'u nodi yn y Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth.
- Y gwahanol fathau o ddyfroedd, a llai o ffocws ar yr afon, yn benodol, bydd cynnwys mwy o wybodaeth am ddyfroedd ein haberoedd a'n harfordir, a thynnu sylw at holl weithredoedd yn yr amgylchedd dŵr croyw yn arwain at ollwng llai o faetholion a chemegion i'r amgylchedd aberol ac arfordirol.
- Nodi pa weithredoedd a fydd yn digwydd, ymhle, pryd, pwy sydd/all fod yn rhan ohonynt, a sicrhau'r manteision ehangach mwyaf posibl i gymdeithas a'r amgylchedd drwy bartneriaethau.
- Ymagwedd at fonitro cynnydd ynghyd â chyflenwi.
- Offer cymorth ar gyfer pontio'r bwlch rhwng y fframwaith strategol, dalgylchoedd a chyflenwi i helpu partneriaid i gyflenwi'n lleol, gan gynnwys cyfleoedd i rannu data a modelu allbynnau.

1.2 Llywio o amgylch y Cynllun Rheoli Basn Afon

Mae Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn ddogfennau strategol. Maent yn darparu gwybodaeth fanwl a gwybodaeth wedi'i chrynhai. Rydym wedi ceisio hyd orau ein gallu i sicrhau bod y cynllun yn hygyrch, ond cyflwynir y ddogfen i gyflawni gofynion statudol y Gyfarwyddeb. Ceir rhestr termau yn yr **Atodiad**. Os nad ydych yn gallu canfod y wybodaeth yr ydych yn chwilio amdani, cysylltwch â WFDWales@naturalresourceswales.gov.uk a bydd ein Tîm WFD yn eich helpu. Yn Lloegr, mae canllaw cynhwysfawr sef 'Guide to accessing river basin management and supporting information' ar gael ar dudalennau gwe y rheolaeth basn afon (www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015).

Mae sawl dogfen yn ffurfio'r Cynllun Rheoli Basn Afon ynghyd ag offeryn rhyngweithiol ar y we. Ceir amlinelliad o'r rhain yn Ffigur 1 ac fe'u disgrifir isod. Ceir amlinelliad hefyd o'r dogfennau ategol sy'n cynnwys asesiadau statudol sy'n ofynnol i'r Cynllun Rheoli Basn Afon.

Ffigur 1. Cynnwys y Cynllun Rheoli Basn Afon a dogfennau ategol

Cynllun Rheoli Basn Afon	
Crynodeb Cynllun Rheoli Basn Afon	Crynodeb o'r amcanion amgylcheddol a'r rhaglen o fesurau
Atodiad Trosolwg o'r Cynllun Rheoli Basn Afon/Trosolwg cynllunio cenedlaethol & gwybodaeth ychwanegol (rhan 2)	Crynodeb o'r prosesau technegol, economaidd ac ymgysylltu a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynllun
Arsylwi Dyfroedd Cymru /Mapiau, data & gwybodaeth ychwanegol	Mapiau rhyngweithiol sy'n cwrrd â gofynion dan Atodlen VII o'r Gyfarwyddeb
Adroddiad ar Gynnydd Cynllunio Basn Afon ar gyfer Cymru 2009-2015	Crynodeb o'r cynnydd ers y cynllun cyntaf
Rhestr Arfaethedig o Allyriadau, Gollyngiadau a Chollodion Sylweddau, a Gwybodaeth am Ddadansoddiad Cemegol	Gollyngiadau gwasgaredig ac uniongyrchol ym mhob un o Ardaloedd Basn Afon ar gyfer pob cemegyn y mae data ar gael ar ei gyfer, e.e. terfynau meintiol
Cofrestr Ardaloedd dan Warchodaeth	Cofrestr gyfredol o Ardaloedd dan Warchodaeth yn yr ardal basn afon
Dogfennau Ategol	
Datganiad o Fanylion	Cwrrd â gofynion statudol y Rheoliadau Asesiad Amgylchedd Strategol
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Cwrrd â gofynion statudol y Rheoliadau Cynefinoedd

Y Cynllun Rheoli Basn Afon

'Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy 2015 – 2021, Crynodeb (y ddogfen hon)

Fel Basn Afon trawsffiniol, rhennir cyfrifoldeb am gynllunio dyfodol Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio cyflwr presennol y Basn Afon a'r hyn ydym wedi'i gyflawni ers 2009, y Rhaglen o Fesurau ar gyfer gwella'r amgylchedd dŵr erbyn 2021, amcanion cyrff dŵr a rhagolwg i'r adolygiad sydd i ddigwydd yn 2021.

'Atodiad Trosolwg o Gynllunio Rheoli Basn Afon' (Atodiad) a 'Trosolwg o gynllunio cenedlaethol a gwybodaeth bellach' (Rhan 2)

Mae'r **Atodiad** yn darparu'r manylion technegol i Gymru sydd wrth wraidd y penderfyniadau a wnaed wrth lunio'r Cynllun Rheoli Basn Afon. Mae'n cyfeirio at nifer o ddogfennau ategol i'r wybodaeth a'r canllawiau mwy technegol. Yn Lloegr, cyflwynir y wybodaeth hon yn nogfen **Rhan 2**.

'Arsylwi Dyfroedd Cymru' a 'Mapiau, data a gwybodaeth ategol' – gwybodaeth, data a mapiau lleol ategol

Y ffordd orau i gyfle llawer o'r wybodaeth y cyfeirir ati yn y ddogfen hon yw trwy ddefnyddio mapiau neu daenlenni. Mae **Arsylwi Dyfroedd Cymru**¹ yn darparu gwybodaeth ar gyflwr presennol yr amgylchedd dŵr ynghyd â mesurau ac amcanion ar gyfer ei wella. Dyma offeryn gofodol rhyngweithiol ar y we sy'n darparu gwybodaeth ategol

¹ <http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/en/>

a chael golwg ar y wybodaeth sydd ar gael i'r maes penodol hwnnw. Mae'r **Catchment Data Explorer**² yn offeryn ar y we sy'n galluogi defnyddwyr i archwilio a chael gwybodaeth fanwl am ddalgylchoedd lleol a chyrrff dŵr unigol yn Lloegr. Mae mapiau GeoPDF, ystadegau a'r prif ganfyddiadau i Loegr ar gael ar **Sharefile platform** Asiantaeth yr Amgylchedd (<https://ea.sharefile.com/d-s5a5e886fd664e818>).

'Adroddiad Cynnydd ar Gynllunio Basn Afon yng Nghymru, 2009 - 2015' (Adroddiadau Cynnydd)

Mae'r **Adroddiad Cynnydd** yn rhoi gwybodaeth fanwl ar gyflwr presennol yr amgylchedd dŵr yng Nghymru a Basn Afon Dyfrdwy gan gynnwys dadansoddiad o welliannau a dirywiad ers cynllun 2009. Mae'n cynnwys adolygiad o'r canlyniadau ers 2009 a golwg ar y gwersi a ddysgwyd a fydd yn ein helpu i wella'r ddarpariaeth dros y chwe blynedd nesaf. Ceir crynodeb o'r adroddiad yn Adran 2.0 y crynodeb hwn.

'Rhestr Allyriadau, Gollyngiadau a Cholli Sylweddau a Gwybodaeth am Ddadansoddiad Cemegol' (Rhestr Allyriadau)

Mae'r Gyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol (2008/105/EC) (fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2013/39/EU) yn 'epil gyfarwyddeb' i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac yn nodi pa asesiadau, trefniadau adrodd ac amcanion sy'n ofynnol i Statws Cemegol. Mae'r Gyfarwyddeb Safonau Ansawdd Amgylcheddol yn nodi bod yn rhaid cynhyrchu rhestr o allyriadau, gollyngiadau a cholli sylweddau a llygryddion â blaenoriaeth. Mae'n cynnwys gollyngiadau gwasgaredig ac uniongyrchol o gemegion y mae data ar gael amdanynt ymhob Ardal Basn Afon. Defnyddir y rhestr i wirio bod allyriadau, gollyngiadau a cholledion yn gwneud cynnydd tuag at amcanion lleihau neu atal y cemegion a restrir dan y Gyfarwyddeb. Yn ôl y Gyfarwyddeb Sylweddau â Blaenoriaeth, mae'n rhaid cael gwybodaeth am ddadansoddiad cemegol er mwyn cyflwyno terfynau meintiol y dulliau dadansoddi a ddefnyddir, a gwybodaeth ar berfformiad y dulliau hynny mewn perthynas â meini prawf perfformio gofynnol.

Cofrestr Ardal Warchoddedig

Mae Cofrestr yr Ardaloedd Gwarchoddedig sy'n gorwedd o fewn ardaloedd basn afonydd wedi'i adolygu a'i ddiweddarau. Mae'n darparu gwybodaeth ar bob ardal warchoddedig gan gynnwys: dyfroedd ymdrochi (hamdden), dyfroedd pysgod cregyn, ardaloedd gwarchoddedig dŵr yfed, Natura 2000, ardaloedd sensitif o ran maetholion a Pharthau Perygl Nitradau.

Dogfennau/gwybodaeth ategol

Adroddiad Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)

Yn ôl y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (sef y Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol), mae'n rhaid sicrhau bod Datganiad o Fanylion ar gael cyn gynted â bo hynny'n ymarferol bosibl ar ôl cynhyrchu'r cynllun. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut mae'r cynllun wedi ystyried yr amgylchedd ehangach, ein rhesymau dros fabwysiadu'r cynllun fel y'i cynigir yng ngoleuni dewisiadau rhesymol eraill a hefyd sut y bwriadwn fonitro effeithiau sylweddol posibl y cynllun pan gaiff ei weithredu.

² <https://ea.sharefile.com/d-s5a5e886fd664e818>

Aseiad Rheoleiddio Cynefinoedd (HRA)

Cynhaliwyd Aseiad Rheoleiddio Cynefinoedd o'r Cynllun Rheoli Basn Afon wedi'i ddiweddarau i ystyried os yw'r cynllun yn debygol o gael unrhyw effaith sylweddol ar safleoedd Natura 2000. Daeth hwn i'r casgliad na fydd y cynllun yn cael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd, a'r broses o gyflawni'r amcanion statudol i wella'r safleoedd hyn. Cyhoeddwyd yr aseiad hwn ochr yn ochr â'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon.

Catchment Data Explorer

Rhaglen ar y we yw'r Catchment Data Explorer² sy'n helpu i archwilio a chael gwybodaeth fanwl am ddalgyloedd lleol a chyrrff dŵr unigol yn Lloegr.

1.3 Cwmpas gyda chynlluniau a rhaglenni eraill

Mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon hwn yn ategu nifer o gynlluniau a strategaethau ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Llywodraethau i helpu sicrhau bod yr amgylchedd dŵr yn cael ei reoli'n gynaliadwy ac i gyflawni amcanion ehangach Cyfarwydddebau eraill yr UE fel y Gyfarwydddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwydddeb Dyfroedd Ymdrochi ddiwygiedig. Ceir cyfeiriadau at rai o'r rhain o fewn y cynllun hwn, ac mae Tabl 1 yn crynhoi rhai ohonynt.

Tabl 1. Cynlluniau a strategaethau eraill sy'n gysylltiedig â rheoli dŵr

Mater	Teitl y cynllun/strategaeth	Corff arweiniol
Llifogydd ac erydu arfordirol	Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd	Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd
	Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol	Llywodraeth Cymru
	Rheolaeth perygl llifogydd ac arfordirol: senarios buddsoddiad tymor hir	Asiantaeth yr Amgylchedd, Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol
	Cynlluniau Rheoli Traethlin	Grwpiau Arfordirol, dan arweiniad awdurdodau lleol
	Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol	Awdurdodau lleol
	Cynllun Creu Cynefinoedd Cenedlaethol	Cyfoeth Naturiol Cymru

Addasu at newid hinsawdd	Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (2010)	Llywodraeth Cymru
	Strategaeth Genedlaethol y DU ar Addasu at Hinsawdd a Chynllun Addasu	Pwyllgor y Llywodraeth ar Newid yn yr Hinsawdd, Cyrff cyhoeddus a chwmnïau cyfleustodau
Cyflenwad dŵr	Strategaeth Ddŵr i Gymru a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig	Llywodraeth Cymru
Cyflenwad dŵr	Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr	Cwmnïau Dŵr
	Cynlluniau Sychder	Cwmnïau Dŵr
Bioamrywiaeth	Cynllun Adfer Natur (yn cael ei ddatblygu)	Llywodraeth Cymru
	Cynlluniau rheoli craidd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig/Ardaloedd Gwarchoddedig Arbennig	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Cynlluniau Thematig Life a Natura 2000 Cynlluniau gwella Natura 2000 (Cynlluniau Gweithredu â Blaenoriaeth a Chynlluniau Gwella Safle)	Cyfoeth Naturiol Cymru /Natural England
	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol	Awdurdodau Lleol /Partneriaeth leol
	Bioamrywiaeth 2020:Strategaeth ar gyfer gwasanaethau bywyd gwyllt ac ecosystem Lloegr	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)
Rhywogaethau estron goresgynnol (INNS)	Strategaeth fframwaith INNS Prydain Fawr	Bwrdd rhaglen rhywogaethau estron goresgynnol Prydain
Amaethyddiaeth	Cynllun Datblygu Gwledig	Llywodraeth Cymru
Coedwigaeth	Cynlluniau Dylunio Coedwig	Cyfoeth Naturiol Cymru
Hamdden	Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy	Awdurdod Lleol
Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)	Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol	Awdurdod Parc Cenedlaethol
	Cynlluniau Rheoli AHNE	Awdurdodau Lleol

Ansawdd yr aer	Cynlluniau Gweithredu Ansawdd yr Aer	Awdurdodau lleol
Morol	Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (arfaethedig)	Llywodraeth Cymru
	Blaenoriaethau Dyfroedd Ymdrochi	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Rhaglen o Fesurau Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol	Llywodraeth Cymru
Cemegion	Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid (Cynhyrchion Gwarchod Planhigion) 2013	Defra, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, DARDNI, HSE
	Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Confensiwn Stockholm ar Lygryddion Organig Parhaus 2013	Defra, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, DOENI

Rydym yn gweithio i gydgyssylltu cynllunio yn well ar draws meysydd eraill i sicrhau manteision ehangach i bobl a bywyd gwyllt. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau dŵr ac ansawdd yr aer, amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig, coedwigaeth, bioamrywiaeth, treftadaeth naturiol a hamdden.

1.4 Cyfrifoldeb dros weithredu'r cynllun hwn

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhannu cyfrifol am gynhyrchu'r cynllun rheoli basn afon. Fodd bynnag, ceir llawer o sefydliadau ac unigolion sy'n gyfrifol am reoli'r ardal basn afon. Yn aml, caiff y sefydliadau hyn eu grwpio i mewn i sectorau, ac mae Tabl 2 isod yn crynhoi'r sectorau hynny ynghyd â'u swyddogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys rheoleiddwyr, darparwyr, arbenigedd a chyrrff sy'n cynrychioli'r cyhoedd, yn enwedig y sectorau gwirfoddol drwy'r Cyrff Anllywodraethol. Dylai'r holl sectorau ystyried buddiannau'r cyhoedd drwy eu rôl.

Tabl 2. Grwpiau sector a'u rolau

Sector	Enghreifftiau o aelodau	Rôl: Rheoleiddio	Rôl: 1. Darparwr (yn cynnwys gweithredwr a phrosiectau). 2. Gwybodaeth, arbenigedd a dylanwad
Llywodraeth ac asiantaethau (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru,	Yn cynnwys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a	✓	✓

Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England a'r Comisiwn Coedwigaeth)	chyrrff llywodraethol datganoledig		
Llywodraeth leol	Yn cynnwys Cyngorau ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol	✓	✓
Cloddio a Chwarela	Cloddio glo, cloddio am ddeunydd ac eithrio glo a chwarela	✓	✓
Mordwyo	Yn cynnwys dyfrffyrdd mewndirol (Camlesi ac Ymddiriedolaethau Afon), porthladdoedd ac awdurdodau harbwr	✓	✓
Diwydiant Dŵr	Yn cynnwys cyflenwi dŵr, trin dŵr a charthion.	✓	✓
Amaethyddiaeth a rheoli tir gwledig	Yn cynnwys tir âr, da byw dwys, coedwigaeth a garddwriaeth.		✓
Diwydiant, Gweithgynhyrchu a Busnes arall	Yn cynnwys cemegion, adeiladu, bwyd a diod, papur a thecstilau a metelau, hefyd yn cynnwys pysgodfeydd masnachol (dŵr croyw a morol)		✓
Cyrrff Anllywodraethol (NGOs)	Yn cynnwys ymddiriedolaethau bywyd gwyllt lleol, partneriaethau'r glannau a chynrychiolwyr i bartneriaethau Dyfrdwy		✓
Hamdden	Yn cynnwys cerddwyr, canwyr, pysgodfeydd (dŵr croyw a morol) a grwpiau amwynder		✓

Nid yw bob amser yn briodol rheoli'r amgylchedd dŵr drwy gydlynu ar lefel ardal basn afon. Yng Nghymru, rydym yn ymrwymedig i integreiddio'r gwaith o reoli adnoddau naturiol a dull gweithredu ecosystemau ar lefel dalgylch. Mae ein hamcanion fel a ganlyn:

- Ceisio sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy.
- Cyflawni canlyniadau cadarnhaol a pharhaol ar gyfer yr amgylchedd dŵr drwy hyrwyddo dealltwriaeth well o'r amgylchedd a'i gydgyssylltiadau ar lefel leol.
- Annog cydweithredu lleol a phenderfyniadau cliriach wrth gynllunio a darparu gweithgareddau i wella'r amgylchedd dŵr.
- Sicrhau bod gwelliannau i'r amgylchedd dŵr yn cael eu gweithredu mewn ffyrdd sy'n sicrhau'r buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd gorau eraill.

Bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i ddatblygu cynlluniau rheoli basn afon mwy lleol drwy gynnig llwyfan i ymgysylltu, trafod a gwneud penderfyniadau â manteision ehangach o lawer.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn chwarae rôl ganolog o ran gweithrediad effeithiol y dull gweithredu ecosystemau drwy gefnogi gweithgareddau sy'n seiliedig ar y dalgylch gyda thystiolaeth, arbenigedd, cyngor ac arweiniad.

Mae Basn Afon Dyfrdwy hefyd yn cael ei oruchwylio gan banel cyswllt sy'n cynrychioli'r sectorau a ddangosir yn Nhabl 2. Mae'r panel hwn wedi bod mewn bodolaeth ers datblygu'r cynllun cyntaf yn 2009. Ers 2013, mae'r panel yn cynnwys cynrychiolydd partneriaethau Dyfrdwy.

1.5 Dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddalgylch

Mae dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddalgylch yn helpu i bontio'r bwloch rhwng cynllunio rheoli strategol ar lefel RBD a gweithgarwch ar raddfa corff dŵr lleol. Mae dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddalgylch yn ceisio annog grwpiau i gydweithio'n fwy effeithiol i ddelio gyda phroblemau amgylcheddol yn lleol. Fel RBD trawsffiniol, mae'r Ddyfrdwy yn manteisio ar yr ymagwedd rheoli adnoddau naturiol yng Nghymru a'r Ymagwedd Seiliedig ar Ardal yn Lloegr.

1.5.1 Yr ymagwedd at reoli adnoddau naturiol yng Nghymru

Mae rheoli adnoddau naturiol yn elfen allweddol o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2011 yn pwysleisio'r pwysigrwydd o reoli ein hadnoddau naturiol, ar y tir a'r môr, mewn ffordd fwy integredig. Mae hyn yn unol â'i hymrwymiad i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw ei hegwyddor drefniadol ganolog, fel y diogelwyd hynny'n gyfreithiol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae Bil yr Amgylchedd (Cymru) sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â Deddf Cynllunio (Cymru) a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru, yn nodi fframwaith statudol newydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Bydd y fframwaith newydd hwn ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn adeiladu ar ddull gweithredu ecosystemau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol, a ddiffinnir fel 'strategaeth integredig ar gyfer rheoli adnoddau naturiol'. Bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn deddfu ar gyfer proses reoli fwy cydlynol, sy'n canolbwyntio ar greu Cymru iachach, gadarnach drwy fuddiannau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.

Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymrwymedig i weithio tuag at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy wreiddio egwyddorion rheolaeth gynaliadwy (fel y nodir isod) yn ein holl waith. Mae'r ymagwedd hon yn rheoli'r amgylchedd fel bod y cydrannau gwahanol yn cael eu hystyried â'i gilydd, yn enwedig cadernid ecosystemau a'r manteision y maen nhw'n eu darparu. Yn bwysicach fyth, mae'n pwysleisio bod pobl eu hunain yn rhan o ecosystemau ac felly dylent fod yn rhan o'r penderfynu. Mae hyn yn cydfynd gyda chyngor ymgynghoriadau Cyfarwydeb Fframwaith Dŵr blaenorol a oedd yn nodi y dylem fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddalgylch sy'n darparu dealltwriaeth glir o'r materion yn y dalgylch ac sy'n cynnwys cymunedau lleol yn y penderfynu. Anelwn at wella'r amgylchedd yn ei gyfanrwydd drwy'r RBMP a thrwy gymryd fwy o gamau ar y cyd. Mae eisoes nifer o enghreifftiau da o weithio partneriaeth ac mae angen i ni adeiladu arnynt.

Mae hyn yn dechrau drwy adnabod y risgiau, blaenoriaethau a chyfleoedd strategol allweddol o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yna gweithio drwy'r materion a'r cyfleoedd ar lefel mwy lleol. Drwy adnabod y dulliau amrywiol y gellir eu defnyddio i ddiogelu a darparu buddiannau amgylcheddol (y mae cynlluniau rheoli basn afon yn un ohonynt), bydd yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r heriau hynny mewn ffordd fwy integredig – gan adlewyrchu anghenion yr ardal honno'n well. Mae'r dull yn cael ei dreialu mewn tair ardal yng Nghymru, yn nalgylchoedd Dyfi, Tawe a Rhondda. Mae'r fframwaith rheoli adnoddau naturiol yn dal i gael ei ddatblygu yng Nghymru, ond mae'r cynlluniau rheoli basn afon yn adlewyrchu'r elfennau allweddol o'r dull gweithredu newydd yn y ffyrdd canlynol:

Rheoli'n ymaddasol, drwy gynllunio, monitro ac adolygu'r camau a gymerwyd

Mae'r broses rheoli basn afon yn hyrwyddo rheolaeth ymaddasu. Mae cyflwr cyrff dŵr a'u cynnydd tuag at gyflawni statws da neu well yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Caiff y Cynlluniau Rheoli Basn Dŵr eu hadolygu a'u diweddarau bob 6 mlynedd. Caiff unrhyw weithredoedd a mesurau hefyd eu hadolygu fel rhan o'r broses gynllunio hon.

Cynllunio ar gyfer gweithredu ar y raddfa fwyaf priodol

Mae'r prosesau naturiol rydyn ni'n gweithio gyda nhw, a'r prosesau rheoli rydyn ni'n ceisio dylanwadu arnynt, yn tueddu i weithio ar raddfeydd gwahanol. Dylai'r broses o reoli adnoddau naturiol ar lefel ardal adlewyrchu hyn ac anelu at reoli gwasanaethau ecosystem ar y raddfa fwyaf priodol, gan ystyried y mecanweithiau rheoli gorau ar gyfer gwneud hynny. Mae'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr yn ei gwneud yn ofynnol i ni lunio ac adolygu cynlluniau rheoli ar lefel basn afon. Fodd bynnag, mae'n well ceisio deall a datrys llawer o'r problemau y mae'r amgylchedd dŵr yn eu hwynebu ar lefel dalgylch. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â materion lleol fel llygredd o ffynonellau gwasgaredig, sy'n cynrychioli pwysau sylweddol ledled Cymru.

Hyrwyddo a chyfrannu mewn cydweithredu a chydweithio

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod priodol ar gyfer y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru ond dim ond tua saith y cant o dir Cymru ei hun y mae'n ei reoli. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnwys rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, cymunedau, datblygwyr a diwydiant, drwy'r broses o lunio a gweithredu'r cynlluniau rheoli basn afon.

Ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth ar gyfer unrhyw ansicrwydd

I lywio datblygiad y dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ardal, mae angen i ni ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael o amryw ffynonellau, gan adeiladu ar ein gwybodaeth ni yn ogystal â'n rhanddeiliaid a chymunedau lleol. Byddwn yn defnyddio'r dull gweithredu pragmataidd mewn perthynas â thystiolaeth, gan gymhwyso'r egwyddor o gasglu unwaith, defnyddio sawl gwaith.

Mae cynnwys y cynllun rheoli basn afon hwn yn seiliedig ar sail dystiolaeth sylweddol a gasglwyd drwy ein rhaglenni monitro, ein hymchwiliadau a'n hasesiadau economaidd.

Ystyried buddiannau a gwerth cynhenid adnodau naturiol ac ecosystemau

Mae ein hecosystemau yn darparu ystod eang o wasanaethau a buddiannau i ni. Bydd angen i ni ystyried y rhain pan fyddwn yn penderfynu sut i'w defnyddio, fel eu bod yn darparu buddiannau lluosog i ni i'r hirdymor. Mae hyn yn golygu ystyried eu gwerth cynhenid.

Drwy weithio gydag eraill mewn dalgylchoedd, y nod yw:

- Deall y materion yn y dalgylch a sut maent yn rhyngweithio
- Deall y ffyrdd y mae systemau dŵr a hydrolegol yn darparu buddiannau i bobl, busnesau, ac yn cefnogi a chynnal yr amgylchedd ehangach
- Deall sut mae'r materion hyn yn effeithio ar fuddiannau lleol presennol a'r defnydd o ddŵr yn y dyfodol
- Cynnwys pobl, cymunedau, sefydliadau a busnesau lleol wrth wneud penderfyniadau drwy rannu tystiolaeth
- Nodi pa faterion y dylid mynd i'r afael â nhw fel blaenoriaeth

Ystyried canlyniadau byrdymor, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd

I greu Cymru gynaliadwy, mae angen i ni ystyried y cyfleoedd a'r cyfyngiadau y bydd Cymru yn eu hwynebu yn yr hirdymor. Ystyriwyd hyn fel rhan o'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ynghyd â chanlyniadau ar yr amgylchedd ehangach a'r effeithiau cronus/ anuniongyrchol. Mae cynlluniau rheoli basn afon yn ystyried amcanion hirdymor ar gyfer gwella, a chânt eu hadolygu bob chwe blynedd.

Ystyried cadernid ecosystemau

Mae ecosystem gadarn yn un sy'n iach ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n gallu ymateb i'r pwysau a'r gofynion a roddir arni, ac yn gallu cyflawni buddiannau yn yr hirdymor i gwrdd ag anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cyfredol. Bydd angen i'r dull gweithredu newydd gynllunio i ddarparu buddiannau amrywiol, hirdymor i'r amgylchedd a hefyd i'r economi a chymdeithas – gan adlewyrchu nodau lles hirdymor Cymru. Bydd sicrhau cadernid yr ecosystemau ategol a'u gweithrediad yn allweddol i gynaliadwyedd hirdymor y gwasanaethau a'r buddiannau y gallant eu darparu.

Gall y camau gweithredu a gynigir yn y cynllun rheoli basn afon hwn gynnig manteision amrywiol, er enghraifft, gall gwella prosesau rheoli tir ar yr ucheldir gael buddiannau sylweddol o ran gwrthsefyll newid hinsawdd, dal carbon, storio llifogydd ac ansawdd dŵr i lawr yr afon.

Ceir gwybodaeth bellach ar fanteision a chyfyngiadau posibl mesurau ar ecosystem, ac ystyriaeth o'r gwaelodlin i bob ecosystem a'r effeithiau potensial gyda a heb y mesurau, yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

1.5.2 Partneriaethau Dalgylch yn Lloegr

Yn Lloegr, mae partneriaethau dalgylch yn grwpiau o sefydliadau a chanddynt ddiddordeb mewn gwella'r amgylchedd yn eu hardal leol dan arweiniad un sefydliad dalgylch arweiniol. Mae dwy bartneriaeth yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy, sef Partneriaeth Dyfrdwy Ganol (Middle Dee Partnership) a Dyfrdwy Lanwol (Tidal Dee Partnership). Maent yn cyfrannu at lywio'r broses Cynllunio Rheolaeth Basn Afon ac yn cynorthwyo i roi mesurau ar waith drwy:

- ddarparu tystiolaeth leol
- targedau a chydlynu gweithredoedd
- adnabod a chaffael cyllid ar gyfer gwelliannau yn y dalgylch
- ymgorffori Cynllunio Rheolaeth Basn Afon i reolaeth amgylcheddol ehangach y dalgylch

Mae'r partneriaethau yn gweithio ar ystod eang o faterion gan gynnwys y canlynol (ond nid y canlynol yn unig): rheolaeth o'r amgylchedd dŵr a rheolaeth o'r basn afon. Mae partneriaethau yn cynnwys aberoedd a dyfroedd arfordirol. Defra sy'n arwain y fenter hon, ond mae'r partneriaethau yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar draws dalgylchoedd y Ddyfrdwy Lanwol a'r Ddyfrdwy Ganol yn eu cyfanrwydd. Mae'r ddau grŵp partneriaeth ond megis dechrau ond maent eisoes wedi cynhyrchu cynllun gweithredu dalgylch.

Mae gwybodaeth bellach am y dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddalgylch yn Lloegr yn adran 3.4 o **Ran 2** (<https://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plan-update>).

1.6 Monitro ac adrodd ar gynnydd dros y chwe blynedd nesaf

Bydd effeithiolrwydd y cynllun hwn yn cael ei fonitro o ran cyflawni'r amcanion i warchod yr amgylchedd dŵr a sicrhau statws da. Mae hyn yn cynnwys gofynion adrodd y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, trefniadau adrodd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, a gweithio gyda'r Paneli Cyswllt i dracio ac adrodd ar gynnydd ar raddfa Cynllun Rheoli Basn Afon a dalgylch. Bydd partneriaethau'r Tidal a'r Middle Dee yn adrodd ar gynnydd yn erbyn eu cynlluniau gweithredu dalgylch a hynny wedyn yn cael ei fwydo i'r prif adroddiadau drwy Banel Cyswllt Dyfrdwy sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r grwpiau dalgylch. Mae gan lawer o'n rhanddeiliaid eu rhaglenni eu hunain mewn lle, ac fe geisiwn alinio'n rheiny, lle bo hynny'n bosibl, drwy waith y Paneli Cyswllt. Caiff hyn ei nodi mewn Rhaglen Gyflenwi i'r cylch chwe blynedd a fydd yn llywio'r ymagwedd a ddefnyddir; gan gynnwys gosod cerrig milltir ar gyfer adrodd ar weithredoedd a chanlyniadau, a chyfleoedd ar gyfer arfarnu ac adolygu. Bydd yn rhaid i'r gwaith hwn gynnwys camau i'w cymryd lle nad yw gweithredoedd neu ganlyniadau wedi'u cyflenwi neu lle nad yw'n bosibl eu cyflenwi, er mwyn gwneud addasiadau ar draws y rhaglen. Mewn rhai achosion, bydd yn rhaid cytuno ar newidiadau i'r rhaglen ar draws y sectorau er mwyn sicrhau bod modd cyflawni amcanion cyffredinol y cynllun hwn. Bydd gwaith cyflenwi'r Rhaglen o Fesurau (Adran 3.0), effeithiolrwydd y rhaglen a chyflawni canlyniadau'r amgylchedd (Adran 4.0) yn ddangosyddion allweddol wrth adrodd ar gynnydd.

2. Statws presennol ac adolygiad o gynnydd

Mae'r adran hon yn amlinellu'r statws presennol ynghyd ag adolygiad o gynnydd yn yr Ardal Basn Afon. Mae hyn yn cynnwys:

- y gwaelodlin newydd a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer adrodd ar gynnydd o hyn hyd 2021. Mae'r waelodlin yn seiliedig ar y safonau, y newidiadau methodolegol a'r rhwydwaith o gyrff dŵr a gyflwynwyd i ail gylch Cynllunio Rheoli Basn Afon, gan gynnwys rhai safonau sydd wedi'u diweddarau, a maint/hyd rhai cyrff dŵr.
- trosolwg o'r cynnydd a wnaed ers 2009 yn seiliedig ar yr un rhwydwaith o gyrff dŵr, trefniadau dosbarthu a safonau a osodwyd yn y cylch cyntaf. Mae'r **Adroddiad Cynnydd** yn cynnwys manylion pellach ar y cynnydd a wnaed yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy yn ystod y cylch cyntaf.

Am wybodaeth bellach ar y newidiadau rhwng y fethodoleg a ddefnyddir yn y cylch cyntaf a'r ail gylch, gweld yr **Atodiad/Rhan 2**.

2.1 Ardal Basn Afon Dyfrdwy

Mae Ardal Basn Afon Dyfrdwy yn gartref i dros 500,000 o bobl ac mae'n cynnwys 2,251 cilometr sgwâr o Ogledd-ddwyrain Cymru, Swydd Gaer, Swydd Amwythig a'r Wirral. Mae'r ardal yn cynnwys un basn afon; Afon Dyfrdwy, ei llednentydd a'i haber. Nodweddir yr ardal gan dirwedd amrywiol. Mae'n amrywio o fynyddoedd a llynnoedd Parc Cenedlaethol Eryri yn rhan uchaf y basn, trwy Ddyffryn Llangollen yn y rhannau canol, i wastadeddau agored Swydd Gaer a fflatiau llaid Aber Dyfrdwy yn y basn isaf.

Caer a Wrecsam yw'r ddwy brif ganolfan drefol, ond mae'r tir yn wledig ei natur, a'i brif ddefnyddiau yw amaethyddiaeth a choedwigaeth, yn benodol yn rhan uchaf y basn, a thir â'r ffermio llaeth ar Wastadedd Swydd Gaer. Mae Afon Dyfrdwy a'i llednentydd yn enwog am gynnig lle ardderchog i bysgota ac mae pysgodfa gocos bwysig wedi'i lleoli ar yr aber. Mae dŵr ymdrochi a ddynodwyd gan yr UE yng Ngorllewin Kirby, a nifer o ddyfroedd ymdrochi eraill nad ydynt wedi'u dynodi gan yr UE dan reolaeth Awdurdodau Lleol o amgylch yr aber. Mae'r afon Dyfrdwy yn boblogaidd ar gyfer canŵio a'r Ganolfan Dŵr Gwyn Cenedlaethol wedi ei lleoli ar yr Afon Tryweryn ger y Bala.

Mae nifer o ddynodiadau yn cydnabod pwysigrwydd tirwedd dalgylch y Ddyfrdwy, ei fioamrywiaeth, geoamrywiaeth, treftadaeth a'i bwysigrwydd o ran hamdden, mynediad a diwylliant. Mae gwerth cadwraethol uchel i'r Ddyfrdwy a'i haber, fe'i dynodir fel dwy Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), ac mae yno dri Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) unigol. Mae llyriad dŵr arnawf, eog yr lwerydd, lampreiod, dyfrgwn a newidiadau strwythurol yn rhan ystumiol y brif afon ymhlith y nodweddion diddorol sy'n cyfrannu at ddynodiadau SoDdGA ac ACA rhannau dŵr croyw yr afon. Mae cynefinoedd rhynglanwol aber Dyfrdwy hefyd yn gartref i boblogaethau sylweddol o adar hirgoes a dynodwyd yr aber yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a safle Ramsar.

Ymestynnwyd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd yn 2011 i gynnwys rhannau o Ddyffryn Dyfrdwy, gyda thirnodau hanesyddol fel Traphont Ddŵr Pontcysyllte sy'n cludo Camlas Llangollen dros afon Dyfrdwy ac sydd hefyd yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Ymhellach i fyny'r afon, mae'r tir uchel i'r de o'r Ddyfrdwy o amgylch Corwen yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol y Berwyn, a ddynodwyd hefyd, ynghyd â mynyddoedd De Clwyd, yn ACA.

Mae bron tair miliwn o bobl yn cael eu dŵr yfed o afon Dyfrdwy, gan gynnwys llawer o Ogledd-orllewin Lloegr. Defnyddir y cronfeydd dŵr yn rhan uchaf y dalgylch i storio dŵr a rheoli'r llif yn afon Dyfrdwy. Maent yn rheoli tyniad dŵr ar gyfer cyflenwadau cyhoeddus a

diwydiannol ac yn addasu ymateb i lifogydd yn yr afon, gan leihau amlder y llifogydd yn afon Dyfrdwy rhwng Bala a Chaer. Dyfrhaen o dywodfaen Permo-Triassic sydd islaw rhannau o ddalgylch y Ddyfrdwy. Defnyddir y ddyfrhaen hon i gynnal tyniadau dŵr er dibenion amaethyddol, diwydiannol a chyhoeddus, ac mae'n cyfrannu at lif y dŵr yn y Ddyfrdwy isaf a rhai o'r llednentydd.

Ers 1 Ebrill 2013 mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyd-gyfrifol am reoli System Rheoleiddio Afon Dyfrdwy o dan Ddeddf Awdurdod Afonydd Dyfrdwy a Chlwyd 1973. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cytuno i arwain hyn o dan dermau "cytundeb darparu gwasanaeth" ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Cynorthwyr Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd i lunio rheolau rheoli gweithredol gan Bwyllgor Ymgynghorol Dyfrdwy sy'n cynnwys dau aelod o Cyfoeth Naturiol Cymru, un aelod o Asiantaeth yr Amgylchedd, un aelod o'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, ac un cynrychiolydd yr un o Dŵr Dyffryn Dyfrdwy, Dŵr Cymru ac United Utilities.

Sefydlir rheolau Rheoli Gweithredol i weithredu'r cynllun o dan amodau "cyffredinol" a "sychder". Yn y rheolau hyn ac yn y pwerau a roddwyd trwy Ddeddf Awdurdod Afonydd Dyfrdwy a Chlwyd, gall Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd nodi lefel y llif gweddilliol i'w gynnal dros Gored Caer, a rhoi manylion mesurau penodol i'w cymryd i leihau'r gofynion ar y system os oes sychder. Mae'n rhaid hefyd ystyried lliniaru llifogydd, gan gyflenwi cyfaint penodol o ddŵr i'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd ar gyfer Camlas Shropshire Union, gan ddiogelu'r pysgodfeydd a'r dibenion eraill gan gynnwys diogelu nodweddion a chynefinoedd penodol a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd y gallai rheolaeth o lifoedd yn Afon Dyfrdwy a'r mesurau lliniaru llifogydd effeithio arnynt.

Mae pwysigrwydd strategol Afon Dyfrdwy fel ffynhonnell dŵr yfed a'r risg bosibl iddi o lygredd wedi peri i Afon Dyfrdwy fod yn un o'r afonydd sy'n cael ei gwarchod fwyaf yn Ewrop gyda threfniadau monitor ansawdd dŵr hynod o drylwyr. Mae'r Cwmnïau Dŵr (Dŵr Cymru/Welsh Water, Dee Valley Water ac United Utilities), yn cyd-ariannu rhaglen sy'n monitro'n ddwys ansawdd dŵr yr afon, gan weithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi parhaus ar-lein ar gyfer ystod o lygryddion posibl mewn 3 lleoliad ar y brif afon, ynghyd â phrofi sbot-samplau a gymerir mewn 8 lleoliad, gan gynnwys y prif lednentydd, ddwywaith y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Yn 1999, dynodwyd rhan isaf Afon Dyfrdwy yn Barth Gwarchod Dŵr.

Pwysigrwydd partneriaethau yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy

Yn 2013, lansiodd Asiantaeth yr Amgylchedd y dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddalgylch (CaBa). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhoi gwerth ar wneud penderfyniadau yn gydweithredol ac ar weithredu lleol i helpu sicrhau gwelliannau i gyrrff dŵr ledled Ardal Basn Afon Dyfrdwy.

Yn 2013, bu Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru mewn cydweithrediad gyda'r Cheshire Wildlife Trust yn llwyddiannus yn ei gais am arian Asiantaeth yr Amgylchedd i ddatblygu partneriaethau dalgyllch yn y Dyfrdwy Ganol a Dyfrdwy Lanwol. Mabwysiadwyd ymagwedd drawsffiniol o'r cychwyn cyntaf er mwyn cydweithio a gyda golwg ar sicrhau arian o Gymru i gynnal gwaith yn y dyfodol. Mae grŵp llywio yn cefnogi'r ddwy bartneriaeth.

Mae partneriaethau Dyfrdwy Lanwol a Dyfrdwy Ganol yn anelu at gynnal, gwella a gwarchod dalgyllch ac aber Dyfrdwy drwy integreiddio'r dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddalgylch i hyrwyddo defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd, gwella gwerth bywyd gwyllt a

darparu hamdden a mynediad i natur. Cheshire Wildlife Trust sy'n arwain partneriaeth Dyfrdwy Lanwol ac Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru sy'n arwain partneriaeth Dyfrdwy Ganol. Ceir gwybodaeth bellach ar brosiectau a gweithredoedd lleol yn Adran 3; mae gwybodaeth ar gael hefyd ar **Arsylwi Dyfroedd Cymru** ynghyd â data a mapiau ategol.

Ffigur 2. Ardal Basn Afon Dyfrdwy



2.2 Statws presennol yr Ardal Basn Afon

Mae statws presennol yr Ardal Basn Afon yn 2015 yn ein galluogi i adolygu'r cynnydd a wnaed yn ystod y chwe blynedd diwethaf ac yn gosod sylfaen ar gyfer y cylch nesaf hwn o gynllunio basn afon. Mae'r statws presennol yn cael ei asesu ar y safonau, methodoleg a'r rhwydwaith cyrff dŵr a gyflwynwyd i ail gylch Cynllunio Rheoli Basn Afon. Yn 2015, mae 27 o'r cyrff dŵr, gyfwerth â 28%, wedi cyflawni statws da neu well. Mae gan 70 o'r cyrff dŵr, gyfwerth â 71%, amcan o statws da neu well i'w gyflawni erbyn 2021. Fodd bynnag, mae yna gryn ansicrwydd y bydd modd sicrhau gwelliant mor sylweddol erbyn 2021 fel yr amlinellir yn adran 4.1. Yng Nghymru, bwriadwn wella lefelau cydymffurfio gyda statws da trwy weithredu mesurau yn lleol mewn ffordd integredig er mwyn cyflawni gwelliannau amgylcheddol yng nghyrrff dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac Ardaloedd Gwarchoddedig. Bydd hyn yn cynnwys targedu 7 cyrff dŵr i sicrhau gwelliant gyfwerth â 7% yn y lefelau cydymffurfio gyda'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr erbyn 2021.

Mae'r adran hon yn nodi'r waelodlin gaiff ei defnyddio ar gyfer adrodd cynnydd rhwng hyn a 2021. Dengys Tabl 3 nifer a math y cyrff dŵr yn yr Ardal Basn Afon ar gyfer 2015 - 2021. Mae hyn wedi newid ers y Cynllun Rheoli Basn Afon cyntaf a dyma fydd y waelodlin newydd i'r chwe blynedd nesaf. Mae afonydd, nentydd neu sianeli draenio o bob hyd wedi'u gwarchod gan ein deddfwriaeth ddomestig. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn nodi bod yn rhaid i ni adrodd ar statws ein cyrff dŵr ac i wneud hynny (er enghraifft yn y Cynllun Rheoli Basn Afon), rydym yn defnyddio llinell afon o fewn y dalgylch hwnnw. Yn y Cynllun Rheoli Basn Afon cyntaf, codwyd y llinell afon (cyfeirir ati'n aml fel y 'llinell las') o'r rhwydwaith afon graddfa 1:50,000. Mae hyn wedi'i ddiweddarau gan ddefnyddio'r 'rhwydwaith afon manwl'. Llinell afon ar gyfer adrodd yn unig yw hon, a dyma'r llinell afon sy'n ymddangos ar fapiau yn y Cynllun Rheoli Basn Afon diweddaraf. Mae'r newidiadau hyn yn golygu bod nifer o nentydd bach (h.y. cyrsiau dŵr llai na 1km o hyd neu gyda dalgylch llai na 10 km²) wedi'u dileu. Mae'r isafswm maint yn cyd-fynd gyda bwriad gwreiddiol y Gyfarwyddeb. Er nad ydym yn adrodd ar y dyfroedd bach hyn, mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn berthnasol i holl gyrrff dŵr wyneb, ac nid i'r rhai sy'n cael eu dangos fel llinell las ar fapiau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn unig. Lle mae darn o ddŵr yn rhy fach i gael ei adnabod yn ffurfiol fel corff dŵr, neu'n rhy fach i ddangos ar fap o'r corff dŵr, mae'n parhau i gael ei warchod yn ôl y gyfraith rhag llygredd, addasiad a thyniad, ac mae'n parhau i fod yn bosibl ei wella os yw gweithredoedd ac asesiadau lleol o'r farn ei fod yn flaenoriaeth. Mae cyrff dŵr yn unedau adrodd ac yn ddangosyddion o iechyd yr amgylchedd dŵr ehangach. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn asesu cyflwr y cyrff dŵr hyn drwy fonitro, sy'n cynhyrchu dosbarthiad. Ceir manylion technegol pellach yn esbonio sut y gwneir hyn yn yr **Atodiad/Rhan 2**.

Tabl 3. Nifer a math y cyrff dŵr ar gyfer 2015-2021

Nifer y cyrff dŵr	Naturiol	Artiffisial	Wedi'i addasu'n sylweddol	Cyfanswm
Afon	50	-	21	71
Llyn	4	-	17	21
Arfordirol	-	-	-	-
Aberol	-	-	1	1
Dŵr Daear	5	-	-	5
Cyfanswm	59	-	39	98

Mae'r mathau o dŵr gyrff wedi'u hisrannu yn ddyfroedd wyneb sy'n cynnwys afonydd, llynnoedd, dŵr arfordirol ac aberol a dŵr daear. Mae yna 93 o gyrff dŵr wyneb a 5 o gyrff dŵr daear o fewn Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Mae hyn yn cynnwys cyrff wedi'u haddasu'n sylweddol newydd sydd wedi'u dynodi fel rhan o adolygiad y cylch cyntaf. Mae Tabl 4 a Thabl 5 yn dangos statws presennol y mathau hyn o gyrff dŵr, a dyma'r waelodlin i'r chwe blynedd nesaf.

Tabl 4. Crynodeb o ddisbarthiad ecolegol a chemegol dyfroedd wyneb 2015. (Noder bod ail gylch y safonau cemegol mewn biota wedi'i ddefnyddio yn y dosbarthiad lle mae data ar gael).

Nifer y cyrff dŵr	Statws neu botensial ecolegol					Statws cemegol	
	Gwael iawn	Gwael	Canolig	Da	Uchel	Methu	Da
93	0	7	61	25	0	10	83

Tabl 5. Crynodeb o ddisbarthiad cemegol a meintiol dŵr daear 2015

Nifer y cyrff dŵr	Statws meintiol		Statws cemegol	
	Gwael	Da	Gwael	Da
5	0	5	1	4

Yn ogystal â'r cyrff dŵr a ddiffiniwyd, mae yna hefyd nifer o Ardaloedd Gwarchoddedig sydd angen cyflawni'r amcanion a'r gofynion sy'n berthnasol i'w dynodiad a'u defnydd penodol.

Mae data monitro diweddaraf cynefinoedd a rhywogaethau Natura 2000 sy'n ddibynnol ar ddŵr yn dangos bod 11% yn ffafriol yn rhan Cymru'r Ardal Basn Afon. Mae'r drefn adrodd yn wahanol yn Lloegr lle mae'r adrodd ar gyflwr yn digwydd ar sail uned. Mae data monitro diweddaraf yn dangos bod 2,623ha yn ffafriol yn rhan Lloegr yr Ardal Basn Afon. Felly, cyflwynir y data ar wahân i'r ddwy wlad gan nad oes modd cymharu'r data.


Mae'r UE hefyd yn gofyn bod Aelod Wladwriaethau yn llunio rhestr o allyriadau, gollyngiadau a cholledion sylweddau â blaenoriaeth i bob Ardal Basn Afon ochr yn ochr â dadansoddi nodweddion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Lluniwyd y rhestr gan ddefnyddio monitro amgylcheddol a data tarddleoedd arllwysyadau elifol. Bwriedir defnyddio'r rhestr fel astudiaeth waelodlin yn y lle cyntaf, ac mae'r fethodoleg a'r canlyniadau yn y **Rhestr Allyriadau**.

2.3 Crynodeb o'r materion rheoli dŵr sylweddol

Mae'r materion pwysicaf y credwn ni sy'n bygwth y defnydd a wneir o'r amgylchedd dŵr ar hyn o bryd ac i'r dyfodol wedi'u grwpio'n faterion rheoli dŵr sylweddol ac fe'u dangosir yn Ffigur 3. Mae'r rhain yn seiliedig ar y safonau, y methodolegau a'r rhwydwaith cyrff dŵr a gyflwynwyd ar gyfer ail gylch Cynllunio Rheoli'r Basn Afon. Adolygwyd y rhain yn 2014 yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o raglen gynllunio barhaus y basn afon. Dyma'r prif faterion y bydd y Rhaglen o Fesurau arfaethedig, y manylir arni yn Adran 3, yn ymdrin â nhw i warchod a gwella'r amgylchedd dŵr ar draws Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Mae Adran 3 hefyd yn cynnwys manylion pellach ar y prif raglenni a fydd yn allweddol i gyflawni'r amcanion, a chrynodeb o weithredoedd lleol. Mewn rhai achosion, bydd yn rhaid

i ni fynd i'r afael â rhai o'r materion rheoli dŵr sylweddol gan weithio ar draws sectorau amrywiol a gyda sefydliadau eraill er mwyn gallu cyflawni ein hamcanion, er enghraifft, gweithredu lle mae methiannau yn dilyn mewnbynnau maetholion a bacteria o lygredd gwasgareddig gwledig, a gweithredu yn achos prosesau trin carthion a dŵr gwastraff.

Ffigur 3. Rhesymau dros beidio â chyflawni da yn 2015



Addasiadau ffisegol – yn effeithio ar 38% o gyrff dŵr

Dyma'r newidiadau y mae cymdeithas yn eu gwneud ac yn parhau i'w gwneud i afonydd, llynnoedd, aberoedd a'n morlin: canlyniad hyn yn y pen draw yw bod maint a siâp cynefinoedd naturiol yn newid. Mae addasiadau ffisegol yn gallu cynnwys sythu sianelau yn artiffisial i wella mordwyo neu reoli perygl llifogydd, strwythurau a gynlluniwyd i leihau'r risg o lifogydd, strwythurau rheoleiddio llif i greu cronfeydd, argaeau a choredau, neu weithgareddau rheoli tymor-byr fel carthu neu waredu llystyfiant.

Mae newidiadau ffisegol yn gallu achosi newidiadau i'r llif naturiol a lefelau dŵr gan arwain at Groniadau gormodol o waddod a cholli cynefin y mae ei angen ar fywyd gwyllt i ffynnu. Mae llawer o'n trefi a'n dinasoedd wedi'u hadeiladu o amgylch yr amgylchedd dŵr ac mae'n rhaid i ni ganfod atebion cynaliadwy i sicrhau nad yw'r materion hyn yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd dŵr, yr economi, iechyd a lles. Mae'n bosibl bod rhai addasiadau hanesyddol wedi bod mewn bodolaeth ers sawl blwyddyn, gan ddarparu manteision i'r gymdeithas. Lle mae'r addasiadau ffisegol hyn yn arwain at fethiant amcanion amgylcheddol, mae angen mesurau lliniaru ymarferol a rhesymol. Nod y mesurau lliniaru hyn yw gwella ac adfer ansawdd yr amgylchedd fel ag y mae.

Wrth i'n poblogaeth dyfu ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd gynyddu, mae'r pwysau i addasu cyrff dŵr yn ffisegol yn y dyfodol yn debygol o gynyddu hefyd, wrth i ni amddiffyn ein hunain a'n cartrefi o'r perygl cynyddol o lifogydd a sychderau. Mae'n rhaid gwneud yr addasiadau hyn mewn ffordd sy'n amgylcheddol sensitif o fewn cyfyngiadau dichonoldeb

technegol a chostau, a helpu gwella ein gallu i ymdopi â phwysau eraill gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, hamdden a physgota. Bydd adfer naturioldeb ein dyfroedd yn helpu i wella cynefinoedd a symudiad pysgod drwy'r dalgylchoedd; gallai hyn gynnwys defnyddio mesurau cadw dŵr naturiol fel creu gwlyptiroedd neu ail-alinio arfordirol. Gall Ardaloedd Gwarchodedig, yn enwedig safleoedd Natura 2000 fanteisio ar y gwaith a wneir i fynd i'r afael â'r effeithiau hyn hefyd.

Newidiadau i lif a lefelau naturiol dŵr – yn effeithio ar 2% o gyrff dŵr

Mae newidiadau i lif a lefelau naturiol dŵr mewn afonydd, aberoedd a dŵr daear drwy amrywiad hinsoddol tymhorol neu dynnu dŵr yn pennu faint o ddŵr sydd ar gael i bobl a bywyd gwyllt. Mae lleihad yn y llif a'r cyfaint yn gallu effeithio ar y ffordd rydym yn defnyddio dŵr yn ein bywydau bob dydd, ar ddŵr yfed a dibenion penodol fel amaethyddiaeth, busnes a diwydiant, a hyd yn oed ar weithgareddau beunyddiol fel golchi a dyfrio ein gerddi. Mae newidiadau yn nhwf poblogaeth a'r cynnydd yn nifer yr aelwydydd un person yn creu mwy o bwysau ar y galw am ddŵr. Mae prinder dŵr yn effeithio'n andwyol ar ein cynefinoedd a'n ffordd o fyw o ddydd i ddydd.

Gallai newidiadau i lif a lefel naturiol dŵr effeithio ar rai safleoedd Natura 2000, yn enwedig Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) sy'n ddibynnol ar ddŵr. Bydd gwella'r ffordd gaiff adnoddau dŵr eu rheoli yn sicrhau bod digon o ddŵr o ansawdd da ar gyfer amgylchedd dŵr iachach a chyflenwadau sicr o ddŵr ar gyfer bobl, busnesau ac amaethyddiaeth. Bydd hynny hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd hamdden a chynyddu gwerth amgylcheddau naturiol fel mannau amwynder, gan arwain at fanteision iechyd i bobl.

Bydd defnyddio dŵr yn effeithlon, patrymau defnydd tir cynaliadwy mewn ardaloedd trefol a gwledig, rheoleiddio gyda thrwyddedau tynnu a gwelliannau i gynefinoedd oll yn cyfrannu at warchod ein dyfroedd rhag effeithiau newidiadau i lif a lefelau dŵr.

Llygredd o garthion a dŵr gwastraff – yn effeithio ar 23% o gyrff dŵr

Gall dŵr gwastraff gynnwys symiau mawr o faetholion (fel ffosforws a nitradau), amonia, metelau a sylweddau niweidiol eraill gan gynnwys firsau a bacteria. Gall y rhain effeithio'n andwyol ar gynefinoedd ac effeithio'n fawr hefyd ar ein defnydd o ddŵr, yn enwedig defnydd hamddenol o ddyfroedd ymdrochi a dyfroedd sy'n cynnal pysgod cregyn ar gyfer eu bwyta. Mae'r holl ddŵr daear yn yr Ardal Basn Afon hon yn ffurfio rhan o Ardal Warchodedig Dŵr Yfed (DWPA). Mae gollyngiadau heb eu rheoleiddio i'r ddaear a charthffosydd sy'n gollwng dan y wyneb yn gallu achosi llygredd yn y tarddle a llygredd gwasgaredig i adnoddau dŵr daear.

Mae llygryddion yn cyrraedd yr amgylchedd dŵr mewn gollyngiadau o weithfeydd trin carthion, gorlifoedd carthion (naill ai wedi'u trin neu heb eu trin) a thanciau septig a gweithfeydd trin carthion mewn perchnogaeth breifat. Yn ystod cyfnodau o dywydd gwlyb, mae gorlifoedd stormydd hefyd yn cyfrannu at yr effaith. Gall hyn effeithio ar yr amgylchedd dŵr, yn enwedig dyfroedd ymdrochi a dyfroedd pysgod cregyn. Mae newidiadau mewn patrymau tywydd a dosbarthiad poblogaeth, ynghyd â'r angen am dai newydd ac eiddo arall hefyd yn cyfrannu at y pwysau ar y seilwaith sydd mewn lle i ddelio gyda'n carthion a dŵr gwastraff. Gyda rhwydweithiau sy'n heneiddio a datblygiadau i'r dyfodol, gall hyn roi gormod o faich ar weithfeydd, cynyddu nifer y gollyngiadau o orlifoedd a chael effaith ar ein hamgylchedd. O ganlyniad, mae gweithredoedd i fynd i'r afael â'r problemau hyn yn parhau i fod yn un o'r prif Raglenni o Fesurau.

Bydd gwella prosesau trin carthffrydiau a rheoli gollyngiadau anghyfreithlon o danciau septig mewn perchnogaeth breifat yn cael cryn effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd dŵr. Bydd hyn yn sicrhau bod ein cyflenwad dŵr yn cael ei warchod rhag effeithiau andwyol llygredd, yn darparu dŵr glân ar gyfer cynhyrchu bwyd, ac yn darparu cyfleoedd i'r cyhoedd barhau i fwynhau hamddena yn yr awyr agored gan gynnwys pysgota sy'n arbennig o boblogaidd yn yr Ardal Basn Dŵr hon.

Mae yna hefyd fanteision i'n cynefinoedd a nifer fawr o Ardaloedd Gwarchoddedig gan gynnwys safleoedd Natura 2000 yn ogystal â'r Afon Alun, dyfroedd ymdrochi a dyfroedd pysgod cregyn, sydd hefyd wedi'u dynodi'n ardaloedd sensitif dan y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol. Mae hefyd yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion yn yr amgylchedd aberol ac arfordirol dan Gyfarwyddeb y Fframwaith Strategaeth Morol. Bydd mynd i'r afael â chamgysylltiadau carthffosiaeth hefyd yn bwysig ynghyd â chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd er mwyn rhwystro camddefnydd o'r system garthffosiaeth ac atal gwaredu cemegion, braster, olew a saim.

Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth – yn effeithio ar 7% o gyrff dŵr

Mae cyfuniad o gamgysylltiadau o'n dŵr budr (o garthion a golchi) yn ein gweithleoedd (yn enwedig ystadau diwydiannol) a'n cartrefi, ynghyd â dŵr glaw sy'n rhedeg dros arwynebau o waith dyn fel toeon adeiladau, ffyrdd a phalmentydd gyda'i gilydd yn cyfrannu at gymysgedd o lygredd dŵr o fewn ein trefi a'n dinasoedd. Gall hyn gynnwys llwch/grit, olewau, glanedyddion, mhetalau, halen ffordd, bacteria o ysgarthion anifeiliaid a gronynnau eraill sy'n cael eu casglu drwy systemau draenio dŵr wyneb neu'n uniongyrchol i nentydd a llynnoedd o ddraeniau lleol. Gall hyn effeithio ar ein hafonydd, llynnoedd, dŵr daear, aberoedd a'n dyfroedd arfordirol. Mewn rhai achosion, mae llygryddion o dir a ddifwynwyd yn hanesyddol a llygredd atmosfferig yn cyfrannu at y broblem mewn dyfroedd wyneb a dŵr daear.

Mae mynd i'r afael â hyn yn gymhleth oherwydd natur a nifer y gollyngiadau bach sydd gyda'i gilydd yn cael effaith sylweddol yn lleol, er enghraifft, lleoli tarddiad llygredd mewn ystâd ddiwydiannol fawr sydd o bosibl â nifer o wahanol fathau o fusnesau, o drwsio ceir i ddylunio ac argraffu graffeg, gyda phob busnes â deunyddiau a seilwaith gwahanol. Mae Strategaeth Ddŵr Llywodraeth Cymru, Cynllun Llygredd Gwasgaredig Cyfoeth Naturiol Cymru a chynllun gweithredu llygredd trefol gwasgaredig Defra yn cydnabod hyn, fel y mae Cynllun Llygredd Dŵr Dyfrdwy yn lleol. Mae Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyd-berchen y cynllun hwn, gyda Natural England yn gweithredu fel y partner arweiniol. Mae'n rhain wedi'u cynnwys yn y Rhaglen o Fesurau i warchod a gwella ein dyfroedd. Mae cyfle i ni hefyd wella prosesau dylunio a chynllunio trefol er mwyn cyfyngu ar effeithiau datblygiadau hanesyddol a datblygiadau'r dyfodol.

Llygredd o ardaloedd gwledig – yn effeithio ar 22% o gyrff dŵr

Gall rhai arferion rheoli tir gan y sectorau amaethyddol a choedwigaeth ynghyd â chanlyniadau defnydd arall o'r tir (ar gyfer ceffylau/stablau a chyrsgolff) gynhyrchu maetholion (fel ffosfforws a nitradau), a bacteria, plaleiddiaid, priddoedd a gwaddodion sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr. Gall maetholion achosi gordyfiant algaid ac arwain at ewtroffigedd yn ein dyfroedd wyneb. Mae defnydd tymor hir o wrteithiau nitrad hefyd yn gallu effeithio ar ddŵr daear a ddefnyddir fel dŵr yfed gan arwain at grynodiadau nitrad

sy'n uwch na safon dŵr yfed. Mae dŵr daear sy'n cynnwys lefelau uwch o faetholion yn gallu arwain at statws ecolegol gwael mewn gwlyptiroedd sy'n derbyn dŵr daear.

Gall colli pridd fel adnodd sylfaenol drwy rai arferion rheoli tir olygu bod mwy o wrteithiau yn cael eu defnyddio, a hynny'n gwaethygu'r sefyllfa. Mae arferion y diwydiannau amaethyddiaeth a choedwigaeth hefyd yn gallu cyfrannu at waddodiad ar ein dyfroedd wyneb, a chyfrannu at gywasgiad y pridd. Gall hyn, ynghyd â systemau draenio gwledig artiffisial, gynyddu'r dŵr ffo yn ystod cyfnodau o dywydd gwlyb, a hynny yn ei dro yn arwain at fwy o lifogydd.

Bydd rhwystro a lleihau llygredd o ardaloedd gwledig yn gwella'r amgylchedd dŵr, i bobl ac i fywyd gwyllt. O safbwynt masnachol, gall perchnogion tir arbed arian drwy ddefnyddio arferion rheoli tir da a sicrhau nad yw pridd a maetholion yn cael eu colli. Gall y cwmnïau dŵr wneud arbedion sylweddol os oes llai o angen i flaenoriaethu buddsoddiad ym mhrosesau trin dŵr yfed ar gyfer lliw, plaleiddiaid a halogiad nitradau. Yng Nghymru, gallai rheolau rhwymol cyffredinol gynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau llygredd amaethyddol gwasgaredig. Byddai bobl yn lleol yn elwa o gael dŵr o ansawdd gwell yn ein hafonydd, llynnoedd, dŵr daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol yn enwedig mewn mannau sydd wedi'u dynodi ar gyfer nofio neu gasglu pysgod cregyn. Mae yna hefyd fanteision i'n cynefinoedd a nifer fawr o Ardaloedd Gwarchoddedig gan gynnwys dyfroedd ymdrochi, dyfroedd pysgod cregyn, Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Yfed, safleoedd Natura 2000 ac ardaloedd sensitif o ran maetholion sydd wedi'u dynodi fel parthau perygl nitradau.

Mae angen hyrwyddo cynlluniau i blannu coed, creu coetiroedd newydd a mesurau rheoli coetiroedd sy'n gyson gyda "Woodland for Water" – mesurau ar gyfer cyflawni amcanion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr 2011.

Llygredd o fwyngloddiau – yn effeithio ar 10% o gyrff dŵr

Gall dŵr daear halogedig ddraenio o fwyngloddiau segur ac mae hyn yn broblem fawr yng Nghymru. Mae'r gollyngiadau dŵr hyn o fwyngloddiau yn aml wedi'u halogi gyda metelau toddedig fel haearn, plwm, copr, sinc a chadmiwm sy'n gollwng i afonydd cyfagos. Mae dŵr glaw ffo o domennydd rwbwl sy'n gysylltiedig â'r mwyngloddiau hefyd yn gallu gollwng i afonydd ac yn ei dro, i ddyfroedd aberol ac arfordirol. Mae'r gollyngiadau hyn sy'n cynnwys metelau yn cael effaith hynod o andwyol ar nifer o'n hafonydd a'r pysgod a'r ecosystemau y mae llawer o'n hafonydd yn eu cynnal.

Mwyngloddiau metel segur sy'n gyfrifol am y mwyafrif o'r math hwn o lygredd er bod gollyngiadau o byllau glo segur hefyd yn achosi llygredd afon sylweddol, ond mwy lleol. Mae nifer o gyrff dŵr daear a dŵr wyneb yn methu cyflawni statws da o ganlyniad i'r gollyngiadau hyn o fwyngloddiau segur, ac maent hefyd yn gallu effeithio ar rai dyfroedd aberol ac arfordirol mewn dalgyloedd sy'n cynnwys llawer o'r mwyngloddiau segur hyn.

Bydd mynd i'r afael â llygredd o ddyfroedd mwyngloddiau yn gwella ansawdd y dŵr yn sylweddol, ac yn helpu bywyd gwyllt, gan gynnwys pysgod, pryfed a bywyd dyfrol arall. Bydd hefyd yn helpu i warchod cyflenwadau dŵr yfed gwerthfawr. Mae yna fanteision ehangach o wneud y gwaith adfer hwn hefyd, er enghraifft, mae defnyddio cyrs ar wlyptiroedd yn gwella bioamrywiaeth yn sylweddol ac yn darparu cynefin gwerthfawr i adar. Mae'r rhain yn aml yn ddeniadol i'r llygad a gellir eu defnyddio fel amwynderau cyhoeddus. Mae mwyngloddiau segur yn rhan o'n treftadaeth ddiwydiannol gyda nifer ohonynt wedi'u dynodi'n Henebion Cofrestredig neu'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol

Arbennig. Dyma faes cyffrous ar gyfer ymchwil academiaidd yn enwedig yn Lloegr a Chymru lle mae cynlluniau adfer cynaliadwy a chost effeithiol yn cael eu hymchwilio.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau arfaethedig ar gyfer y chwe blynedd nesaf o fewn Ardal Basn Afon Dyfrdwy, ond bydd manteision o'r rhaglen ymchwil i ddyfroedd mwyngloddiau yn nhermau datblygu opsiynau adfer cynaliadwy. Ar raddfa DU, mae'r Awdurdod Glo ar hyn o bryd yn gweithredu 70 o gynlluniau trin mewn pyllau glo segur gydag arian o'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) ledled Lloegr, Cymru a'r Alban. Mae 15 yng Nghymru, sef 12 yng Ngorllewin Cymru a thri yn Ardaloedd Basn Afon Hafren. Mae'n rhaid i'r cynlluniau hyn barhau i rwystro dirywiad afonydd a dŵr daear. Ers 1994, mae'r Awdurdod Glo wedi glanhau a gwarchod dros 240 km o afonydd, wedi gwarchod dŵr daear sy'n cyflenwi dŵr yfed, a phob blwyddyn wedi rhwystro dros 3,000 tonnell o haearn a difwynwyr eraill rhag achosi llygredd.

Rhywogaethau Estron Goresgynnol – (Dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, nid oedd Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) yn rheswm dros fethu â chyflawni da yn 2015 mewn cyrff dŵr yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy)

Mae rhaglen bartneriaeth draws-dalgylch yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy sy'n anelu at gydlynu'r gwaith o reoli a monitro Rhywogaethau Estron Goresgynnol i sicrhau bod hynny'n digwydd mewn modd cydweithredol. Mae bodolaeth planhigion ac anifeiliaid estron goresgynnol yn ein cyrsiau dŵr yn bygwth bioamrywiaeth, yn cynyddu'r perygl o lifogydd, yn effeithio ar gyflwr ein hamgylchedd dŵr ac yn cael effaith economaidd sylweddol drwy gostau rheoli lledaeniad, rhwystro lledaeniad pellach a chynnal amddiffynfeydd llifogydd. Mae cimychiaid yr afon America yn lled gyffredin ac yn effeithio ar bysgod ac infertebratau. Mae rhywogaethau eraill fel crancod meinigog yn gallu dinistrio gwelyau cyrs a chynefinoedd rhynglanwol ac yn fygythiad i'r glannau wrth iddynt dyrchu ynddynt. Mae hyn yn effeithio ar bob categori o gorff dŵr, gan gynnwys aberoedd a dyfroedd arfordirol. Credir bod newid yn yr hinsawdd yn gyrru rhai rhywogaethau tua'r gogledd, a bydd hynny'n cynyddu eu hamledd a'u hamrywiaeth yn y dyfodol, gan effeithio ar gyflwr cyrff dŵr.

Mae rhywogaethau estron yn gallu cael effeithiau economaidd sylweddol hefyd. Unwaith eu bod wedi sefydlu, mae'n aml yn afresymol o gostus, neu'n dechnegol amhosibl i'w rheoli'n llwyddiannus. Mae cost rheoli rhywogaethau goresgynnol er mwyn sicrhau nad ydynt yn effeithio ar amddiffynfeydd rhag llifogydd, mordwyaeth a'r amgylchedd naturiol yn codi. Mae rhai planhigion fel ceiniog y gors arnofiol a briallu ymgripiol y dŵr yn cynyddu perygl llifogydd. Mae eraill fel cimychiaid yr afon America yn gallu effeithio ar sefydlogrwydd glannau'r afonydd, ac mae'r rhan fwyaf yn effeithio'n negyddol ar ecoleg a gweithgareddau hamdden fel pysgota a chwaraeon dŵr. Mae costau sylweddol hefyd wrth reoli a gwaredu rhywogaethau goresgynnol fel clymog Japan ar safleoedd datblygu a rheoli rhywogaethau fel misglen resog, sy'n gallu blocio pibellau, mewnlifoedd a strwythurau eraill.

Y mesur mwyaf effeithiol a lleiaf costus yw lleihau nifer y rhywogaethau newydd sy'n cael eu cyflwyno ac arafu lledaeniad y rhai sydd eisoes yn bresennol drwy ddilyn arferion bioddiogelwch da (mesurau sy'n lleihau'r perygl o ledaenu afiechydon gan blanhigion ac anifeiliaid estron goresgynnol) a hyrwyddo'r ymgyrchoedd 'Edrych, Golchi, Sychu' a 'Mynd at Wraidd y Mater'.

Gall Ardaloedd Gwarchodedig Natura 2000 fod yn agored i fygythiad rhai rhywogaethau estron goresgynnol. Yn aml, mae angen mesurau rheoli dwys a chostus i'w rheoli'n

effeithiol neu eu difa mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, mewn safleoedd a ddynodwyd ar sail eu cynefinoedd diddorol, mae jac y neidiwr yn gallu gormesu a lleihau maint y cynefin sydd ar gael i rywogaethau planhigion brodorol. Mae rheoli targedu jac y neidiwr drwy ei dynnu gyda llaw neu ei dorri dros nifer o flynyddoedd yn gallu llacio'r pwysau o'r rhywogaeth hon a rhwystro'r cynefin rhag dirywio ymhellach. O fewn safleoedd morol Natura 2000, mae'r potensial gan ewin mochyn i lethu nodweddion cynefinoedd gwarchoddedig gan leihau eu bioamrywiaeth ac effeithio ar eu cyflwr. Bydd bioddiogelwch gofalus yn lleihau'r perygl o hyn yn digwydd ond gellir defnyddir mesurau rheoli fel carthu a gorlethu hefyd i ddileu'r rhywogaeth os y'i gwelir.

2.4 Cyflawni gweithredoedd

Mae'r gweithredoedd a gynhaliwyd yn ystod y cylch cyntaf wedi'u rhannu i'r categorïau a nodir isod. Mae cyfuniad yr holl weithredoedd hyn gyda'i gilydd yn cyfrannu at warchod a gwella'r amgylchedd dŵr. Mae'r gweithredoedd hyn yn berthnasol i bob math o gyrff dŵr, afonydd, llynnoedd, camlesi, gwlyptiroedd, dŵr daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol gan gynnwys y rhai sydd mewn Ardaloedd Gwarchoddedig. Mae'r rhain yn cynnwys y Rhaglen o Fesurau a luniwyd er mwyn cyflawni'r amcanion statudol, gan gynnwys mecanweithiau presennol, a gweithredoedd statudol a gwirfoddol. Ceir gwybodaeth bellach am y gweithredoedd a gynhaliwyd yn y cylch cyntaf yn yr **Adroddiad Cynnydd**. Ceir crynodeb o'r Rhaglen o Fesurau a ddiweddarwyd ar gyfer 2015 -2021 yn Adran 3 ynghyd â gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yn **Arsylwi Dyfroedd Cymru**.

Rhwystro dirywiad

Mae holl fesurau a nifer o weithgareddau dyddiol Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a nifer o'n partneriaid yn cyfrannu at rwystro dirywiad yr amgylchedd dŵr. Drwy'r wybodaeth a rannwn, gallwn adnabod pa gyrff dŵr yn arbennig sydd mewn perygl o ddirywio a gosod mesurau, lle bo hynny'n bosibl, i rwystro neu liniaru'r risgiau hynny.

Y Rhaglen o Fesurau

Yng Nghynllun Rheoli Basn Afon 2009, nodwyd y Rhaglen o Fesurau yn Atodiadau C a D (sef gweithredoedd i'r Ardaloedd Gwarchoddedig). Roeddynt yn cynnwys mesurau cenedlaethol a lleol, ar draws sectorau a phob math o gyrff dŵr. Dyma'r rhaglen gyntaf o fesurau statudol a ddatblygwyd yn benodol i fodloni gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Maent yn cynnwys gweithredoedd i rwystro dirywiad a sicrhau gwelliannau yn statws y gyrff dŵr.

Mae data i'r cylch cyntaf yn dangos bod 81% o'r mesurau yng Nghynllun Rheoli Basn Afon 2009 wedi'u cwblhau yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Ceir gwybodaeth bellach yn yr **Adroddiad Cynnydd**.

Ymchwiliadau

Ers i gynlluniau 2009 gael eu cyhoeddi, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynnal rhaglen ymchwiliadau eang yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy i ganfod pam nad yw llawer o gyrff dŵr mewn cyflwr da. Mae hyn yn cynnwys mwy na 150 o ymchwiliadau ar ben y rhai a gynhaliwyd i sicrhau 'dim dirywiad'. Mae ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar gyrff dŵr wedi gwella'n sylweddol. O ganlyniad, rydym bellach mewn sefyllfa well i weithio gyda'n partneriaid i nodi ymhle y gellir gwneud y gwelliannau amgylcheddol mwyaf, a fydd yn cynnig y manteision mwyaf i bawb. Mae ein hymchwiliadau yn cadarnhau mai materion fel addasiadau ffisegol a llygredd gwasgaredig o ardaloedd gwledig yw'r prif resymau pam nad yw gyrff dŵr mewn cyflwr da.

Mesurau newydd ychwanegol

Mae'r Rhaglen o Fesurau yn gofyn am adolygu rheolaidd i sicrhau bod y camau cywir yn cael eu gweithredu yn y manau cywir. Yn ystod y cylch cyntaf, roedd blaenoriaethau a/neu gyfleoedd newydd yn golygu bod rhai gweithredoedd yn cael eu hadolygu i adlewyrchu anghenion cyfredol yr amgylchedd. Roedd hyn yn cynnwys rhoi mesurau ar waith mewn manau newydd a chyllid partneriaeth (e.e. Dull Seiliedig ar Ddalgyllch, cyllid Llywodraeth Cymru a Dŵr Cymru/Welsh Water). Ceir gwybodaeth bellach ar fesurau newydd ychwanegol yn y cylch cyntaf yn yr **Adroddiad Cynnydd**.

Amcanion amgen

Mewn rhai achosion, mae rhesymau hysbys i esbonio pan na allai cyrff dŵr gyflawni statws da erbyn 2015. Yn y cylch cyntaf, roedd 71 o gyrff dŵr yn y categori hwn lle gosodwyd amcan amgen i gyflawni statws da erbyn 2027. Roedd nifer o'r rhain (65 o gyrff dŵr) wedi'u cynnwys gan nad oedd achos yr effaith andwyol yn hysbys. Ceir manylion o'r amcanion amgen i'r chwe blynedd nesaf yn Adran 4.

2.5 Dirywiad

Un o brif amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yw rhwystro dirywiad corff dŵr o waelodlin 2009. Lle gwelir bod dirywiad mewn statws rhwng 2009 a 2015, mae'n rhaid asesu ac esbonio'r rhesymau am hynny.

Mae'n bosibl na fydd peth dirywiad yn golygu bod ansawdd yr amgylchedd yn waeth; yn hytrach, bydd yn golygu ein bod wedi monitro elfennau yn y corff dŵr hwnnw yn y cylch cyntaf nad oedd wedi'u monitro cyn hynny. Mae'n bwysig bod yr holl ddata perthnasol yn cael ei adolygu i benderfynu pa weithredoedd sydd angen eu cymryd ac ymhle, ac mewn rhai achosion, ni fydd angen unrhyw weithredu pellach.

I asesu cydymffuriad gydag amcan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i rwystro dirywiad, cymharwyd canlyniadau dosbarthiadau 2015 (yn seiliedig ar ddata hyd at ddiwedd 2014 a chan ddefnyddio'r un safonau a'r dulliau dosbarthu a ddefnyddiwyd yn 2009) gyda gwaelodlin dosbarthiad 2009. Roedd yr asesiad yn ystyried a oedd elfen wedi dirywio o un dosbarth statws yn 2009 i un is yn 2015. Mae hyn yn cynwys lle mae elfen wedi dirywio ond sydd ddim wedi achosi dirywiant yn y dosbarthu ar y cyfan oherwydd y dosbarthu yr elfenau eraill. Mae hyder wedi'i fesur o ran sicrwydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnwys y safleoedd hynny ble'r ydym yn 'weddol sicr' i 'hynod sicr' bod yr elfen wedi methu. Crynhoir canlyniadau'r asesiad hwn yn nhabl 6.

Tabl 6: Cyrff dŵr sydd hefo elfenau sydd wedi dirywio (sef >75% hyder)

Cyrff dŵr	Nifer y cyrff dŵr	% y cyrff dŵr
Statws ecolegol dŵr wyneb	2	2%
Statws cemegol dŵr wyneb	1	1%
Statws meintiol dŵr daear	0	0
Statws cemegol dŵr daear	0	0

Yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy ni wnaeth unrhyw corff dŵr ddirywio mewn statws dosbarthu ar y cyfan ers 2009. Ceir crynodeb o'r rhesymau am y dirywiadau hyn yn Adran 3.3 o'r **Adroddiad Cynnydd**.

2.6 Cynnydd o ran cyflawni amcanion y cylch cyntaf

Mae'r gweithredoedd cyfunol a nodwyd uchod wedi cael eu hadolygu. O wneud hyn, gallwn ddiweddarar'r Rhaglen o Fesurau statudol a'r ymchwiliadau i sicrhau bod y Cynlluniau Rheoli Basn Afon a ddiweddarwyd yn arfau effeithiol ar gyfer gwarchod a gwella ein hamgylchedd dŵr. Mae Tabl 7 yn dangos crynodeb o'r cynnydd tuag at sicrhau statws da neu well rhwng 2009 a 2015. Mae data o ddsbarthiad 2015 (sy'n cynnwys data hyd at ddiwedd 2014) wedi'i gymharu gyda'r un safonau a'r arfau dosbarthu a ddefnyddiwyd yn 2009.

Er bod nifer o'r mesurau a gwblhawyd dros y 6 blynedd diwethaf yn darparu manteision i'r amgylchedd lleol, ychydig iawn o welliant sydd wedi bod yn nifer y cyrff dŵr ar statws da. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwnnw, mae 90 o elfennau³ cyrff dŵr wedi gwella un dosbarth neu fwy.

Tabl 7. Cymhariaeth o waelodlin 2009 gyda chanlyniadau a ragfyngwyd ar gyfer 2015 a'r canlyniadau gwirioneddol

Canran o gyrff dŵr ar statws da neu well	2009	2015 rhagfyngwyd	2015 gwirioneddol
Statws ecolegol dŵr wyneb	28%	38%	29%
Statws cemegol dŵr wyneb	8%	8%	17%*
Statws meintiol dŵr daear	83%	83%	100%
Statws cemegol dŵr daear	83%	83%	83%
Statws cyffredinol	30%	38%	31%

*Mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu cynnydd yn nifer y cyrff dŵr sy'n cael eu monitro ar gyfer statws cemegol

Yn 2009 cyflawnodd 30% o'r cyrff dŵr yn ardal basn afon Dyfrdwy statws da neu well. Gwnaethom ragweld y byddai hyn yn codi i 38% erbyn 2015. Ategwyd hyn gyda tharged mewnol i sicrhau statws da neu well ar gyfer 50% o gyrff dŵr ledled Cymru. Mae canlyniadau dosbarthiad 2015 yn dangos bod 31% o'r holl gyrff dŵr nawr wedi sicrhau statws da neu well.

Er bod gwelliant net o 5 o gyrff dŵr afon ac 1 corff dŵr daear sydd wedi cyflawni statws da yn 2015, mae monitro mwy manwl o lynnoedd yn gwrthbwysu hyn i ryw raddau. Mae'r llynnoedd hyn yn cael eu dosbarthu yn ôl mwy o elfennau, ac mae rhai o'r elfennau hyn wedi'u dosbarthu'n gymedrol. Canlyniad y monitro mwy manwl hwn yw bod 5 o lynnoedd ychwanegol yn cael eu dosbarthu'n gymedrol yn 2015 mewn cymhariaeth â 2009, er mae'n annhebygol bod unrhyw newid amgylcheddol wedi digwydd.

³ Noder: Mae 'Elfennau cyrff dŵr' yn cynnwys elfennau ecolegol (biolegol, ffisio-gemegol, sylweddau eraill ac elfennau llygredig penodol eraill ag eithrio BOD ac Ocsigen Toddedig mewn camlesi) a chemegol (Llygryddion Eraill, Sylweddau â Blaenoriaeth a Sylweddau Peryglus â Blaenoriaeth) mewn dyfroedd wyneb yn unig ac elfennau meintiol a chemegol (GW) yn unig i gyrff dŵr daear. Heb gynnwys elfennau cynhaliol. Elfennau a aseswyd yn unig.

Cyfyngir ar welliant mewn statws gan y ddealltwriaeth gyfredol o bwysau ar yr amgylchedd dŵr, ei ffynonellau, a'r camau y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael â hyn ynghyd â'r adnoddau i gyflawni'r rhaglen (o ran pobl a chyllideb). Ymhellach, mae rheolau 'un allan pob un allan' dosbarthiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn golygu bod methiant un elfen a fonitryd yn effeithio ar y statws cyffredinol. Fodd bynnag, yn ystod y cyfnod hwn, gwelodd 90 o elfennau cyrff dŵr o un dosbarth neu fwy.

Mae rhai o'r newidiadau'n adlewyrchu nifer y safleoedd a fonitryd gan raglen fonitro'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Ers 2009, i lenwi bylchau yn ein dealltwriaeth, rydym wedi cynyddu ein monitro i ddeall yn well y pwysau ar yr amgylchedd dŵr, yn enwedig mewn rhai cyrff dŵr aberol ac arfordirol. Er enghraifft, yn 2009 monitryd saith llyn gennym am facroffytâu, ac yn 2015, cynyddodd hyn i 41 ac o'r rheini, cyflawnodd 23 y safon ofynnol. Felly, mae llawer o'r newid yn y data yn dynodi dealltwriaeth well o'r pwysau sy'n effeithio ar yr amgylchedd, yn hytrach na newid gwirioneddol mewn ansawdd. Byddwn yn parhau i ymchwilio i ddirywiad ymddangosiadol i ddeall a ydyw o ganlyniad i newid go iawn yn ansawdd yr amgylchedd neu'r rhesymau a esbonnir uchod. Ceir gwybodaeth bellach am y canlyniadau hyn yn yr **Adroddiad Cynnydd**.

2.7 Adolygiad o gynnydd y cylch cyntaf

Yng Nghymru, ar ôl adolygu'r canlyniadau dros y chwe blynedd diwethaf, mae'r gwersi sydd wedi'u dysgu wedi'u hymgorffori yn y cynlluniau sydd wedi'u diweddarau, ac mae'r rhain i'w gweld yn yr **Adroddiad Cynnydd**.

Mae cynllun 2015 sydd wedi'i ddiweddau yn ein galluogi i roi Rhaglen o Fesurau mwy cadarn yn ei lle gan ddysgu o'r cynnydd a wnaed dros y chwe blynedd diwethaf. Mae'r Rhaglen o Fesurau i'w gweld yn Adran 4 ac mae'r amcanion y gobeithiwn eu cyflawni fel canlyniad i'r rhaglen hon i'w gweld yn Adran 4. Caiff y cynnydd tuag at yr amcanion hyn ei fonitro a'i adolygu fel y nodwyd yn Adran 1.7.

I Loegr, mae tabl 8 yn cynnwys crynodeb o ba mor effeithiol oedd y mesurau a weithredwyd ers 2009 o ran cyflawni amcanion amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r mesurau wedi'u grwpio yn ôl bob mater rheoli dŵr sylweddol. Mae'r asesiad yn seiliedig ar y mesurau a weithredwyd dros Loegr gyfan, ac nid rhan Lloegr Ardal Basn Afon Dyfrdwy yn unig.

Tabl 8. Asesiad cryno o effeithiolrwydd mesurau i bob mater rheoli dŵr sylweddol (Asesiad Lloegr gyfan)

Mater rheoli dŵr sylweddol (SWMI)	Effeithlonrwydd y mesur
Addasiadau ffisegol	<p><u>Rhwysrau</u></p> <p>Yn gyffredinol, mae gostwng coredau ac adeiladu tramwyfeydd i bysgod wedi bod yn effeithiol. Mewn rhai achosion, ni fu'n bosibl dileu'r pwysau yn llwyr oherwydd gwerth hanesyddol y rhwystr neu'r angen i rwystro erydiad neu symudiad gwaddodion halogedig. Mewn rhai achosion, ni chyflawnwyd cydymffurfiad llwyr gydag amcanion amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr gan fod</p>

	rhwystrau eraill mewn mannau eraill o'r dalgylch yn parhau'n bresennol.
Addasiadau ffisegol	<p><u>Gwella cynefinoedd</u></p> <p>Mae gwelliannau i gynefinoedd, o raglenni adfer afonydd ar raddfa eang i gynlluniau cymharol fach ar gyrsiau dŵr llai, wedi bod yn effeithiol ar y cyfan. Maent wedi arwain at welliannau mewn poblogaethau pysgod a bywyd gwyllt arall. Ni ddaw effeithlonrwydd y cynlluniau hyn o ran sicrhau cydymffuriad gydag amcanion amgylcheddol y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr i'r golwg hyd nes bod y cynefinoedd newydd a'r bywyd gwyllt cysylltiol wedi aeddfedu. Mewn rhai achosion, disgwylir y bydd angen gwaith adfer pellach mewn rhannau eraill o'r dalgylch er mwyn cynnal ecosystem sy'n gwbl weithredol.</p>
Llygredd o ddŵr gwastraff	Cynhaliwyd dros 300 o gynlluniau gwella mewn gweithfeydd trin carthion ers 2009. Mae'r rhain wedi bod yn effeithiol o ran cynorthwyo i sicrhau cydymffuriad gydag amcanion amgylcheddol y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr.
Llygredd o ardaloedd gwledig	<p><u>Cyngor gan y Llywodraeth</u></p> <p>Roedd Ffermio Sensitif i'r Dalgylch yn effeithiol o ran annog ffermwyr i gynorthwyo at sicrhau amcanion amgylcheddol y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr (mewn ardaloedd gwarchoddedig yn bennaf). Mewn mannau lle targedwyd Ffermio Sensitif i'r Dalgylch, rhwng 2006 a 2013, amcangyfrifir bod llygryddion (gan gynnwys ffosforws, nitrad, gwaddod, ac organebau sy'n dynodi carthion) a ryddhawyd o ffynonellau amaethyddol wedi gostwng rhwng 4% a 12% (ar gyfartaledd).</p>
Llygredd o ardaloedd gwledig	<p><u>Rheoleiddio</u></p> <p>Mae rheoleiddio wedi lleihau effaith digwyddiadau llygru ac wedi cynorthwyo i rwystro dirywiad. Mae peth tystiolaeth bod cynlluniau gweithredu i barthau perygl nitradau wedi cynorthwyo i leihau llygredd o faetholion. Bydd yn rhaid asesu effeithiolrwydd cyffredinol hyn dros gyfnod hirach.</p>
Llygredd o ardaloedd gwledig	<p><u>Mentrau diwydiant</u></p> <p>Mae nifer o gynlluniau wedi hyrwyddo gweithredu gwirfoddol gan gynnwys, cyngor a grantiau drwy grwpiau dalgylch lleol, cyngor drwy'r Ymgyrch dros yr Amgylchedd Amaethyddol, a gwaith dan arweiniad cwmnïau dŵr i wella ansawdd y dŵr y maen nhw'n ei dynnu ar gyfer y cyflenwad cyhoeddus. Mae cyngor yn effeithiol o ran annog pobl i fabwysiadu arferion ffermio da. Mae mesurau sy'n mynd y tu hwnt i arferion da yn cynyddu'n sylweddol lle mae grantiau wedi'u darparu. Mae llawer o'r cynlluniau hyn wedi arwain at welliannau yn yr amgylchedd dŵr lleol.</p>
Llygredd o ardaloedd gwledig	<u>Stiwardiaeth amgylcheddol (2006 i 2014)</u>

	<p>Manteisiwyd yn dda ar fesurau i warchod yr amgylchedd dŵr. Nid oedd mesurau bob amser wedi'u lleoli lle'r oedd modd sicrhau'r budd mwyaf, na digon wedi manteisio arnynt mewn un rhan o'r dalgylch i lacio pwysau yn ddigon i sicrhau cydymffuriad gydag amcanion amgylcheddol y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr.</p>
Llygredd o ardaloedd gwledig	<p><u>Trawsgydymffurfio</u></p> <p>Roedd cydymffuriad gydag amodau amgylcheddol oedd yn gysylltiedig â'r Taliad Fferm Sengl yn uchel. Cryfhawyd yr amodau amgylcheddol yn 2010 a 2015. Cafodd y mesurau cysylltiedig effaith fach ar ansawdd yr amgylchedd dŵr.</p>
Newidiadau i lif a lefelau naturiol dŵr	<p><u>Newidiadau i drwyddedau tynnu</u></p> <p>Mae rhaglen genedlaethol Adfer Dulliau Cynaliadwy o Dynnu Dŵr wedi bod yn effeithiol wrth wella cynefinoedd i bysgod a bywyd gwylt arall. Mae gweithredu gwirfoddol a gorfodol wedi arwain at newidiadau mewn dros 200 o drwyddedau tynnu gan Asiantaeth yr Amgylchedd a'r llywodraeth. O ganlyniad i hyn, mae 27 biliwn litr o ddŵr wedi'i ddychwelyd i'r amgylchedd.</p> <p>Yn genedlaethol, mae'r rhaglen hon wedi bod yn effeithiol wrth gynorthwyo i sicrhau cydymffurfiaeth gydag amcanion amgylcheddol y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr, yn enwedig y rhai i ardaloedd gwarchoddedig Natura 2000.</p>
Newidiadau i lif a lefelau naturiol dŵr	<p><u>Rheoli'r galw</u></p> <p>Mae technegau rheoli'r galw ac effeithlonrwydd dŵr wedi cael eu gweithredu mewn sawl sector gan gynnwys y llywodraeth, diwydiant dŵr, cyrff annibynnol a chymdeithasau masnach.</p> <p>Mae Cynlluniau/Fframweithiau Datblygu Lleol wedi'u cyflwyno sy'n nodi polisïau cynlluniau lleol ac sy'n nodi bod yn rhaid i gartrefi newydd gyflawni'r safon effeithlonrwydd dŵr tynnach o 110 litr y person y dydd fel y disgrifir yn Rhan G o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Adeiladau 2010.</p> <p>Mae cwmnïau dŵr wedi mynd i'r afael ag achosion o ddŵr yn gollwng o'u rhwydweithiau cyflenwi ac wedi cynyddu nifer y cartrefi gyda mesuryddion mewn ardaloedd sydd â galw mawr am ddŵr.</p> <p>Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi bod yn effeithiol ar raddfa leol.</p>
Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth	<p>Mae amrywiaeth o fesurau wedi'u gweithredu i leihau llygredd o ardaloedd trefol. Mae'r rhain yn cynnwys adfer tir wedi'i halogi; gosod systemau draenio cynaliadwy i ddatblygiadau newydd a datblygiadau sydd eisoes yno; cynlluniau i adfer dŵr ffo; gweithredu rheoledig yn dilyn achosion o lygru; mentrau i adfer systemau draenio gwastraff sydd wedi'u camgysylltu; a chyngor ar rwystro llygredd i ddeiliaid ystadau diwydiannol.</p>

	<p>Mae'r rhan fwyaf o'r mesurau hyn wedi bod yn effeithiol ar raddfa leol. Fodd bynnag, mae'r effeithiolrwydd yn isel mewn rhai achosion, gan fod angen mwy o fesurau o fewn ardal os am gynnal gwelliannau dros yr hirdymor. O ystyried graddfa, cost a chymhlethdod y mater hwn, nid yw'r mesurau wedi bod yn effeithiol yn nhermau llacio'r pwysau yn ddigon i sicrhau cydymffuriad gydag amcanion amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.</p>
<p>Rhywogaethau estron goresgynnol</p>	<p>Mae amrywiaeth o fesurau wedi'u gweithredu i rwystro cyflwyniad a lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol. Mae'r rhain wedi bod yn eithaf effeithiol ac wedi arafu'r dirywiad ym mioamrywiaeth dyfroedd sydd wedi'u heffeithio a'r lledaeniad i ddyfroedd sydd eto heb eu heffeithio. Mae mesurau i ddileu rhywogaethau estron goresgynnol o ddyfroedd sydd wedi'u heffeithio ond yn effeithiol yn achos lleiafrif o rywogaethau lle mae ymateb cyflym i'w presenoldeb yn bosibl. Mae tystiolaeth a gasglwyd yng nghylch 1 wedi cadarnhau ei bod yn dechnegol amhosibl i ddileu'r rhan fwyaf o rywogaethau unwaith eu bod wedi sefydlu. Mewn lleoliadau fel safleoedd Natura 2000, mae'n bosibl i weithredu dwys (a pharhaus) liniaru'r pwysau, ond ni ellir ei ddileu yn llwyr.</p>

3. Rhaglen o Fesurau

3.1 Trosolwg o'r Rhaglen o Fesurau

Caiff yr heriau sy'n bygwth defnydd cyfredol o'r amgylchedd dŵr a'r defnydd ohono yn y dyfodol eu rheoli gan fesurau cyfunol sy'n cynnwys mesurau statudol i gynnal a gwella'r amgylchedd dŵr. Mae'r adran hon yn crynhoi'r prif raglenni atodol a mesurau statudol i gyflawni'r amcanion o fewn y cynllun hwn fel y nodwyd yn Adran 4.0. Mae'r mesurau yn amrywio o'r rhai sy'n ofynion cyfreithiol statudol neu'n ysgogiadau economaidd, i eraill sy'n godau arfer da gwirfoddol neu gytundebau y cytunwyd arnynt yn lleol. Bydd yr holl fesurau yn cael eu tracio a'u cynnydd yn cael ei adrodd yn ôl gofynion adrodd cytunedig y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Adran 1.6).

Mae mesurau wedi'u rhannu'n ddau grŵp. Mae mesurau cenedlaethol yn berthnasol i Gymru a/neu Lloegr gyfan, neu'r Deyrnas Unedig. Yn gyffredinol mae'r rhain yn gosod y dull gweithredu deddfwriaethol, polisi neu ymagwedd strategol ac mewn sawl achos, maent yn defnyddio mecanweithiau sydd eisoes wedi'u sefydlu. Maent yn cynnwys, er enghraifft, gwaharddiad cenedlaethol ar ddefnyddio cemegyn penodol neu strategaeth genedlaethol ar gyfer blaenoriaethu ac ariannu'r gwaith o adfer mwyngloddiau segur. Mae mesurau lleol yn benodol i'r ardal basn afon neu ran ohoni. Er enghraifft, cael gwared ar blanhigion goresgynnol ar hyd afon ddynodedig neu ymgyrch leol yn targedu camgysylltiadau ar draws ystad ddiwydiannol. Bydd manteision amrywiol hefyd i lawer o'r camau gweithredu a restrir. Er enghraifft, mae cynlluniau draenio trefol cynaliadwy (SuDS) yn helpu i leihau llygredd gwasgareddig, lleihau dŵr ffo ar y wyneb a'r perygl o lifogydd, a darparu bioamrywiaeth a manteision seilwaith gwyrdd.

Mae'r mesurau cenedlaethol wedi'u grwpio yn ôl materion rheoli dŵr arwyddocaol sy'n cael eu trafod yn Adran 2.3 a cheir gorolwg o'r mesurau lleol hefyd. Mae rhestr o fesurau cenedlaethol, a'r mesurau lleol ar **Arsylwi Dyfroedd Cymru**.

3.2 Rhaglenni cyflenwi

Bydd y Rhaglen o Fesurau a'r amcanion amgylcheddol y maent yn anelu i'w cyflawni yn cael eu cyflenwi drwy nifer o raglenni sydd eisoes yn bodoli. Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio'r prif raglenni.

- **Rhaglen Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo i gyflenwi amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr trwy ymagwedd integredig at adnoddau naturiol a rheolaeth dalgylch ar draws ei swyddogaethau:


Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Rydym wedi gweithio ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu rhaglen fforddiadwy o fesurau lleol a chenedlaethol, yn seiliedig ar y ddealltwriaeth sydd gennym ar hyn o bryd o'r adnoddau sy'n bodoli. Mae ein ffocws ar:

- Rhwystro dirywiad yn yr holl gyrff dŵr.
- Gwella cydymffuriad gyda statws cyffredinol da mewn 7 o gyrff dŵr sy'n gymedrol/gwael ar hyn o bryd, a hefyd gwella 1 corff dŵr gwael fel ei fod yn gymedrol. Dangosir y rhain yn Ffigur 4 isod.

- Targeddu mesurau yn lleol mewn ffordd integredig er mwyn cyflenwi gwelliannau amgylcheddol i gyrrff dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac Ardaloedd Gwarchoddedig, gan gynnwys ardaloedd sydd wedi'u gwarchod ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau dŵr.
- Adnabod lle bydd gwelliannau lefel elfen yn digwydd yn ystod yr ail gylch, ond lle bydd angen mesurau pellach i sicrhau newid cyffredinol mewn statws ecolegol.
- Datblygu ein hymagwedd at reoli adnoddau naturiol trwy weithio ar lefel dalgyllch lleol ac elwa ar y budd ehangach a gyflenwir drwy'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Ffigur 4. Cyrrff dŵr y rhagfynegir y byddant yn cyflawni statws da neu'n gwella o statws gwael erbyn 2021



Natura 2000

Bydd datblygu a chyhoeddi Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth yn ymagwedd sylfaenol a newydd at sicrhau mesurau sydd wedi'u costio a'u blaenoriaethu ar gyfer safleoedd Natura 2000 sy'n ddibynnol ar ddŵr yng Nghymru, i gyfrannu at gynnal ac adfer amodau ffafriol.

Yn ystod 2015, rydym wedi integreiddio tystiolaeth a gwybodaeth o Raglen LIFE Natura 2000 a Chynlluniau Rheoli Ardaloedd Basn Afon, er mwyn sicrhau bod y Cynlluniau Rheoli Ardaloedd Basn Afon wedi'u diweddarau ac yn seiliedig ar ein tystiolaeth fwyaf cyfredol. Rydym wedi gweithio ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu rhaglen fforddiadwy o fesurau lleol a chenedlaethol, sy'n seiliedig ar ein dealltwriaeth gyfredol o adnoddau sydd

eisoes yn bodoli. Mae hyn ar gael ar **Arsylwi Dyfroedd Cymru**. Byddwn yn adolygu'r rhaglen hon ac yn rhagweld y bydd yn datblygu wrth i gyfleoedd/adnoddau ddod ar gael.

Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol

Mae rhaglen buddsoddi cyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cyfoeth Naturiol Cymru yn anelu at leihau perygl llifogydd i gartrefi pobl a'r economi, drwy wella a chynnal cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd a gwella ein dealltwriaeth o berygl llifogydd drwy fapio a modelu. Bydd y rhan fwyaf o brosiectau yn canolbwyntio ar warchod pobl ac osgoi difrod economaidd arall. Bydd rhai efallai hefyd yn cyfrannu at wella statws cyrff dŵr, gwarchod safleoedd bywyd gwyllt gwerthfawr a chreu cynefinoedd newydd.

Mae rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ddefnydd dilys o nifer o gyrff dŵr ond mewn rhai achosion, canlyniad hyn yw addasiad sylweddol i siâp a maint y cyrff dŵr ac felly hefyd addasiadau i'w llif naturiol. Mae gweithgareddau hanesyddol i wella trawsgludiad cyrff dŵr a lleihau perygl llifogydd, fel adeiladu ac atgyfnerthu glannau, addasu sianelau a rheoli llystyfiant, yn aml wedi cael effaith negyddol ar gyflwr cyrff dŵr.

Mae'r rhaglen buddsoddi cyfalaf yn anelu at leihau effaith y gweithgareddau hyn drwy weithio gyda phrosesau naturiol a, lle bo hynny'n bosibl, defnyddio mesurau rheoli llifogydd naturiol i arafu, storio a hidlo llifddwr. Bydd hyn yn arwain at gynlluniau rheoli llifogydd mwy cynaliadwy, a'r rheiny'n aml â manteision amgylcheddol a chymdeithasol ychwanegol. Defnyddir yr ymagwedd hon ynghyd ag amddiffynfeydd caled traddodiadol eu hadeiladwaith i gynyddu cadernid cymunedau wrth wynebu digwyddiadau eithafol, boed yn llifogydd neu sychder.

Wrth adnabod a chynllunio cynlluniau, rhoddir ystyriaeth i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, fel mwy o lawiad yn y gaeaf, mwy o stormydd glaw trwm a chodiad yn lefel y môr.

Bydd bodloni goblygiadau statudol, gwella'r amgylchedd naturiol a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd yn digwydd ar y cyd â lleihau perygl llifogydd ac erydu arfordirol (er enghraifft, drwy drefniadau rheoli llifogydd naturiol lle bo hynny'n briodol). Mae sicrhau canlyniadau amgylcheddol yn rhan annatod o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, er enghraifft, lle bo hynny'n bosibl, chwilio am gyfleoedd i ostwng unrhyw rwystrau i llysywod wrth wella amddiffynfeydd.

Disgwylir i'r rhaglen buddsoddi cyfalaf rheoli perygl llifogydd gyflawni canlyniadau amgylcheddol pellach erbyn 2021 fel gwella neu greu cynefinoedd drwy wariant cynnal cyfalaf a gwariant ar amddiffynfeydd rhag llifogydd. Nid yw gwelliannau i'r amgylchedd, sy'n codi o'r rhaglen buddsoddi cyfalaf, yn gysylltiedig â'r gwelliannau a ragfynegir mewn statws erbyn 2021 o ran elfennau penodol mewn cyrff dŵr penodol gan nad oes digon o hyder ynghylch graddfa'r gwelliant neu union leoliad y buddsoddiad. Ymhellach, clustnodir arian pellach ar gyfer perygl llifogydd yng Nghymru gan amlaf yn flynyddol, felly mae cynlluniau i'r dyfodol yn aml yn ddangosol ac yn ddibynnol ar gyllid.

Coetiroedd a choedwigoedd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymrwymedig i wella ansawdd amgylcheddol Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Rydym yn mynd i'r afael â methiannau o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr trwy weithredu 5ed argraffiad Canllawiau Coedwigaeth a Dŵr y DU (UKFWG) a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2011. Mae cynnal cwlfertau, trapiau gwaddod effeithiol, draeniau ymyl ffordd ar wahân i gysiau dŵr naturiol, glannau afon a rheolaeth briodol o'r

dŵr o fewn y coedwigoedd yn hanfodol er mwyn cynnal statws ecolegol da ar draws Ystad Goed Llywodraeth Cymru. Mae trefniadau diogelu rhag llygredd yn eu lle pan fydd gweithrediadau yn digwydd o fewn y coedwigoedd.

Rydym wedi adnabod cyrff dŵr y rhagfynegir y byddant yn cyflawni da, lle byddwn yn:

- Adolygu rheolaeth glannau afon mewn coedwigoedd a systemau draenio a sicrhau eu bod yn bodloni safonau Canllawiau Coedwigaeth a Dŵr y DU erbyn 2021.
- Paratoi cynlluniau ar gyfer anodau coedwigoedd ac yn nodi peryglon posibl, fel peirianeg sifil, llwyrwymydo ac ail-stocio ac yn gweithredu ffyrdd i'w lliniaru, gan ystyried Systemau Coedamaeth Bach eu Heffaith (LISS) lle bo hynny'n gymwys.
- Lle gallai gweithrediadau coedwigaeth na ellir eu hosgoi, fel torri i gydymffurfio gyda gorchymyn iechyd planhigion, effeithio'n sylweddol ar ansawdd y dŵr, byddwn yn cymryd pob cam posibl i'w lliniaru.

- **Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn Lloegr**

Mae rhaglen buddsoddi cyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Asiantaeth yr Amgylchedd yn anelu at leihau perygl llifogydd i gartrefi pobl a'r economi, dros y 6 blynedd nesaf. Bydd y prosiectau yn canolbwyntio ar warchod pobl ac osgoi difrod economaidd arall (gan gynnwys busnes ffermio). Bydd rhai efallai hefyd yn cyfrannu at wella statws cyrff dŵr, gwarchod safleoedd bywyd gwyllt gwerthfawr a chreu cynefinoedd newydd.

Mae rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn ddefnydd dilys o nifer o gyrff dŵr ond mewn rhai achosion, canlyniad hyn yw addasiad sylweddol i siâp a maint y cyrff dŵr ac felly hefyd addasiadau i'w llif naturiol. Mae gweithgareddau hanesyddol i wella trawsgludiad cyrff dŵr a lleihau perygl llifogydd, fel adeiladu ac atgyfnerthu glannau, addasu sianelau a rheoli llystyfiant, yn aml wedi cael effaith negyddol ar gyflwr cyrff dŵr.

Mae'r rhaglen buddsoddi cyfalaf yn anelu at leihau effaith y gweithgareddau hyn drwy weithio gyda phrosesau naturiol a, lle bo hynny'n bosibl, defnyddio mesurau rheoli llifogydd naturiol i arafu, storio a hidlo llifddŵr. Bydd hyn yn arwain at gynlluniau rheoli llifogydd mwy cynaliadwy, a'r rheiny'n aml â manteision amgylcheddol a chymdeithasol ychwanegol. Defnyddir yr ymagwedd hon ynghyd ag amddiffynfeydd caled traddodiadol eu hadeiladwaith i gynyddu cadernid cymunedau wrth wynebu digwyddiadau eithafol, boed yn llifogydd neu sychder.

Wrth adnabod a chynllunio cynlluniau, rhoddir ystyriaeth i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, fel mwy o lawiad yn y gaeaf, mwy o stormydd glaw trwm a chodiad yn lefel y môr.

Bydd bodloni goblygiadau statudol, gwella'r amgylchedd naturiol a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd yn digwydd ar y cyd â lleihau perygl llifogydd ac erydu arfordirol (er enghraifft, drwy drefniadau rheoli llifogydd naturiol lle bo hynny'n briodol). Mae sicrhau canlyniadau amgylcheddol yn rhan annatod o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, er enghraifft, lle bo hynny'n bosibl, chwilio am gyfleoedd i ostwng unrhyw rwystrau i llyswod wrth wella amddiffynfeydd.

Nid yw gwelliannau i'r amgylchedd, sy'n codi o'r rhaglen buddsoddi cyfalaf, yn gysylltiedig â'r gwelliannau a ragfynegir mewn statws erbyn 2021 o ran elfennau penodol mewn cyrff dŵr penodol gan nad oes digon o hyder ynghylch graddfa'r gwelliant neu union leoliad y buddsoddiad.

- **Llywodraeth Cymru**

Lansiwyd y Strategaeth Ddŵr i Gymru gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar 19 Mai 2015. Mae'r weledigaeth am sicrhau bod Cymru yn parhau i gael amgylchedd dŵr ffyniannus sy'n cael ei reoli'n gynaliadwy i gefnogi cymunedau iach, busnesau ffyniannus a'r amgylchedd. Mae'r strategaeth yn gosod y cyfeiriad ar gyfer polisi dŵr dros yr 20 mlynedd nesaf yng nghyd-destun Mesur Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae cynllun gweithredu yn cyd-fynd â'r strategaeth gyda cherrig milltir hyd at 2025 (a thu hwnt). Mae yna chwe blaenoriaeth polisi ar gyfer 2015-18:

- cefnogi datblygiad y dull ar sail ardal o reoli adnoddau naturiol.
- sicrhau mynediad at wasanaethau dŵr a charthffosiaeth deg a fforddiadwy.
- datganoli'r holl faterion sy'n ymwneud â dŵr a charthffosiaeth a chael gwared ar bŵer unochrog Llywodraeth y DU i ymyrryd mewn perthynas ag adnoddau dŵr yng Nghymru.
- dull â mwy o ffocws i reoli carthffosiaeth a draenio a datblygu a gweithredu deddfwriaeth i gefnogi atebion cynaliadwy i broblemau draenio.
- diwygio'r system trwyddedau tynnu dŵr yng Nghymru i sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau dŵr yn awr ac yn y dyfodol.
- adolygu arferion presennol a dulliau rheoleiddio, a'u newid lle bo'n briodol, i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig.

- **Rhaglen fuddsoddi'r diwydiant dŵr**

Mae Ofwat, rheolydd economaidd y cwmnïau dŵr, yn adolygu cynlluniau buddsoddi'r diwydiant dŵr bob pum mlynedd. Fel rhan o'r broses hon, a elwir yn adolygiad prisiau, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio gyda chwmnïau dŵr, Ofwat ac eraill i sicrhau bod y buddsoddiad yn gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd dŵr, yn cynyddu cadernid ac yn cynnig manteision hirdymor i'r gymdeithas a'r economi. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn nodi'r goblygiadau amgylcheddol, gan gynnwys gwaith sy'n ofynnol i rwystro dirywiad a chyflawni amcanion statws Ardaloedd Gwarchodedig a chyrrff dŵr.

Bydd gryn fuddsoddiad mewn cynlluniau i fynd i'r afael ag effeithiau llygredd o un ffynhonnell o weithfeydd trin carthffosiaeth a gollyngiadau o'r rhwydwaith carthffosydd. Bydd hyn yn lleihau llygryddion fel amonia a maetholion sy'n amharu ar gydbwysedd ecolegol naturiol cyrrff dŵr ac yn achosi i lystyfiant ac algâu ordyfu.

Mae cynlluniau gwella cynefinoedd wedi'u cynllunio i leihau effaith addasiadau ffisegol sy'n cael eu hachosi gan weithrediadau'r cwmnïau dŵr, a chynlluniwyd gweithredoedd i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol ar diroedd y cwmnïau dŵr. Bydd mesurau pellach yn sicrhau cydymffurfiaid gyda'r Rheoliadau Llysywod, sy'n nodi bod yn rhaid sgrinio mewnbynau dŵr i rwystro llysywod rhag cael eu tynnu allan o'r afon ac i mewn i weithfeydd trin dŵr yfed.

Mae addasu i newid yn yr hinsawdd a sicrhau mesurau lliniaru yn rhan annatod o waith cynllunio'r cwmnïau dŵr ac yn rhan hanfodol o asesu opsiynau ar gyfer cynlluniau. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gynllunio ar gyfer adnoddau dŵr, lle mae'n rhaid i gwmnïau dŵr gynllunio hyd at 25 mlynedd o flaen llaw i sicrhau bod digon o ddŵr i fodloni'r galw yn y dyfodol.

Mae'r rhan fwyaf o'r mesurau yn atebion peirianeg sydd wedi'u hen sefydlu ac wedi profi eu bod yn effeithiol. Gwneir newidiadau drwy addasiadau i drwyddedau amgylcheddol.

Mae yna rai cynlluniau gwella dalgylch a chynefinoedd nad ydynt wedi'u sefydlu cystal, gan gynnwys mesurau i leihau llygredd plaleiddiaid. Mae rhai o'r cynlluniau hyn yn dibynnu ar newid ymddygiad yn wirfoddol mewn perthynas ag arferion amaethu. Gall y rhain fod yn llai effeithiol o'u cymharu gydag atebion peirianyddol.

Yn Lloegr, defnyddir ymagwedd "cyfran deg" wrth ddethol mesurau, sy'n tybio bod gostyngiad cyfraneddol yn y llwyth llygru o bob un o'r sectorau sy'n cyfrannu. Er enghraifft, wrth adnabod mesurau ar gyfer ffosforws mewn dalgylch, cyfrifwyd faint oedd yn dod o weithfeydd trin carthion a faint oedd yn dod o ffynonellau eraill, fel llygredd gwledig gwasgareddig. Os oedd y gweithfeydd carthion yn gyfrifol am 70% o'r llwyth ffosforws, yna mae'r mesur a nodwyd yn anelu at gyflawni 70% o'r gostyngiad ffosforws sydd ei angen. Yn y sefyllfa hon, mae sicrhau gwelliant mewn statws yn ddibynnol ar sectorau eraill yn rhoi mesurau ychwanegol ar waith.

Bydd buddsoddiad gan gwmnïau dŵr yn cyfrannu'n uniongyrchol at welliannau mewn statws a ragfynegir erbyn 2021 ar gyfer elfennau penodol mewn cyrff dŵr penodol. Byddwn yn cynnwys mesurau lle mae data (a lle mae modelu yn ategu hynny) yn profi bod cysylltiad rhwng gweithgaredd cwmni dŵr a methiant i fodloni safonau. Bydd hyn yn cynnwys gosod offer dileu-ffosffad mewn gweithfeydd trin carthion. Mae mesurau hefyd yn cael eu cynnal i sicrhau nad yw'r amgylchedd sy'n derbyn yn dirywio yn sgil datblygiad sy'n arwain at fwy o ollyngiadau o weithfeydd trin dŵr gwastraff.

Bydd ystod eang o fesurau yn sicrhau canlyniadau ychwanegol i'r amgylchedd, ond nid ydynt wedi'u cysylltu â gwelliannau penodol yn y statws elfen erbyn 2021 gan nad oes digon o hyder ynghylch graddfa'r gwelliant. Mae hyn yn cynnwys mesurau ar gyfer hawliau tramwy llysywod, mesurau i warchod dŵr yfed a mesurau i addasu'r drefn llif a gwaddod lle ceir cronni ar gyfer rheoleiddio'r Dyfrdwy, a lle gellir dangos bod hynny'n fanteisiol ar gyfer nodweddion allweddol.

Yng Nghymru, rydym yn cyhoeddi rhaglenni'r byrddau dŵr ar **Arsylwi Dyfroedd Cymru**.

- **Rheolaeth tir gwledig**

Yng Nghymru, Glastir yw cynllun rheoli tir cynaliadwy Llywodraeth Cymru, ac mae'n cynnwys y lefel Mynediad sylfaenol, y lefel Uwch, Tir Comin ac Organig. Mae hefyd yn cynnwys adfer, creu a rheoli coetiroedd. Cynlluniau cwbl wirfoddol ydy'r rhain, ac maent yn ffurfio rhan fawr o fuddsoddiad ehangach yng Nghymru dan Gynllun Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 i 2020. Amcanion Glastir yw sicrhau canlyniadau amgylcheddol buddiol drwy:

- reoli pridd er mwyn helpu i gadw stociau carbon a lleihau erydiad pridd;
- gwella ansawdd y dŵr a lleihau goferu dŵr ffo arwyneb;
- rheoli dŵr er mwyn gostwng y perygl o lifogydd;
- cadw a gwella bywyd gwylt a bioamrywiaeth;
- rheoli a gwarchod tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol;
- creu cyfleoedd newydd i wella mynediad at gefn gwlad a dealltwriaeth ohono.

Mae Glastir yn cefnogi gweithrediad mesurau sy'n uwch na gofynion cyfreithiol, croesgydymffurfio ac arferion ffermio arferol.

Mae Glastir Uwch yn cefnogi gwaith amgylcheddol a dargedwyd at leoliadau penodol lle mae'r cyfle gorau i gyflenwi amcanion y cynllun. Bydd ymgeiswyr yn cyflwyno cais sy'n

Datgan Diddordeb mewn cytundeb Glastir Uwch, ac yn cael eu sgorio ar allu'r fferm benodol honno i gyflawni yn erbyn yr amcanion y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Gwneir hyn trwy fesur croestoriad yr ardal tir sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad o Ddiddordeb gyda chyfres o haenau System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), lle bynnag eu bod yn bresennol ledled Cymru. Mae'r haenau GIS hyn yn dynodi ble mae modd cyflawni amcanion penodol Glastir orau. Mae'r amcanion penodol yn cael eu blaenoriaethu o fewn bob haen GIS, ond mae modd addasu pwysigrwydd cymharol bob haen, trwy ddefnyddio ffactorau pwysoli, i sicrhau bod y blaenoriaethau pennaf yn cael sylw gyntaf.

Yn achos ansawdd dŵr, mae'r haen GIS perthnasol yn dynodi'r ardaloedd hynny lle'r oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyderus o'i dystiolaeth bod arferion trin y tir yn ffactorau cyfrannol wrth fethu cyflawni safonau ansawdd dŵr fel y'u diffinnir yn y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.

O fewn y meysydd blaenoriaeth hyn, defnyddir Glastir Uwch i fynd i'r afael â rheolaeth pridd a ffyrdd i leihau effaith maetholion, gwaddod a llygredd bacteria ymgarthol drwy ddarparu cynlluniau rheoli dŵr i bob fferm. Defnyddir y cynlluniau hefyd i ategu'r gwaith o gyflenwi'r opsiynau rheoli a'r gwaith cyfalaf mwyaf priodol er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i flaenoriaethau ansawdd dŵr drwy Glastir.

Hyd yma, mae Glastir Uwch wedi targedu 11,000 ha ar gyfer rheolaeth er mwyn sicrhau canlyniadau buddiol i amcanion ansawdd dŵr ar draws Cymru gyfan.

Mae cynllun rheoli yn sail i Coetir Glastir, a luniwyd yn unol â Safon Coedwigaeth y DU, sef y safon ofynnol ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy yn y DU. Mae rheoli ac adfer tir coedwigaeth a thir coediog yn gynaliadwy, ynghyd â chreu coetiroedd a choedwigoedd newydd sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn hanfodol i sicrhau bod dŵr ffres o ansawdd da ar gael, i warchod rhag peryglon naturiol fel llifogydd ac erydiad tir, ac i warchod anghenion rhywogaethau dyfrol.

Yn Lloegr, Countryside Stewardship yw'r cynllun newydd sy'n agored i holl ffermwyr cymwys, perchnogion coedwigoedd, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill drwy broses ymgeisio cystadleuol. Mae'n hollol wirfoddol ac yn rhan o fuddsoddiad ehangach o £3.5 biliwn yn Lloegr dan y Polisi Amaethyddol Cyfun rhwng 2016 a 2020. Bydd yn cyfrannu £900 miliwn o arian newydd i wella'r amgylchedd naturiol, yn enwedig amrywiaeth bywyd gwylt ac ansawdd dŵr. Defnyddir tua £400 miliwn o'r arian newydd hwn ar gyfer gwella ansawdd dŵr a chynyddu cadernid yn erbyn llifogydd.

Erbyn 2020, disgwylir y gallai 30% i 40% o Loegr wledig fod yn rhan o gytundeb Countryside Stewardship. Mae Countryside Stewardship yn cefnogi gweithrediad mesurau sy'n uwch na'r gofynion cyfreithiol ac arfer da. Bydd yn mynd i'r afael â rheolaeth pridd ac yn lleihau effaith maetholion, gwaddod a llygredd ymgarthol. Bydd hyn yn lleihau effaith ewtroffigedd a hynny'n fuddiol i ddyfroedd ymdrochi, dyfroedd pysgod cregyn a dŵr yfed. Gwneir hyn drwy fesurau sydd wedi'u categorioedd yn ôl y grwpiau canlynol:

- rheolaeth maes gwell, gan gynnwys eithrio da byw yn dymhorol, cynydau gorchudd gaeaf, lleiniau clustogi a lleiniau rheoli glannau ger cyrsiau dŵr a llai o ddefnydd o faetholion o wrteithiau
- newid defnydd tir, gan gynnwys creu coetiroedd a gwlyptiroedd neu drawsnewid tir â'r yn laswelltir sydd angen llai o wrtaith

- grantiau cyfalaf dŵr a choetir, gan gynnwys trapiau gwaddod, ffensio cyrsiau dŵr a phlannu coed
- ail-natureiddio afonydd ac amddiffynfeydd arfordirol, gan gynnwys gwneud lle ar gyfer ail-aliniad dŵr ac arfordir

Bydd Countryside Stewardship yn cefnogi cadernid yn erbyn newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, drwy blannu coed gerllaw afonydd a nentydd, sy'n gallu gostwng tymheredd afonydd a'r perygl i bysgodfeydd salmonid. Bydd hefyd yn lleihau gwaddodiad mewn afonydd, a hynny'n golygu bod y gallu gan afonydd i storio mwy o ddŵr.

Yn unigol, gall y mesurau hyn fod yn effeithiol ar raddfa caeau, ond mae'n rhaid i nifer o reolwyr tir fabwysiadu'r mesurau hyn ar draws y dalgylch cyfan i'r mesurau fod yn wirioneddol effeithiol. O ganlyniad, nid yw gwelliannau i'r amgylchedd o Countryside Stewardship wedi'u cysylltu â gwelliannau penodol yn statws elfen cyrff dŵr erbyn 2021. Mae'r penderfyniad i fabwysiadu'r mesurau hyn yn hollol wirfoddol, gyda'r cytundebau cyntaf yn dechrau yn Ionawr 2016.

Mae natur unigol y dalgylchoedd gan gynnwys priddoedd, topograffeg a glawiad yn golygu ei bod yn anodd meintioli manteision y mesurau hyn.

Disgwylir i Countryside Stewardship gyflawni canlyniadau amgylcheddol ychwanegol erbyn 2021. Mae ymchwil gychwynnol yn awgrymu y gall, gyda chynghor, gyflawni gwelliannau elfennol o tua 2% - 10% o'r safle presennol yn achos maetholion a gwaddod, Mewn rhai lleoliadau disylw, mae'n bosibl cyflawni gwelliant hyd at 18%, ond bydd yr union leoliadau yn dibynnu ar lefel ymgymryd â'r mesurau gan ffermwyr ac ar y cynghor ategol a ddarperir. Bwriedir cynnal ymchwil pellach a fydd yn helpu arfarnu manteision tebygol Countryside Stewardship i ddŵr.

Nid yw'n bosibl hyd yn hyn disgrifio manylion y cynlluniau neu union leoliadau unrhyw fuddsoddiad, fodd bynnag, rhagwelir y bydd gwelliannau o fewn rhan Lloegr Ardal Basn Afon Dyfrdwy.

• **Mesurau cynaliadwyedd adnoddau dŵr**

Mae tynnu dŵr a newidiadau eraill i lif afonydd a lefelau dŵr daear yn rhoi pwysau ar yr amgylchedd dŵr ac, mewn rhai achosion, yn achosi niwed amgylcheddol. Bydd rhoi sylw nawr i'r pwysau o ran tynnu dŵr a llif yn mynd i'r afael â niwed sydd eisoes yn digwydd a hefyd yn gam tuag at sicrhau cyflenwadau cynaliadwy o ddŵr i'r dyfodol.

Mae'r mesurau sydd wedi'u grwpio o fewn y rhaglen hon yn seiliedig ar weithredu darpariaethau sydd eisoes mewn bodolaeth dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991. Bydd offerynnau cyfredol yn cael eu defnyddio'n llawn i gyflawni amcanion amgylcheddol cyn i gynlluniau Defra a Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio'r system trwyddedu tynnu dŵr yn Lloegr a Chymru ddod i rym. Bydd hynny'n creu system sydd â digon o hyblygrwydd o'i mewn i ddelio gyda'r heriau a ddaw yn y dyfodol sef newid yn yr hinsawdd, a thwf poblogaeth ac economaidd tra'n gwarchod yr amgylchedd a cheisio sicrhau bod dŵr yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu dod â rhai achosion o dynnu sydd wedi'u heithrio i mewn i'r system drwyddedu. Bydd yn rhoi mwy o allu i ni reoli'r amgylchedd a rhwystro niwed.

Bydd y rhan fwyaf o'r mesurau yn cael eu gweithredu drwy'r system trwyddedu tynnu dŵr presennol ac yn cynnwys y mathau canlynol o weithredu:

- cyfyngu ar, neu wrthod ceisiadau i adnewyddu trwyddedau â therfyn amser

- newidiadau, neu ddirymiad trwyddedau sy'n angenrheidiol i warchod cyrff dŵr rhag niwed difrifol - mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio arweiniad a thystiolaeth o'r llywodraeth er mwyn blaenoriaethu wrth asesu a oes angen newidiadau i drwyddedau i warchod cyrff dŵr rhag niwed difrifol. Dylai holl dynwyr dŵr fod yn barod am newidiadau i'w trwyddedau tynnu mewn cyrff dŵr sydd wedi'u heffeithio gan niwed difrifol.
- gweithio gyda deiliaid trwyddedu i ymgeisio'n wirfoddol i newid trwyddedau i'w gwneud yn gynaliadwy
- gweithredu'r Rhaglen Adfer Dulliau Cynaliadwy o Dynnu Dŵr; bydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio'r rhaglen hon i weithredu er mwyn newid neu ddirymu trwyddedau tynnu dŵr sydd eisoes wedi'u hadnabod fel rhai sy'n achosi problem amgylcheddol.
- dirymu trwyddedau nad ydynt yn cael eu defnyddio

Mae'r trefniadau cyfredol ar gyfer talu am drwydded tynnu dŵr yn ariannu'r mesurau hyn. (Noder: mae gweithredoedd y cwmnïau dŵr wedi'u cynnwys yn adran "rhaglen buddsoddi cyfalaf dŵr").

Mae mesurau newid trwyddedau eisoes ar waith ac wedi dangos eu bod yn arwain at fanteision amgylcheddol unwaith bo'r newid wedi dod i rym, a'u bod yn cyflawni canlyniadau amgylcheddol. Bydd rhai cwmnïau dŵr yn ymateb yn gyflym i newidiadau yn amseriad a chyfaint y dŵr sy'n cael ei dynnu. Bydd cyrff dŵr wyneb sy'n dioddef o newid difrifol yn gweld mwy o lif, a bydd y niwed sy'n cael ei achosi yn cael ei atal. Fodd bynnag, yn achos newidiadau mewn trwyddedau ar gyfer tynnu dŵr daear, efallai y bydd angen mwy o amser cyn gweld unrhyw effeithiau cadarnhaol, ac yn wir, gall hyn ddigwydd dros sawl blwyddyn. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ystyried amserau adfer dŵr daear o fewn rhai dyfrhaenau sylweddol.

Bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y galw am ddŵr yn y dyfodol, yn ogystal â'r dŵr sydd ar gael a'i ansawdd. Mae afonydd a chyrrff dŵr daear eisoes dan bwysau. Mae'r galw am ddŵr yn cynyddu oherwydd twf mewn poblogaeth, datblygiad trefol a'r newid yn y defnydd o dir. Disgwylir i newid yn yr hinsawdd newid amledd a dosraniad glawiad gan godi tymereddau a chynyddu amledd a difrifoldeb digwyddiadau tywydd eithafol. Mae rhoi sylw i dynnu anghynladwy a gweithredu mesurau effeithlonrwydd dŵr yn hanfodol i baratoi ar gyfer, a bod yn gallu addasu i newid yn yr hinsawdd a galw cynyddol am ddŵr yn y dyfodol.

Ni ellir cysylltu'r holl fesurau gyda chanlyniadau a ragfyneir mewn cyrff dŵr penodol erbyn 2021 gan nad oes digon o hyder yn union faint ac amseriad y gwelliant. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd newid dosbarthiad i'w weld mewn rhai cyrff dŵr sydd heb eu nodi eto.

- **Gwelliannau wedi'u hariannu ar lefel dalgylch**

Yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi clustnodi £4.2 miliwn ar gyfer 2015-2018 i ariannu prosiectau sydd o fudd i fywyd gwyllt, pobl ac economi Cymru. Mae'r Gronfa Ariannu Cystadleuol yn seiliedig ar amcan Rheolaeth Adnoddau Naturiol sef rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn ffordd ac ar raddfa sy'n gallu cynnal a gwella cadernid ein hecosystemau tra'n cyflawni anghenion cenedlaethau heddiw heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu hanghenion. Bydd ffocws ar rwydwaith safleoedd dynodedig Natura 2000 yng Nghymru (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Amddiffyn Arbennig). Gwneir hyn i geisio cyflawni goblygiadau cyfreithiol Cymru dan y Gyfarwyddeb Adar Ewropeaidd a'r Gyfarwyneb Cynefinoedd (Amcan A). Ar yr un

pryd, mae'n ceisio integreiddio'r gwaith cadwraethol hwn gyda manteision cymdeithasol ac economaidd eraill sydd wedi'u nodi'n rhai pwysig yng Nghynllun Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae hyn wedi darparu cyllid i bartneriaid ledled Cymru. Yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy, mae hyn yn cynnwys gwaith ar leihau llygredd gwasgaredig, gwella cynefinoedd mewn afonydd a glannau afonydd, mynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol a darparu addysg a chynlluniau ymgysylltu â'r gymuned. Dyma gydbartneriaeth weithiol gydag Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru fel arweinwyr Partneriaeth Dalgylch Dyfrdwy Canol ac arian cystadleuol a neilltuir i Brosiect Estron Goresgynnol Dyfrdwy (Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru).

Mae Adnoddau Naturiol Cymru hefyd yn rheoli prosiectau sydd wedi'u hariannu'n rhannol gan eraill, fel yr Undeb Ewropeaidd a'r Gronfa Loteri Fawr. Er enghraifft, roedd Rhaglen LIFE Natura 2000 i Gymru yn brosiect i ddatblygu Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth sy'n nodi gweithredoedd sydd wedi'u blaenoriaethu a'u costio i bob safle Natura 2000 yng Nghymru, gyda'r amcan o adfer y safleoedd bywyd gwyllt pwysig hyn a'u diogelu ar gyfer y dyfodol.

Mae Cronfa Natur Llywodraeth Cymru werth £5 miliwn ac yn helpu 20 o brosiectau i wella bioamrywiaeth ac i helpu cymunedau ledled Cymru erbyn diwedd 2015. Mae'r gronfa yn cefnogi buddsoddiadau mewn pum gweithgaredd penodol o fewn saith Parth Gweithredu Natur. Y pum gweithgaredd penodol yw:

- gwella dalgylchoedd afonydd
- gwella ecosystemau morol
- gwella'r amgylchedd lleol
- gwireddu potensial ein hucheldiroedd
- ysgogi arloesedd

Yn achos Ardal Basn Afon Dyfrdwy, y Berwyn a'r Migneint yw'r Parthau Gweithredu Natur penodol. Mae'r prosiectau yma yn cynnwys cadwraeth ar raddfa tirwedd a rheoli tir yn gynaliadwy, gan gynnwys adfer mawndiroedd. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau ystod o fanteision gan gynnwys cadw dŵr a storio carbon.

Mae partneriaid eraill fel Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru hefyd yn dod â rhanddeiliaid allweddol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ynghyd i hyrwyddo a monitro gweithredu er budd bioamrywiaeth a'r ecosystem yng Nghymru. Mae gwaith Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn digwydd drwy bartneriaeth ehangach a'r tîm cefnogi.

Yn Lloegr, fel rhan o'r ymrwymiad i'r dull seiliedig ar ddalgylch, mae Defra wedi sicrhau bod £10.1 miliwn ar gael yn ystod 2015 i 2016 i gyflenwi canlyniadau gwirfoddol i'r amgylchedd dŵr drwy'r Catchment Partnership Action Fund (CPAF) a Rhaglen Amgylchedd Asiantaeth yr Amgylchedd. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn buddsoddi £4.64 miliwn drwy ei Rhaglen Amgylchedd, gyda mwy na 50% o hyn yn arbennig ar gyfer prosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid.

Bydd CPAF yn buddsoddi £5.1 miliwn yn 2015 i 2016. Mae £1.3 miliwn o'r arian hwn yn cefnogi rôl arweinwyr y dalgylch gyda'r gweddill yn mynd ar brosiectau a gynhelir gan

grwpiau gwirfoddol. Defnyddir o leiaf £2 filiwn o arian CPAF a'r Rhaglen Amgylchedd i fynd i'r afael â phroblemau llygredd trefol.

Caiff amrywiaeth eang o fesurau eu hariannu ar lefel dalgyllch. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau ymgynghori a chynlluniau gweithredu i leihau effaith llygredd o ardaloedd gwledig a threfol ynghyd â mesurau gwella cynefinoedd i gynyddu bioamrywiaeth.

Bydd Natural England yn buddsoddi £2 filiwn ar fesurau ardaloedd gwarchoddedig yn ystod 2015 i 2016. Bydd hyn yn canolbwyntio ar ddiogelu a lle bo hynny'n angenrheidiol, ar wella cyflwr safleoedd Natura 2000 gan ddefnyddio mesurau fel adfer afonydd, adfer llynnoedd, llygredd gwasgaredig, rhywogaethau dŵr croyw goresgynnol ac adfer cynefinoedd mewn gwlyptiroedd.

Mae effeithiolrwydd mesurau o fewn y rhaglen hon yn amrywiol. Mae mesurau fel dileu rhwystrau i ymfudiad pysgod yn atebion peirianeg sydd wedi'u hen sefydlu ac sy'n effeithiol. Fodd bynnag, mae yna rai cynlluniau gwella dalgyllch a chynefinoedd sydd heb sefydlu cystal, gan gynnwys mesurau i leihau llygredd pleiddiaid neu ymgymryd â gwelliannau cynefin afonydd ehangach. Mae rhai mesurau yn dibynnu ar newid ymddygiadol mewn arferion amaethu, ac felly'n llai dibynadwy mewn cymhariaeth ag atebion sy'n ymwneud â pheirianeg.

Mae angen i brosiectau for yn gallu ymdopi gyda newid yn yr hinsawdd, perfformio dan amodau gwahanol a chefnogi iechyd hirdymor y dalgyllch. Wrth ddatblygu ei rhaglen fuddsoddi, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried y cyfraniad y bydd pob gweithred yn ei wneud i leihau peryglon ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd gan weithio gyda phartneriaid i reoli'r peryglon hynny a chynorthwyo dalgyllchoedd i addasu.

Bydd canlyniadau nifer o brosiectau yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwelliannau mewn statws a ragfynegir erbyn 2021 ar gyfer elfennau penodol mewn cyrff dŵr penodol. Mae hyn yn cynnwys gweithredoedd i fynd i'r afael â llygredd gwledig gwasgaredig yn yr ardal basn afon hon.

Mae gwelliannau eraill ar lefel dalgyllch a ariennir gan lywodraeth leol yn ymdrin â nifer o bwysau gwahanol a byddant yn sicrhau gwelliannau amrywiol i'r amgylchedd, ond nid ydynt yn gysylltiedig â chanlyniadau ar gyfer 2021 gan nad oes digon o hyder ynghylch graddfa'r gwelliant.

- **Mesurau ehangach**

Mae yna nifer o fesurau nad ydynt yn alinio gyda mater rheoli dŵr sylweddol unigol.

Thema	Mesur
Ymchwiliadau	Y rhaglen ymchwiliadau i gyrff dŵr lle mae yna: <ul style="list-style-type: none">• Fethiannau hysbys gan gynnwys y cyrff dŵr hynny ag amcanion amgen• Perygl o ddirywiad
Rheoli Perygl Llifogydd	Yng Nghymru, dylai mesurau a gyflenwir dan Gynlluniau Rheoli Basn Afon ystyried sut i sicrhau'r manteision mwyaf o ran Rheoli Perygl Llifogydd. Er enghraifft, dylai cyngor i berchnogion tir ynghylch rheoli dŵr wyneb gynnwys sut i leihau neu arafu dŵr ffo yn ogystal â chyngor ynghylch rhwystro llygredd.

Thema	Mesur
Newid yn yr Hinsawdd	Yng Nghymru, mae cynllunio sut i reoli basn afon yn broses hirdymor ac mae'n rhaid ymgorffori newid yn yr hinsawdd trwy'r cyfan. Mae canllawiau'r Strategaeth Weithredu Gyffredin Ewropeaidd ar 'reoli basn afon mewn hinsawdd sy'n newid' yn arwain aelod-wladwriaethau i integreiddio trefniadau addasu i newid mewn hinsawdd ymhob cam o'r broses gynllunio rheoli basn afon, yn enwedig wrth asesu pwysau a dethol mesurau.
Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Yfed – dŵr wyneb a dŵr daear	<p>Mae Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Yfed (a phob corff dŵr i fyny'r afon) sydd mewn perygl wedi'u cyflwyno fel Parthau Diogelu 'ymgeisiol' ar gyfer Ymchwiliadau Cynlluniau Rheoli Asedau er mwyn asesu ffynhonnell methiant y dŵr crai a nodi atebion ymarferol ar gyfer y dalgylch. Pan welir bod atebion ar gyfer y dalgylch yn bosibl, a phan ellir sicrhau cytundeb rhanddeiliaid, bydd Parthau Diogelu yn cael eu dynodi'n ffurfiol ar gyfer camau gwella a ariennir.</p> <p>Yn Lloegr, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi sefydlu bod digon o dystiolaeth eisoes o effaith amgylcheddol mewn rhai ardaloedd, ac felly wedi cytuno ar ddynodiad ffurfiol Parthau Diogelu. O ganlyniad, ym Masn Afon Dyfrdwy, bydd cyfuniad o ymchwiliadau a gweithredoedd gan y cwmnïau dŵr yn ceisio adnabod ffynhonnell y problemau a hefyd dyfeisio a rhoi gweithredoedd ar waith i wella ansawdd y dŵr.</p>
Rhywogaethau o bwys economaidd (Dyfroedd Pysgod Cregyn)	Mae cyfres o fesurau wedi'u cynllunio i geisio cyflawni'r safon microbaidd mewn cnawd pysgod cregyn fel a grynhowyd yn adran 3.3. Mae cynlluniau ar waith i feithrin dealltwriaeth well o welliannau y mae eu hangen i gyflawni amcanion Ardaloedd Gwarchoddedig Dyfroedd Pysgod Cregyn ac i ddarparu gwybodaeth i ategu dadansoddiad o fuddiannau costau. Bydd hyn yn arwain at ddiweddarau cynlluniau i gynnig mesurau i sicrhau cydymffurfiaeth ag amcanion perthnasol.
Dyfroedd Hamdden (Dyfroedd Nofio)	Mae proffiliau Dŵr Nofio wedi'u llunio ar gyfer pob safle dynodedig. Maent yn cynnwys manylion am y mesurau y mae eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau diwygiedig a ddaeth i rym yn 2015.
Ardaloedd Sensitif o ran Maetholion (Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol)	Mae mesurau wedi'u nodi i sicrhau bod unrhyw ollyngiadau perthnasol o waith trin dŵr gwastraff o fewn yr ardal sensitif yn cyrraedd safonau allyriadau ffosforws neu nitrogen penodol.
Ardaloedd Sensitif o ran Maetholion (Parthau Perygl Nitradau)	Mae Parthau Perygl Nitradau wedi'u dynodi a gallant gael eu dynodi mewn ardaloedd lle effeithir ar ansawdd dŵr gan nitradau o ffynonellau amaethyddol. Gall mesurau i leihau crynodiadau nitrad o fewn Parthau Perygl Nitradau gynnwys sefydlu cod gwirfoddol o arfer amaethyddol da a datblygu rhaglenni gweithredu i leihau colledion nitrad amaethyddol.

Thema	Mesur
Natura 2000: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ar gyfer Adar Gwyllt sy'n ddibynnol ar ddŵr	<p>Fel rhan o Raglen LIFE Natura 2000 ar gyfer Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu Cynlluniau Gwelliannau â Blaenoriaeth (PIPau) ar gyfer holl safleoedd Natura 2000 nad ydynt mewn cyflwr ffafriol ar hyn o bryd (gan gynnwys safleoedd/nodweddion sy'n ddibynnol ar ddŵr). Mae Cynlluniau Gweithredu Thematig hefyd wedi'u datblygu fel rhan o'r rhaglen i fynd i'r afael â materion strategol allweddol yn safleoedd Natura 2000. Bydd rhai o'r mesurau o'r PIPau a'r Cynlluniau Thematig yn digwydd yn ystod y cylch hwn a byddant yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.</p> <p>Ar gyfer safleoedd sy'n croesi'r ffin â Lloegr, mae cynllun trawsffiniol sengl (a elwir yn Gynllun Gwella Safle neu CGS) wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad â'i chwaer brosiect sef Rhaglen Gwella Safleoedd Natura 2000 Lloegr (IPENS).</p>
Canllaw Monitro Safonau Cyffredin Safleoedd Gwarchoddedig Dŵr Croyw	Mewn cydweithrediad ag Asiantaethau eraill y DU, rydym yn diweddarau canllawiau cyfredol i sicrhau eu bod yn seiliedig ar y sail dystiolaeth ddiweddaraf ac i wella cysondeb.
Natura 2000: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ar gyfer Adar Gwyllt sy'n ddibynnol ar ddŵr	Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu ei Gynlluniau Rheoli Craidd ar gyfer safleoedd Natura 2000 i sicrhau bod y targedau'n adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf.
Asideiddiad	Yng Nghymru, parhau i wella ymwybyddiaeth o, a gweithredu Canllawiau Safonau Coedwigaeth y DU (gan gynnwys Canllawiau "Coedwigoedd a Dŵr"), a Chanllawiau Ymarfer (gan gynnwys "Rheoli coedwigoedd mewn dalgylchoedd dŵr sensitif i asid"), ar draws y sector coedwigaeth.
Asideiddiad	Yng Nghymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflenwi Rhaglen o Fesurau â Blaenoriaeth ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru i gefnogi proses cyflenwi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac amcanion ardaloedd gwarchoddedig.

3.3 Crynodeb – Rhaglen o fesurau cenedlaethol ar gyfer materion rheoli dŵr sylweddol

Mae Adran 2.3 yn crynhoi'r materion mwyaf pwysig y credwn ni sy'n bygwth y defnydd a wneir o'r amgylchedd dŵr ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. Maent wedi'u grwpio'n faterion rheoli dŵr sylweddol i'r Rhaglen o Fesurau arfaethedig sydd i'w gweld isod. Fodd bynnag, mae yna gysylltiadau arbennig rhwng y grwpiau a fydd yn fodd i fynd i'r afael â phwysau penodol mewn ffordd gydweithredol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aber Dyfrdwy a dyfroedd morol ehangach lle gwelir mai maetholion a chemegion yw'r pwysau mwyaf sylweddol sydd angen sylw. Bydd holl fesurau yn yr amgylchedd daearol a dŵr croyw yn

arwain at leihad yng ngollyngiadau maetholion a chemegion, a bydd hynny'n arwain at leihau'r pwysau hynny mewn dyfroedd aberol, arfordirol a morol. Ymhellach, bydd mesurau i leihau llygredd o ardaloedd trefol, ardaloedd gwledig, mwynloddiau a charthion a dŵr gwastraff mewn cyfuniad gyda mesurau deddfwriaethol a gymerir i gemegion unigol (e.e. tributyltin) neu grwpiau (e.e. Llygryddion Organig Parhaus) yn arwain at leihad mewn llygryddion penodol a sylweddau â blaenoriaeth er mwyn cyflawni amcanion perthnasol.

Mae yna weithredoedd statudol sylweddol i sicrhau bod yr amgylchedd dŵr yn cael ei warchod a'i wella ar draws yr Ardal Basn Afon. Ceir rhestr o fesurau cenedlaethol a lleol ar **Arsylwi Dyfroedd Cymru**.

3.3.1 Addasiadau Ffisegol

Pwy fydd angen bod yn rhan o'r gwaith?

Llywodraeth Cymru, Defra, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Perchnogion rhwystrau i hwylusfeydd pysgod ac amddiffynfeydd arfordirol a llifogydd, Awdurdodau Lleol, Cyrff Anllywodraethol – drwy bartneriaethau ac ymgyrchoedd, y Ganolfan Adfer Afonydd, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, UKTAG.

Erbyn 2021

- Lle bo addasiadau i'r amgylchedd dŵr yn hanfodol i gymdeithas, er enghraifft, mordwyo, cyflenwad dŵr cyhoeddus, amddiffynfeydd arfordirol neu reoli llifogydd, rydym am liniaru'r effeithiau negyddol hyd eithaf ein gallu.
- Rydym am ddarparu mwy o gynefinoedd arfordirol trwy reoli aliniad i liniaru effaith gwasgfa arfordirol.
- Rydym am sicrhau nad yw addasiadau yn y dyfodol yn achosi dirywiad.
- Rydym am ehangu lleiniau clustogi a choridorau glan afon ar hyd dyfroedd mewndirol i sicrhau y gallant wrthsefyll pwysau arall yn well, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd.

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Parhau i weithredu'r canllawiau Ynni Dŵr gan gynnwys cynhyrchu canllaw dylunio a lleoli i ddatblygwyr cynlluniau ynni dŵr.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyflawni ein dyletswyddau statudol i warchod, gwella a datblygu pysgodfeydd eogiaid, dŵr croyw a llyswennod	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rhoi cyfeiriad strategol i waith pysgodfeydd yng Nghymru fel y nodir yn yr Agenda Newid i Bysgodfeydd	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Cyflenwi'r rhaglen pysgodfeydd cynaliadwy yng Nghymru i wella cynefinoedd ac ymfudiad pysgod	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Diwygio'r canllaw Clirio'r Dyfroedd ar gyfer gweithgareddau carthu a gwaredu mewn dyfroedd arfordirol ac aberol	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Nodi cyfleoedd i wella'r amgylchedd dŵr drwy raglenni gwaith cyfredol a dyluniadau cynllun ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn chwilio am gyfleoedd ac yn dylanwadu ar eraill i ddefnyddio mesurau rheoli perygl llifogydd naturiol lle bo hynny'n briodol.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Hyrwyddo ad-drefnu dan reolaeth a chreu cynefinoedd rhynglanwol drwy Raglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd (NHCP).	Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Adolygu a gweithredu rhaglen o fesurau lliniaru â blaenoriaeth ar gyfer asedau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn berchen arnynt mewn cyrff dŵr a ddynodwyd fel rhai a addaswyd yn sylweddol er mwyn atal llifogydd ac amddiffyn y glannau.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfrannu at waith cyflenwi Cynlluniau Rheoli Lefel Dŵr â blaenoriaeth.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfrannu at waith ymchwil a datblygu i nodi arfer gorau ar gyfer rheoli pwysau hydromorffolegol yn yr amgylchedd dŵr.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ledled Cymru, adolygu effeithiau gweithgareddau sydd heb eu rheoleiddio gan dargedu adnoddau pysgodfeydd môr. Dylai hyn ystyried graddfa'r gweithgareddau, effaith codi adnoddau a gweithgareddau	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
cysylltiol (e.e. mynediad) ar nodweddion Safle Morol Ewropeaidd, a'r posibilrwydd o adfer y nodweddion Safle Morol Ewropeaidd.		
Rhoi caniatâd ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 (bydd rhai ohonynt cyn hir yn dod o dan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Lloegr a Chymru) 2010), ar ôl asesu effaith cynlluniau neu weithgareddau newydd ar hydroleg a morffoleg.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru), llywodraeth leol a draenio mewnol	Asiantaeth yr Amgylchedd
Sicrhau bod trwyddedau tynnu a chronni a thrwyddedau amgylcheddol newydd yn cynnwys camau i warchod pysgod dŵr croyw ac ymfudol lle bo hynny'n berthnasol a defnyddio pwerau i sicrhau bod tramwyfeydd a sgriniau pysgod addas ar gael lle bo hynny'n briodol.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Defnyddio rheolaeth drwyddedu dan Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009 ar gyfer gweithgareddau gan gynnwys gwaith adeiladu, addasu neu wella, carthu a symud sylweddau neu wrthrychau o'r môr neu wely'r môr.	Llywodraeth ac asiantaethau (Sefydliad Rheoli Morol, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Ystyried y Datganiad Polisi Morol a chynlluniau morol yn y penderfyniad sy'n effeithio ar amgylcheddau morol ac arfordirol. Mae'r cynlluniau hyn yn gosod y fframwaith strategol ar gyfer datblygiad cynaliadwy y môr.	Pob sector	Asiantaeth yr Amgylchedd
Trwyddedu carthu a gweithiau o fewn terfynau harbwr.	Mordwyo (awdurdodau harbwr)	Asiantaeth yr Amgylchedd

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
<p>Gweithio gyda phartneriaid a grwpiau a chanddynt ddiddordeb i adnabod mesurau lliniaru priodol i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr mewn dyfroedd artiffisial a dyfroedd wedi'u haddasu'n sylweddol. Mae mesurau lliniaru yn gamau ymarferol y gellir eu cymryd i liniaru effeithiau niweidiol y gweithgareddau sy'n fanteisiol i bobl fel cronni ar gyfer adnoddau dŵr, neu strwythurau sy'n darparu amddiffynfeydd rhag llifogydd.</p>	<p>Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)</p>	<p>Asiantaeth yr Amgylchedd</p>
<p>Ystyried yr effaith ar hydromorffoleg wrth baratoi cynlluniau gofodol a chynlluniau rheoli perygl llifogydd lleol, penderfyniadau ar reolaeth datblygiadau, adeiladau newydd a seilwaith.</p>	<p>Llywodraeth leol</p>	<p>Asiantaeth yr Amgylchedd</p>
<p>Defnyddio'r safle e-ddysgu ar gyfer rheoli perygl llifogydd i gaffael gwybodaeth arbenigol ar fesurau lliniaru.</p>	<p>Mordwyo (porthladdoedd a harbwrs), diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill, cyrff anllywodraethol a llywodraeth ganolog</p>	<p>Asiantaeth yr Amgylchedd</p>
<p>Defnyddio canllawiau perthnasol Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru ar gydymffurfio gyda'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, sy'n trafod ystod o weithgareddau mewn aberoedd ac arfordiroedd.</p>	<p>Pob sector</p>	<p>Asiantaeth yr Amgylchedd</p>
<p>Mae gweithgynhyrchu a busnes arall yn defnyddio 'Datblygiad Pŵer Dŵr: canllawiau i bŵer dŵr allan o'r afon' gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu Adnoddau Naturiol Cymru, neu 'Canllawiau Pŵer Dŵr' yng Nghymru.</p>	<p>Diwydiant</p>	<p>Asiantaeth yr Amgylchedd</p>
<p>Defnyddio canllawiau arfer gorau sydd wedi'u datblygu dan y diwydiant.</p>	<p>Mordwyo (porthladdoedd a harbwrs), llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr</p>	<p>Asiantaeth yr Amgylchedd</p>

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
	Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru) a llywodraeth leol	
Yn Lloegr, adnewyddu'r gorolwg strategol o lifogydd môr ac erydu arfordirol i reoli perygl amgylcheddol yn well gan ddefnyddio cynlluniau rheoli perygl amgylcheddol tymor hir.	Llywodraeth leol, llywodraeth ganolog (Asiantaeth yr Amgylchedd)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Yn Lloegr, archwilio effeithiolrwydd trefniadau cyfredol parthed canllawiau cynllunio ar ddatblygiadau mewn gorlifdiroedd ac ardaloedd lle mae perygl o erydu arfordirol.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Yn Lloegr, adolygu safonau dylunio amddiffynfeydd rhag gorlifoedd i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a safleoedd Natura 2000.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Yn Lloegr, cynnal astudiaethau dichonoldeb a dyluniadau ar gyfer ardaloedd storio llifogydd er lles amgylcheddol.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd)	Asiantaeth yr Amgylchedd

3.3.2 Rheoli llygredd o garthion a dŵr gwastraff

Pwy fydd angen bod yn rhan o'r gwaith?

Llywodraeth Cymru, Defra, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Diwydiant Dŵr, Awdurdodau Lleol, y Diwydiant Pysgod Cregyn, y Cyhoedd yn gyffredinol.

Erbyn 2021

- Mae'r holl systemau carthffosiaeth yn cael eu cynnal a'u cadw a, lle bo angen, eu gwella fel eu bod yn gweithredu'n effeithiol a bod eu heffeithiau ar yr amgylchedd dŵr yn cael eu lleihau hyd yr eithaf.
- Mae datrysiadau i broblemau gorlif carthffosiaeth cyfunol sy'n cyflawni manteision amrywiol yn cael eu hymgorffori mewn gwaith cynllunio a datblygu (e.e. dyluniadau trefol sy'n sensitif o ran dŵr, cynlluniau draenio cynaliadwy).
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effeithiau camgysylltiadau a gwaredu sylweddau niweidiol mewn systemau carthffosiaeth (e.e. paent, olew, brasterau a chemegion gardd).
- Gwarchod a gwella Dyfroedd Ymdrochi a Physgod Cregyn I hyrwyddo diwydiant twristiaeth a dyframaethu pysgod cregyn ffyniannus.

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gweithio gyda chwmnïau dŵr i ddatblygu rhaglen o ymchwiliadau a gwelliannau i ollyngiadau carthion er mwyn cefnogi'r gwaith o gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac amcanion Ardaloedd Gwarchoddedig yn AMP6 (2015-20)	Cyfoeth Naturiol Cymru, Diwydiant Dŵr	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gweithio'n strategol gyda gweinyddiaethau'r DU i rannu arferion gorau ar rwystro a datrys camgysylltiadau	Cyfoeth Naturiol Cymru, Diwydiant Dŵr	Cyfoeth Naturiol Cymru
Treialon cenedlaethol mewn gwaith trin carthion mewn perthynas â gwaredu Ffosforws gan weithio tuag at 0.1mg/l P i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Natura 2000	Diwydiant Dŵr	Cyfoeth Naturiol Cymru
Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith rheoliadol sy'n annog datrysiadau cynaliadwy, arloesol i reoli dŵr gwastraff.	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cwmnïau dŵr yn datblygu a darparu opsiynau rheoli dalgyrch sy'n gwella ansawdd dŵr a darparu gwasanaethau ecosystem ychwanegol	Diwydiant Dŵr	Cyfoeth Naturiol Cymru
Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gosod a gweithredu systemau trin carthion preifat yn gywir.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Lleihau faint o fraster, olew a sain sy'n cael eu gwaredu mewn carthffosydd – Ymgyrch i ddylanwadu ar ymddygiad gyda thafleuni, pecynnau gwybodaeth.	Diwydiant Dŵr	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rhoi methodoleg a adolygwyd ar waith ar gyfer asesu llygryddion peryglus o fewn gollyngiadau dŵr wyneb.	Cyfoeth Naturiol Cymru, Diwydiant Dŵr	Cyfoeth Naturiol Cymru
Hyrwyddo'r defnydd o systemau draenio cynaliadwy a darparu arweiniad ar gyfer integreiddio datblygiad a chynllunio dŵr.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Datblygu a chyflenwi ymagwedd sy'n rhoi ffocws yn well ar reoli carthion a draeniad.	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Caniatáu ac adolygu trwyddedau amgylcheddol dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Lloegr a Chymru) 2010 i'r diwydiant dŵr, gweithgynhyrchu a busnesau eraill a sectorau eraill i warchod yr amgylchedd o lygryddion fel cemegion, maetholion, firysau, amonia a deunydd organig yn yr elifiant a ollyngir.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Gweithio gyda'r diwydiant dŵr i ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer carthffosiaeth i rwystro dirywiad o ollyngiadau a ganiateir (er enghraifft, gorlifant cyfun o garthffosydd), o ganlyniad i bwysau fel newid yn yr hinsawdd, twf a seilwaith sy'n heneiddio; ac i ddatblygu strategaeth hirdymor i leihau a chyfyngu ar beryglon i'r amgylchedd dŵr o garthffosiaeth a gam-gysylltwyd (carthion wedi'u cysylltu ar gam gyda dŵr wyneb).	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Caniatáu trwyddedau amgylcheddol i ollyngiadau carthion bach mewn ardaloedd sensitif dynodedig. Mewn ardaloedd eraill, mae gollyngiadau carthion bach wedi'u heithrio (gan gynnwys tanciau septig) o'r angen am drwydded os ydynt yn gallu cyflawni nifer o feini prawf.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Cynnal adolygiad o ardaloedd sensitif i ewtroffigedd, mewn perthynas â Chyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol (UWWTD) a chynnig argymhellion i Defra.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Gorfodi cyfyngiadau a gwaharddiadau ar y defnydd o rai cemegion penodol.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd ac Arolygiaeth Iechyd a Diogelwch)	Asiantaeth yr Amgylchedd

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Ystyried yr effaith ar ansawdd dŵr wrth baratoi cynlluniau gofodol, penderfyniadau ar gynllunio gofodol, rheoli datblygiad, adeiladau newydd a seilwaith.	Llywodraeth leol	Asiantaeth yr Amgylchedd
Ystyried y Datganiad Polisi Morol a chynlluniau morol sy'n effeithio ar amgylcheddau morol ac arfordirol. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi'r fframwaith strategol ar gyfer datblygiad cynaliadwy'r môr.	Pob sector	Asiantaeth yr Amgylchedd

3.3.3 Rheoli llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth

Pwy fydd angen bod yn rhan o'r gwaith?

Llywodraeth Cymru, Defra, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, y Diwydiant Dŵr, Awdurdodau Lleol, Cyrff Cymeradwyo SuDS, Diwydiant, Gweithgynhyrchu a Busnesau eraill, Cyrff Anllywodraethol drwy bartneriaethau ac ymgyrchoedd, Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Grwpiau Awdurdod perthnasol ar gyfer Safleoedd Morol Ewropeaidd, Sector Porthladdoedd a Harbws, y Cyhoedd yn gyffredinol.

Erbyn 2021

- Rydyn ni am leihau effaith negyddol datblygiadau hanesyddol a datblygiadau'r dyfodol ar yr amgylchedd dŵr drwy ein rôl fel ymgynghorai ar ansawdd tir yn y broses gynllunio neu, lle nad yw'r broses gynllunio'n gymwys, trwy ddarparu cyngor a chymorth i awdurdodau lleol gyda'u strategaeth ar gyfer archwilio tir a ddifwynwyd.
- Rydyn ni am sicrhau bod y dull gweithredu ecosystemau a gwasanaethau ecosystem wrth wraidd gwaith dylunio a chynllunio trefol. Gwnawn hyn drwy ddefnyddio draeniau trefol cynaliadwy (SuDS), adfer yr ardaloedd o amgylch afonydd, gan gynnwys glannau afon a'r ardal rhynglanwol, darparu mannau gwyrdd cyhoeddus, codi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad i wella ansawdd bywyd yn ardaloedd trefol Cymru.

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Llywodraeth Cymru i gyflwyno Rheoliadau Tanwydd ac Olew yng Nghymru	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i hyrwyddo a sefydlu'r defnydd o Ddyluniadau Trefol Sensitif o ran Dŵr (WSUD) mewn polisi cynllunio a rheoliadau adeiladu datganoledig	Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Datblygu Cyrff Cymeradwyo SuDS i gynnig cyngor cyson ar weithgareddau cynllunio a chynnal cynlluniau	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Llywodraeth Cymru i adolygu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â llygredd gwasgaredig trefol	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Hyrwyddo'r broses o weithredu SuDS (systemau draenio cynaliadwy) mewn datblygiadau newydd a rhai sydd eisoes mewn bodolaeth, mewn ardaloedd trefol a gwledig, i sicrhau manteision o ran yr amgylchedd, ansawdd dŵr, cymdeithas a'r perygl o lifogydd	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Dylanwadu ar awdurdodau cynllunio i'w gwneud yn ofynnol i ddefnyddio SuDS, a chyfrannu at weithredu technoleg briodol ar gyfer SuDS	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyflawni camau gweithredu â blaenoriaeth a nodir yng Nghynllun Llygredd Dŵr Gwasgaredig Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gweithio mewn partneriaeth i ymchwilio i gamgysylltiadau, gan gynnwys targedu ardaloedd sy'n peri problemau. Cynnwys gwaith allgymorth i godi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd a'r gymuned ac ymgysylltu â nhw i raddau helaethach	Cyfoeth Naturiol Cymru, Diwydiant Dŵr	Cyfoeth Naturiol Cymru
Defnyddio ePIMS Llywodraeth y DU (System gwybodaeth am eiddo trydanol) i nodi ystadau a depos diwydiannol dan berchnogaeth gyhoeddus o fewn cyrff dŵr sy'n methu o fewn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i ddatrys problemau fel bod y safleoedd hyn yn anelu at gyflawni'r arferion gorau	Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol	Cyfoeth Naturiol Cymru
Asesu effeithiau amgylcheddol a lleihau halogi o safleoedd gwastraff a diwydiannol hanesyddol	Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Defnyddio data digwyddiadau llygredd i dargedu cyngor a gweithgareddau ar rwystro llygredd.	Cyfoeth Naturiol Cymru, Diwydiant Dŵr	Cyfoeth Naturiol Cymru
Codi ymwybyddiaeth o fanteision a llwyddiannau rheoli dŵr ffo drwy systemau draenio cynaliadwy a chynaeafu dŵr glaw i liniaru llifogydd a llygredd.	Cyfoeth Naturiol Cymru, Diwydiant Dŵr	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gweithredu Cod Ymarfer y systemau draenio cynaliadwy. Cydymffurfio gyda chyngor sydd wedi'i gyhoeddi i weithredwyr ar systemau draenio cynaliadwy	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cynghori busnesau bach a chanolig eu maint ar rwystro llygredd	Cyfoeth Naturiol Cymru, Diwydiant Dŵr	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gwella dealltwriaeth o wreiddiau llygredd gwasgaredig a'r atebion iddynt atebion drwy gynnal ymchwiliadau lleol (e.e. Glanhau Nentydd).	Cyfoeth Naturiol Cymru, Diwydiant Dŵr	Cyfoeth Naturiol Cymru
Datblygu sail o dystiolaeth i gefnogi dulliau rheoli sbwriel morol a strategaeth sbwriel morol.	Cyfoeth Naturiol Cymru & Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Datblygu a gweithredu deddfwriaeth i gefnogi atebion draenio cynaliadwy.	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Byddwn yn cyhoeddi safonau cenedlaethol interim ar sail ymgynghorol hyd nes byddwn yn dechrau Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Byddwn yn edrych ar opsiynau i weithredu Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, sy'n nodi bod yn rhaid i ddatblygiadau newydd gynnwys nodweddion systemau draenio cynaliadwy sy'n cydymffurfio gyda safonau cenedlaethol.	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Byddwn yn cynnal adolygiad o berchnogaeth draenio presennol a deddfwriaeth gysylltiol, gyda phwyslais arbennig ar ddŵr wyneb ac asedau amddifad ac ar gamgysylltiadau draenio.	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Byddwn yn cefnogi perchnogion systemau carthffosiaeth preifat trwy	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu arweiniad ar gynnal a chadw tanciau septig. Byddwn hefyd yn ymgysylltu gydag awdurdodau lleol sydd â dyletswydd i sicrhau bod perchnogion systemau carthffosiaeth preifat yn eu cynnal i rwystro bygythiad i iechyd cyhoeddus neu iechyd amgylcheddol.		
Byddwn yn ymgynghori ar, ac yn gweithredu arweiniad diwygiedig ar gyfer cynlluniau carthffosiaeth i gymunedau gwledig dan Adran 101A o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 ac yn ystyried deddfwriaethu i symleiddio'r broses.	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rheoli rhyddhad cemegion i'r amgylchedd dŵr yn y tarddle, h.y. cynhyrchiant a defnydd, drwy weithredu deddfwriaeth Ewropeaidd, gan gynnwys Rheoliadau Cofrestru, Arfarnu, Awdurdodi a Chyfyngu Cemegion (REACH), rheoleiddiad Llygryddion Organig Parhaus a Chyfarwydddeb Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid.	Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Iechyd a Diogelwch, Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Defnyddio pwerau gwrthlygredd (gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau) dan y Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 i rwystro neu lanhau llygredd ar raddfa fach, er enghraifft, sicrhau bod bwnd o amgylch tanciau septig neu drwsio camgysylltiadau.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Cydymffurfio gyda rheoliadau presennol (er enghraifft, Rheoliadau Trwyddedau Amgylcheddol (Lloegr a Chymru) 2010) i sicrhau bod cemegion yn cael eu rheoli'n gywir a bod trefniadau draenio dŵr wyneb yn cael eu defnyddio a'u cynnal yn briodol.	Diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill	Asiantaeth yr Amgylchedd
Defnyddio systemau draenio cynaliadwy i gael gwared â gwaddod a lleihau cemegion eraill i rwystro dŵr ffo llygredig.	Diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill (diwydiant adeiladu)	Asiantaeth yr Amgylchedd

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Ystyried pwysau llygredd trefol gwasgaredig wrth ddatblygu cynlluniau gofodol, ystyried ceisiadau cynllunio ac adeiladu adeiladau, seilwaith a safleoedd dan berchnogaeth awdurdodau lleol. Dylai'r rhain ymgorffori cynlluniau draenio cynaliadwy a mesurau effeithlonrwydd dŵr lle bo hynny'n ymarfer a fforddiadwy.	Llywodraeth leol	Asiantaeth yr Amgylchedd
Ymgorffori seilwaith gwyrdd a glas mewn cynlluniau adfywio lle bo hynny'n bosibl.	Llywodraeth leol	Asiantaeth yr Amgylchedd
Lleihau effaith plaleiddiaid drwy ddefnyddio contractwyr rheoli chwyn sydd wedi'u cofrestru i safonau Amenity Assured dan y Rhaglen Wirfoddol.	Llywodraeth leol a diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill	Asiantaeth yr Amgylchedd
Defnyddio memorandwm cyd-ddealltwriaeth sy'n ymwneud â'r rhwydwaith ffordd strategol ac adfer arllwysiadau perygl uchel.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd) a Highways England	Asiantaeth yr Amgylchedd
Gweithredu dan delerau memorandwm cyd-ddealltwriaeth sy'n ymwneud â thir a ddifwynwyd, gollyngiadau dŵr a'r defnydd o blaleiddiaid.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru) a threfol a thrafnidiaeth (Network Rail)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Ystyried y Datganiad Polisi Morol a chynlluniau morol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar amgylcheddau morol ac arfordirol. Mae'r cynlluniau hyn yn gosod y fframwaith strategol ar gyfer datblygiad cynaliadwy'r môr.	Pob sector	Asiantaeth yr Amgylchedd
Dilyn codau ymddygiad a chynlluniau rheoli aberol ac arfordirol anstatudol i warchod a gwella'r amgylchedd dŵr mewn lleoliadau penodol.	Diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill, llywodraeth leol, mordwyo a'r cyhoedd yn gyffredinol	Asiantaeth yr Amgylchedd
Gweithio gyda diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill (Partneriaethau Menter Lleol), a chyrrff anllywodraethol (partneriaethau dalgyrch a	Llywodraeth leol	Asiantaeth yr Amgylchedd

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Phartneriaethau Natur Lleol) i ddatblygu rhaglenni gwella ar y cyd.		
Gweithio mewn partneriaeth gyda holl sectorau i helpu adnabod lle mae arian o'r Rhaglen Dwf Ewropeaidd wedi'i fuddsoddi i ddatblygu economïau lleol a gwella'r amgylchedd.	Diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill (Partneriaethau Menter Lleol)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Gweithredu dan delerau memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn ymwneud â thir a ddifwynwyd, gollyngiadau dŵr a'r defnydd o blaleiddiaid.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru) a threfol a thrafnidiaeth (Network Rail)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Ymchwilio a delio gyda chamgysylltiadau, er enghraifft, drwy'r grŵp Strategaeth Camgysylltiadau Cenedlaethol ac yn unol â chynllun gweithredu trefol gwasgaredig Defra a Chynllun Llygredd Gwasgaredig Cyfoeth Naturiol Cymru.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r diwydiant dŵr)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Defnyddio amodau cynllunio, cytundebau cyfreithiol a phwerau gorfodol gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a'r Mesur Cynllunio (Cymru) i rwystro neu atal llygredd o ddatblygiadau, ffyrdd a seilwaith arall.	Llywodraeth leol	Asiantaeth yr Amgylchedd
Sicrhau bod datblygiadau newydd yn mynd i'r afael â phroblemau llygredd posibl drwy ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy i reoli dŵr wyneb.	Llywodraeth leol	Asiantaeth yr Amgylchedd
Defnyddio pwerau dan Ddeddf Adeiladu 1984 i unioni gwaith pibellau gwastraff sy'n dioddef o gamgysylltiadau, a phwerau niwsans statudol dan Ddeddf Gwarchod Amgylcheddol 1990 i atal llygredd dŵr o weithrediadau heb eu hawdurdodi fel busnesau golchi ceir amharhaol.	Llywodraeth leol	Asiantaeth yr Amgylchedd

3.3.4 Rheoli llygredd o ardaloedd gwledig

Pwy fydd angen bod yn rhan o'r gwaith?

Llywodraeth Cymru, Defra, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, y Diwydiant Dŵr, Diwydiant, Gweithgynhyrchu a Busnesau eraill, Rheolwyr tir amaethyddol a gwledig, Cyrff Anllywodraethol drwy bartneriaethau ac ymgyrchoedd, Academia, Awdurdodau Lleol, Grwpiau Awdurdodau Perthnasol ar gyfer Safleoedd Morol Ewropeaidd, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, y Cyhoedd yn gyffredinol.

Erbyn 2021

- Rydyn ni am atgyfnerthu mecanweithiau rheoleiddiol, ariannol a gweithredol i gefnogi sector amaethyddol cynaliadwy sy'n diogelu'r amgylchedd dŵr, o'r dalgylch i'r arfordir, ac sy'n helpu i ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau ecosystem sy'n dod â manteision ariannol, cymdeithasol ac ecolegol i Gymru.
- Trefniadau creu coetiroedd newydd a rheoli coedwigaeth priodol sydd o fudd i'r amgylchedd dŵr a phobl drwy hamdden awyr agored, ac sy'n darparu gwasanaethau ecosystem megis llai o lygredd gwasgaredig, llifau llifogydd llai, dŵr yfed glân, cynefinoedd ar gyfer pysgod a bywyd gwylt, a chysgod i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Yng Nghymru, lle bo hynny'n angenrheidiol, byddwn yn cynnig dynodi ardaloedd pellach fel Parthau Perygl Nitradau er mwyn gwarchod ansawdd dŵr wyneb a dŵr daear.
- I'r gwlypdiroedd hynny sy'n ddibynnol ar ddŵr daear ac sydd mewn cyflwr ecolegol gwael o ganlyniad i ddŵr daear uchel mewn maetholion, byddwn yn annog newidiadau lleol yn nhrefniadau rheoli'r dalgylch i liniaru ac, os yn bosibl, rhwystro.

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Monitro, ymchwilio a datrys tarddle llygredd mewn Ardaloedd Gwarchod Dŵr Yfed	Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Diwydiant Dŵr	Cyfoeth Naturiol Cymru
Llywodraeth Cymru i adolygu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â llygredd gwledig gwasgaredig	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Sicrhau bod y Cynllun Datblygu Gwledig yn cefnogi arferion amaethyddol cynaliadwy i gyflawni'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac amcanion Ardaloedd Gwarchoddedig	Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol (e.e. Cyswllt Ffermio a Choedwigaeth, undebau ffermwyr) i ddatblygu a darparu cyngor wedi'i dargedu ac arweiniad i reolwyr tir	Rheolwyr tir amaethyddol a gwledig, Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni rhaglen o waith coedwigaeth â blaenoriaeth ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac amcanion Ardaloedd Gwarchoddedig	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Parhau i wella ymwybyddiaeth a threfniadau gweithredu Canllawiau Ymarfer Safonol Coedwigaeth y DU (gan gynnwys Canllawiau "Coedwigoedd a Dŵr"), a Chanllawiau Ymarfer, ar draws y sector coedwigoedd.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Llywodraeth Cymru yn targedu cymelliadau Glastir – Rheoli Coetir i sicrhau gwelliannau i'r amgylchedd dŵr	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r Gyfarwyddeb Nitradau fel y bo'n briodol.	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyflenwi Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Dŵr i staff a chontractwyr sy'n gweithio ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru (a choedwigoedd preifat) i ymdrin â rheoli dŵr ar safleoedd gweithredol.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru i hyrwyddo mesurau perthnasol ar gyfer plannu coed, creu coetiroedd newydd a mesurau rheoli coetiroedd sy'n gyson â 'Coetir ar gyfer Dŵr: Mesurau coetir i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr' 2011	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Defnyddio rhaglen arloesi Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) i ddatblygu atebion newydd i faterion amgylcheddol.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Adolygu gweithrediad Gofynion Rheoli Statudol (SMR) a Chyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC) i gryfhau'r hyn sy'n ysgogi'r arferion amaethyddol	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
gorau – sicrhau bod cydraddoldeb yn nhermau'r monitro ar gyfer, a chanlyniadau arferion sy'n achosi llygredd gwasgaredig (o fewn dalgylchoedd safleoedd Natura 2000) gyda'r Gofynion Rheoli Statudol.		
Cryfhau cysylltiadau rhwng opsiynau amaeth-amgylcheddol ac amcanion Natura 2000 ar ffermydd o fewn dalgylchoedd sydd ar hyn o bryd yn effeithio ar safleoedd Natura 2000.	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Adolygu a chryfhau effeithiolrwydd a threfniadau gorfodi deddfwriaeth a pholisi perthnasol (dadansoddiad bwlch) i wella'i allu i ymdrin â llygredd dŵr gwasgaredig	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ymchwiliad i nodi ble allai safleoedd Natura 2000 i lawr afonydd o goedwigaeth elwa o welliannau (h.y. gwelliannau i lystyfiant glannau'r afonydd, ail-alinio draeniau coedwigoedd a datgysylltu draeniau ochr y ffordd o gyrsgiau dŵr) i gyflawni safonau US cyfredol (Safonau Coedwigaeth), er mwyn lleihau unrhyw risg o lygredd gwasgaredig ac asideiddio.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cynnal ymchwiliad peilot i adnabod ffynonellau llygredd gwasgaredig o fewn safle Natura Morol 2000 ac argymell gweithredoedd i fynd i'r afael â'r materion gwasgaredig.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru a'n Gwasanaethau Cyngori Amaethyddol ein hunain i weithio gyda pherchnogion tir i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o lygredd gwasgaredig a sut allan nhw helpu i'w rwystro trwy ddulliau rheoli tir gwell.	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Annog gweithredu cymunedol ar sail dalgylch drwy ddatganiadau ardal a ddatblygir gan Gyfoeth Naturiol Cymru a grwpiau cydweithredol eraill gyda'r nod o wella ansawdd y dŵr yn eu hardaloedd.	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gwirio a sicrhau cydymffurfiaeth yn erbyn trwyddedau amgylcheddol dan Reoliadau Trwyddedau Amgylcheddol (Lloegr a Chymru) 2010 ac yn erbyn gofynion ystod eang o ddeddfwriaeth amgylcheddol.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Cydymffurfio gyda thrwyddedau a ganiateir dan Reoliadau Trwyddedau Amgylcheddol (Lloegr a Chymru) 2010. Mae gweithgareddau a ganiateir yn cynnwys rhai gollyngiadau i ddŵr daear, taenu gwastraff ar dir er budd amaethyddol, unedau moch a dofednod dros faint arbennig ac adfer gwastraff amaethyddol yn ddiogel.	Rheolwyr tir amaethyddol a gwledig (busnesau fferm)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Cydymffurfio gyda mesurau'r rhaglen weithredu o fewn Rheoliadau Rhwystro Llygredd Nitrad 2015 ymhob rhanbarth perygl nitradau.	Rheolwyr tir amaethyddol a gwledig (busnesau fferm)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Cydymffurfio gyda gofynion Rheoliadau Rheoli Llygredd (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 2010 (SSAFO).	Rheolwyr tir amaethyddol a gwledig (busnesau fferm)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Sicrhau nad yw mater llygru yn bresennol mewn man lle mae wedi, neu lle mae'n debygol o fynd i mewn i ddyfroedd rheoledig er mwyn osgoi gweithredu gorfodol dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991.	Rheolwyr tir amaethyddol a gwledig (busnesau fferm)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Cynghori ffermwyr ar ofynion cyffredinol trawsgydymffurfio a rheoliadau sy'n ofynnol dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.	Llywodraeth ac asiantaethau (Gwasanaeth Cynghori Ffermio)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Darparu cyngor ar lefel safle ar ofynion penodol y rheoliadau.	Llywodraeth ac asiantaethau	Asiantaeth yr Amgylchedd

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
	(Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru)	
Darparu cyngor ar ofynion penodol rheoliadau sy'n ymwneud â safleoedd dynodedig, ac sy'n gallu rhwystro neu atal gweithgareddau allai fod yn niweidiol.	Llywodraeth ac asiantaethau (Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Darparu cyngor a hyfforddiant i ffermwyr mewn rhai dalgylchoedd â blaenoriaeth drwy ymagwedd fel Ffermio Dalgylch Sensitif a Glastir.	Llywodraeth ac asiantaethau (Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Adolygu effeithiolrwydd mesurau o fewn dalgylchoedd, a lle mae angen digonol, ystyried pa weithredu pellach ddylid ei gynnis.	Llywodraeth ac asiantaethau (Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Cydymffurfio gyda Safon Coedwigaeth y DU, sef ymagwedd y llywodraeth at goedwigaeth gynaliadwy.	Llywodraeth ac asiantaethau (Comisiwn Coedwigaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Defnyddio amodau cynllunio, cytundebau cyfreithiol a phwerau gorfodi dan Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990 i rwystro neu atal llygredd o ddatblygiadau gwledig, ffyrdd a seilwaith gwledig arall.	Llywodraeth leol	Asiantaeth yr Amgylchedd
Ystyried effaith llygredd wrth baratoi cynlluniau gofodol, mwynau a chynlluniau gwastraff ac wrth wneud penderfyniadau ar reoli datblygiadau, adeiladau gwledig newydd a seilwaith gwledig.	Llywodraeth leol	Asiantaeth yr Amgylchedd
Bodloni gofynion trawsgydymffurfio y cynllun Taliad Sylfaenol sy'n cael ei ariannu gan y Polisi Amaethyddol Cyffredin.	Rheolwyr tir amaethyddol a gwledig (busnesau fferm)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Cyfranogi'n wirfoddol mewn cynlluniau Stiwardiaeth Cefn Gwlad a Chynhyrchiant Cefn Gwlad i rwystro dirywiad, gwella ansawdd y dŵr a lleihau perygl llifogydd.	Rheolwyr tir amaethyddol a gwledig (busnesau fferm)	Asiantaeth yr Amgylchedd

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Cyfranogi mewn ymagweddau sy'n cael eu harwain gan y sector gan gynnwys gwarant fferm a chynlluniau Ymgyrch dros yr Amgylchedd Ffermio.	Amaethyddiaeth, diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill	Asiantaeth yr Amgylchedd
Defnyddio mapio cyfleoedd i adnabod a hyrwyddo lleoliadau lle mae'n bosibl i gynlluniau creu coetiroedd arwain at fanteision i'r amgylchedd.	Llywodraeth ac asiantaethau (Comisiwn Coedwigaeth, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd

3.3.5 Rheoli rhywogaethau estron goresgynol (INNS)

Pwy fydd angen bod yn rhan o'r gwaith?

Mae delio â rhywogaethau estron goresgynol yn gydgyfrifoldeb ar bob sector a pherchnogion tir gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, y Comisiwn Coedwigaeth, Diwydiant, Gweithgynhyrchu a Busnesau eraill gan gynnwys manwerthwyr perthnasol, Mordwyo, Rheolwyr tir amaethyddol a gwledig, Cyrff Anllywodraethol drwy bartneriaethau ac ymgyrchoedd, Academia, UKTAG, Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr (GBNNS), Canolfannau cofnodion lleol Cymru, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (Grŵp Estron Goresgynol), y Cyhoedd yn gyffredinol.

Erbyn 2021

- Rydym am flaenoriaethu camau gweithredu i arafu neu atal lledaeniad rhywogaethau sydd eisoes yn bodoli a'u dileu ac atal rhai newydd rhag cael eu cyflwyno lle bo hynny'n bosibl.
- Rydym hefyd am leihau'r risg a berir gan rywogaethau estron goresgynol (INNS) yn gyffredinol drwy fiaddiogelwch a gwybodaeth leol well am ddsbarthiad ac effaith y rhywogaethau hyn.

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi datblygiad atebion newydd ac arloesol, fel AquaWales a Aquainvade dan arweiniad Prifysgol Abertawe sy'n ymchwilio i ganfod a chael gwared â Rhywogaethau Estron Goresgynol mewn dŵr croyw a dyframaethu; a rhaglen Menter Ymchwil Busnesau Bach.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Yn unol â rheoleiddio a weithredir gan Defra yn Lloegr dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, gwahardd pum planhigyn dyfrol eston goresgynnol rhag cael eu gwerthu yng Nghymru: dail ceiniog arnofiol, briallen y dŵr, corchwyn Seland Newydd, pluen parot, rhedynen y dŵr.	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Datblygu a hyrwyddo'r broses o fabwysiadu codau ymarfer a mentrau bioddiogelwch, a chodi ymwybyddiaeth o effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol ar draws cynefinoedd a rhywogaethau morol, daearol a dŵr croyw Natura 2000.	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Sicrhau bod peryglon i gynefinoedd a rhywogaeth Natura 2000 o gyfeiriad rhywogaethau estron goresgynnol yn cael eu rheoli gan integreiddio arferion gorau bioddiogelwch mewn rhaglenni rheoleiddio priodol.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cefnogi ymchwil i ddulliau rheoli a dileu rhywogaethau estron goresgynnol effeithiol (morol, daearol a dŵr croyw) sy'n dylanwadu'n fawr ar Natura 2000.	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Defnyddio Rheoliadau Cadw a Chyflwyno Pysgod 2015 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i reoli symudiadau rhywogaethau estron goresgynnol. Mae newid yn y ddeddfwriaeth yn Ebrill 2014 wedi cyflwyno gwaharddiad ar 5 rhywogaeth planhigion peryglus iawn gan gynnwys briallen y dŵr a dail ceiniog arnofiol.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Yn ymwybodol o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ac felly ddim yn caniatáu i rai rhywogaethau penodol ddianc i'r gwyllt.	Rheolwyr tir amaethyddol a gwledig	Asiantaeth yr Amgylchedd
Defnyddio polisiâu o fewn cynlluniau morol sy'n cael eu datblygu a datganiadau polisi morol i gefnogi'r broses o reoli a lliniaru yn erbyn rhywogaethau estron goresgynnol.	Llywodraeth ac asiantaethau (Sefydliad Rheoli Morol, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Gweithredu Rheoliad UE 1143/2014 ar Rywogaethau Estron Goresgynnol. Bydd gweithrediad y rheoliad yn raddol a bydd yn digwydd drwy gyfnod y cynllun hwn.	Llywodraeth ac asiantaethau	Asiantaeth yr Amgylchedd
Cydweithio i ddatblygu a gweithredu codau ymarfer i leihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol.	Pob sector	Asiantaeth yr Amgylchedd
Gweithredu ymatebion cyflym i ffrwyno a dileu ymosodiadau newydd lle bo hynny'n ymarferol. Cefnogir hyn gan Gytundebau a Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf Seilwaith 2015.	Llywodraeth ac asiantaethau (gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Defra, Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru), cyrff anllywodraethol (pysgota, cadwraeth a hamdden) a mordwyo	Asiantaeth yr Amgylchedd
Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol mewn safleoedd gwarchoddedig fel ag sy'n briodol.	Llywodraeth ac asiantaethau (Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Gallu ffurfio Grwpiau Gweithredu Lleol i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol a chodi ymwybyddiaeth.	Pob sector	Asiantaeth yr Amgylchedd
Gweithio mewn partneriaeth i ddylanwadu ar ddefnyddwyr hamdden i arafu lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol drwy hyrwyddo gweithredoedd 'Gwirio, Glanhau, Sychu'.	Llywodraeth ac asiantaethau (gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru), cyrff anllywodraethol (gan gynnwys pysgota, cadwraeth a hamdden), llywodraeth leol a mordwyo	Asiantaeth yr Amgylchedd
Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus o risg trosglwyddo rhywogaethau estron goresgynnol yn ddamweiniol, ac o ymagweddau rhwystrol.	Llywodraeth ac asiantaethau (Defra a Llywodraeth Cymru) a phob sector	Asiantaeth yr Amgylchedd

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Cynorthwyo ysgrifenyddiaeth rhywogaethau estron goresgynnol i gydlynu systemau rhybuddio, cofnodion rhywogaethau a stordy canolog ar gyfer gwybodaeth, gan gynnwys annog y cyhoedd i gyflwyno cofnodion ar rywogaethau ar-lein a thrwy ffonau smart.	Llywodraeth ganolog	Asiantaeth yr Amgylchedd
Gweithredu strategaeth ddiwygiedig Prydain Fawr ar rywogaethau goresgynnol, sy'n cynnwys asesiadau risg effaith rhywogaethau, cynlluniau gweithredu ac ymateb cyflym.	Llywodraeth ac asiantaethau (gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru), cyrff anllywodraethol (gan gynnwys pysgota, cadwraeth a hamdden)	Asiantaeth yr Amgylchedd

3.3.6 Rheoli llygredd o fwyngloddiau

Pwy fydd angen bod yn rhan o'r gwaith?

Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod Glo, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol, Tîrfeddiawyr, Cyrff Anllywodraethwyr drwy bartneriaethau ac ymgyrchoedd, Academia.

Erbyn 2021

- Rydyn ni am liniaru effeithiau mwyngloddiau segur ar yr amgylchedd dŵr drwy raglen waith strategol ledled Cymru. Bydd yn cymryd degawdau i fynd i'r afael â'r holl faterion a byddwn yn blaenoriaethu camau gweithredu sy'n sicrhau'r canlyniadau ecolegol, cymdeithasol ac economaidd gorau i fuddsoddiad cymdeithas.

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Rhaglen i drin yn briodol nifer fach o fwyngloddiau metel o flaenoriaeth uchel a fydd o fudd mawr a nodir dan Strategaeth Mwyngloddiau Metel Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Glo	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rhaglen ymchwil i ystyried adfer tomennydd rwbel (glo) drwy greu coetiroedd a chynefinoedd	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rhaglen atal ac adfer dŵr mwyngloddiau'r Awdurdod Glo	Awdurdod Glo	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Gweithredu rheolaethau arfer gorau a phrosesau adfer mewn pyllau glo segur. Rhaglen â blaenoriaeth (gam wrth gam) a ariennir gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd	Awdurdod Glo	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gweithredu rheolaethau arfer gorau a phrosesau adfer mewn mwyngloddiau metel segur	Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Glo	Cyfoeth Naturiol Cymru
Parhau i ymchwilio effaith dŵr o fwyngloddiau a datblygu cynlluniau adfer yn unol â Strategaeth Mwyngloddiau Metel Cymru.	Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Glo	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ymchwilio i arllwysiadau o fetel segur, a mwynfeydd nad ydynt yn rhai glo yn unol â Strategaeth Mwynfeydd Metal Cymru. Blaenoriaethu ar gyfer eu cynnwys mewn cytundeb cenedlaethol gyda phartneriaid mwynfeydd perthnasol.	Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Glo	Cyfoeth Naturiol Cymru

3.3.7 Newidiadau i lif a lefelau naturiol dŵr

Pwy fydd angen bod yn rhan o'r gwaith?

Llywodraeth Cymru, Defra, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, y Diwydiant Dŵr, Diwydiant, Gweithgynhyrchu a Busnesau eraill, Rheolwyr tir amaethyddol a gwledig, Cyrff Anllywodraethol drwy bartneriaethau ac ymgyrchoedd, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, UKTAG, y Cyhoedd yn gyffredinol.

Erbyn 2021

- Rydyn ni am sicrhau bod trwyddedau tynnu dŵr yn diogelu'r amgylchedd dŵr, nawr ac yn y dyfodol.
- Rydyn ni am annog patrymau defnydd tir cynaliadwy mewn amgylcheddau trefol a gwledig sy'n lleihau dŵr ffo o law.
- Rydyn ni am ddarparu ymyriadau fel gwella cynefinoedd yn y sianel i liniaru effeithiau gwaith tynnu dŵr ar yr amgylchedd dŵr. Rydyn ni am sicrhau bod dŵr yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithlon i leihau'r angen i dynnu dŵr ychwanegol yn y dyfodol.
- Bydd yn gweithredu'r drefn newydd ar gyfer tynnu dŵr daear pan fydd y Rheoliadau newydd mewn grym.

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Llywodraeth Cymru i adolygu'r system drwyddedu tynnu dŵr er mwyn llywio polisi yn y dyfodol mewn perthynas â rheoli adnoddau dŵr.	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Dod â threfniadau tynnu dŵr sydd ar hyn o bryd wedi'u heithrio o fewn y system drwyddedu (Awdurdodiadau Newydd)	Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ymchwiliadau i asesu effeithiau amgylcheddol cronni a mesurau lliniaru posibl	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Blaenoriaethu datrysiadau i fynd i'r afael â methiannau'r corff dŵr yn sgil tynnu dŵr	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Yn unol â Strategaeth Dŵr Cymru Llywodraeth Cymru, ceisio ffyrdd o leihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd dŵr	Llywodraeth Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfrannu at gynnal, neu adfer, statws cadwraeth ffafriol ar Ardaloedd Gwarchoddedig Natura 2000 drwy gynnal adolygiad o gysyniadau	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cynnig arbennig ar gasgenni dŵr (amodol ar arian) i gwsmeriaid Dŵr Cymru/Welsh Water i'w hannog i ailgylchu dŵr glaw i ddyfrio gerddi, a hynny'n cynorthwyo i leihau'r galw yn ystod cyfnodau sych	Diwydiant Dŵr	Cyfoeth Naturiol Cymru
Targedu mesurau rheoli tir drwy gynllun amaeth-amgylcheddol Glastir a chytundebau Adran 15 i liniaru llygredd gwasgaredig o amaethyddiaeth a lleihau effaith draeniad i wella bioamrywiaeth a sicrhau statws cadwraeth ffafriol.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Adolygu Glastir i roi gwell cefnogaeth ac i flaenoriaethu gwaith rheoli cadwraethol a rheolaeth lefel dŵr ar wlyptiroedd/mawndiroedd Natura 2000.	Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cwblhau gweithredoedd i ymdrin â thrwyddedau tynnu dŵr y nodwyd yn yr Adolygiad Cysyniadau eu bod yn cael effaith niweidiol ar hygrededd safleoedd.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cefnogi'r gwaith o gyflenwi Rhaglen Adfer Mawndiroedd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyflwyno trwyddedau dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 i reoleiddio faint o ddŵr a dynnir o afonydd, llynnoedd, aberoedd a dŵr daear. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu cynaliadwyedd trwyddedau tynnu â therfyn amser wrth iddynt ddod i ben ac wrth i ddeiliaid y trwyddedau ymgeisio am drwyddedau newydd i gymryd eu lle. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu i ddileu trwyddedau â therfyn amser nad ydynt yn gynaliadwy. Cyflwynir trwyddedau yn eu lle ar sail gynaliadwy un unol ag amcanion y corff dŵr.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Newid neu ddileu trwyddedau i warchod yr amgylchedd rhag niwed gwirioneddol neu niwed posibl, gan gynnwys niwed difrifol dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Gweithio i ddod â nifer o weithgareddau tynnu dŵr sydd ar hyn o bryd wedi'u heithrio dan reoleiddiad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chreu polisi a deddfwriaeth lywodraethol. Mae hyn yn cynnwys gwagio, trosglwyddo ar gyfer mordwyo mewndirol a gweithgareddau dyfrhad oedd ynghynt wedi'u heithrio. Mae'n bosibl y bydd angen cyfyngu ar rai	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
gweithgareddau tynnu dŵr presennol sy'n achosi niwed difrifol i'r amgylchedd. Gall hyn arwain at welliant mewn dŵr daear a llif y cyrff dŵr sydd wedi'u heffeithio.		
Ystyried y Datganiad Polisi Morol a chynlluniau morol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar amgylcheddau morol ac arfordirol. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi'r fframwaith strategol ar gyfer datblygiad cynaliadwy'r môr.	Pob sector	Asiantaeth yr Amgylchedd
Adnabod pwysau ar adnoddau dŵr oherwydd tynnu dŵr ac adfer llifoedd cynaliadwy a lefelau dŵr daear drwy newidiadau i drwyddedau tynnu dŵr a newidiadau ffisegol i sianeli afonydd i wella llifoedd. Mae'n rhaid i drwyddedau newydd fod yn gynaliadwy a rhwystro effeithiau yn y dyfodol.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Gweithredu'r rhaglen Adfer Tynnu Cynaliadwy (RSA). Mae'r rhaglen hon yn adnabod, ymchwilio ac yn datrys peryglon neu broblemau amgylcheddol sydd wedi'u hachosi gan weithgareddau tynnu dŵr trwyddedig ond anghynnaladwy. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol Cymru yn gweithredu i gyfyngu ar drwyddedau tynnu dŵr sydd wedi'u hadnabod fel rhai sy'n achosi problem amgylcheddol dan y rhaglen RSA. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn anelu at gwblhau'r rhaglen erbyn diwedd Mawrth 2020.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Cwblhau cynlluniau rheoli adnoddau dŵr statudol, gan nodi sut y rheolir cyflenwadau a'r galw am ddŵr dros gyfnod o 25 mlynedd, a gweithredu i adfer daear dŵr a llifoedd cynaliadwy lle mae effeithiau oherwydd tynnu dŵr wedi cael eu cadarnhau.	Diwydiant Dŵr	Asiantaeth yr Amgylchedd

Disgrifiad	Pwy sy'n arwain	Pwy sy'n Adrodd (Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd)
Cynhyrchu cynlluniau sychder i sicrhau bod cyflenwadau dŵr cyhoeddus yn cael eu cynnal tra'n cyfyngu ar effaith amgylcheddol y sychder.	Diwydiant Dŵr	Asiantaeth yr Amgylchedd
Cynhyrchu strategaethau ar gyfer trwyddedau tynnu dŵr i helpu sicrhau ymagwedd gyson at reoli adnoddau dŵr a chydbwyso anghenion defnyddwyr dŵr a'r amgylchedd.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Diddymu trwyddedau sydd ddim yn cael eu defnyddio lle nad oes gan ddeiliad y drwydded angen rhesymol am y dŵr.	Llywodraeth ac asiantaethau (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru)	Asiantaeth yr Amgylchedd
Cynnal treialon rheoli ymaddasol i adnabod y mesurau gorau ar gyfer gwella cyrff dŵr sydd wedi'u haddasu'n drwm ac sy'n cael eu defnyddio i gyflenwi dŵr.	Diwydiant Dŵr	Asiantaeth yr Amgylchedd
Defnyddio neu annog mesurau effeithlonrwydd dŵr, gan gynnwys gwaith gan y diwydiant dŵr ar fesur, gollyngiadau, arolygon, darparu cynhyrchion sy'n effeithlon o ran dŵr, hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr ac addysg.	Pob sector	Asiantaeth yr Amgylchedd
Llunio polisïau cynlluniau lleol sy'n mynnu bod cartrefi newydd yn cyflawni'r safon effeithlonrwydd dŵr tynnach o 110 litr y person y diwrnod fel y disgrifir yn Rhan G o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Adeiladu 2010.	Llywodraeth leol	Asiantaeth yr Amgylchedd
Gweithredu lefelau tynnach o effeithlonrwydd dŵr, fel y cynigir gan newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu.	Diwydiant, gweithgynhyrchu a busnesau eraill	Asiantaeth yr Amgylchedd
Rheoli'r galw am ddŵr a defnyddio dŵr yn fwy effeithlon i sicrhau bod cyflenwad dŵr cynaliadwy i'r dyfodol.	Rheolwyr tir amaethyddol a gwledig	Asiantaeth yr Amgylchedd
Comisiynu astudiaethau ar y gylchred ddŵr i lywio penderfyniadau cynllunio gofodol ynghylch adnoddau dŵr lleol.	Llywodraeth leol	Asiantaeth yr Amgylchedd

3.4 Crynodeb - rhaglen o fesurau lleol

Mae'r mesurau hyn yn annog gweithredu yn lleol i warchod a gwella'r amgylchedd dŵr. Mae'r rhain yn caniatáu ychydig o hyblygrwydd i dargedu gweithredoedd drwy weithio gyda phartneriaid a chanddynt ddiddordeb yn yr amgylchedd dŵr. Ceir rhestr o fesurau cenedlaethol a lleol ar **Arsylwi Dyfroedd Cymru**. Fel yn achos y mesurau cenedlaethol, mae cysylltiadau arbennig rhwng grwpiau a fydd yn cydweithredu i fynd i'r afael â phroblemau a materion penodol.

Mesurau Lleol generig

- Gweithredoedd i reoli neu sicrhau rheolaeth dros fewnbynnau gwasgaredig yn y tarddle: lleihau llygredd gwasgaredig yn y tarddle:
 1. Staff Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i ymweld â safleoedd amaethyddol
 2. Gweithdai rheoli pridd
 3. Mapio achosion o laid carthffosiaeth
 4. Gwaith ar gamgysylltiadau
- Gweithredoedd i reoli neu sicrhau rheolaeth dros darddle pwynt: lleihau llygredd tarddle pwynt yn y tarddle
 1. Archwiliadau Ansawdd Dŵr wedi'u targedu
 2. Archwiliadau gorlifoedd carthffosydd cyfun (CSO)
 3. Rhwystro llygredd mewn ystadau diwydiannol
- Gweithredoedd i wella llifoedd rheoledig: Rheoli prosesau rhyddhau dŵr yn briodol.
- Gweithredoedd i wella cynefinoedd wedi'u haddasu: Dileu neu lacio rhwystrau i ymfudiad pysgod
- Gweithredoedd i wella cynefinoedd wedi'u haddasu: Gwelliant i gyflwr sianel/gwely a/neu lannau/traethlin

Mesurau Lleol penodol

Bydd y rhain yn cynnwys rhai o raglenni gwaith allweddol Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd fel:

- Gweithio mewn partneriaeth â'r Cwmnïau Dŵr i edrych ar botensial gwaredu ffosffad. Mae'n debygol y bydd ar y cwmnïau dŵr hyn angen gweithredoedd eraill i fynd i'r afael â tharddle eraill, boed yn wasgaredig a phwynt. Llygredd yn y tarddle o fewn y dalgylch.
- Gweithio gyda Chwmnïau Dŵr ar weithredoedd a nodwyd o'r rhaglen Monitro Parhad Digwyddiad AMP6.
- Monitro parhaus o lygredd yn y Dyfrdwy. Mae'r Cwmnïau Dŵr (Dŵr Cymru, Dee Valley Water ac United Utilities) yn cyd-ariannu rhaglen ddwys sy'n monitro ansawdd dŵr afon, gan weithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Mae United Utilities a Dee Valley Water wedi gweithio mewn partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Afon Dyfrdwy Cymru i ariannu dau Ymgynghorydd Dalgylch dros y pedair blynedd nesaf i weithio yn nalgylchoedd Dyfrdwy Uchaf a Dyfrdwy Ganol. Bydd yr ymgynghorwyr yn gweithio o fewn y gymuned i godi ymwybyddiaeth ynghylch sut mae plaleiddiaid a maetholion yn mynd i mewn i'r afon a sut all hyn arwain at gostau uwch ac anawsterau o ran trin dŵr yfed.

Bydd yr ymgynghorwyr yn dod â chymorth ymarferol, ar ffurf grantiau bach sydd wedi'u hariannu gan y cwmnïau dŵr, i wella ansawdd y dŵr. Mae'n bosibl defnyddio'r grantiau hyn dalu am ffensio cyrsiau dŵr, hyfforddiant i ffermwyr, samplau pridd, dadansoddi slyri neu silwair, gwelliannau i draciau, profi offer chwisrellu ac MOT, cyngor fferm 1:1, amnestau plaleiddiaid. Y nod yw ymgysylltu â nifer o sectorau, ac nid ffermwyr yn unig, gan gynnwys pysgotwyr, garddwyr, deiliaid tai a thyddynwyr i godi ymwybyddiaeth ac i weithredu i warchod yr amgylchedd dŵr. Bydd yr ymgynghorwyr hefyd yn gweithio'n agos â mudiadau eraill fel Undeb yr Amaethwyr, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, English Nature, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, cynghorwyr fferm, agronomegwyr a chynghorau lleol.

- Gweithredoedd sy'n angenrheidiol i sbarduno Ardaloedd Gwarchoddedig fel y Parthau Perygl Nitrad lle mae angen gweithredu ar darddleoedd llygredd pwynt a llygredd gwasgaredig fel ei gilydd.
- Gweithredoedd i rwystro dirywiad. Er enghraifft, gweithredu ar darddleoedd gwasgaredig mewn cyrff dŵr gwledig sydd ar y ffin o ran methu profion ffosffad.
- Gweithredoedd i gefnogi partneriaid yn eu gwaith.
- Gweithredoedd i wella cynefinoedd wedi'u haddasu fel dileu neu lacio rhwystrau i ymfudiad pysgod mewn cyrff dŵr nad ydynt o reidrwydd yn methu o safbwynt pysgod ond sydd angen eu hadfer fel cynefinoedd.
- Cefnogi Cwmnïau Dŵr yn eu harchwiliadau o Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Yfed (a gweithredoedd dilynol a fydd o bosibl yn angenrheidiol).

Mae partneriaethau dalgylch Dyfrdwy Lanwol a Dyfrdwy Ganol hefyd wedi nodi'r prosiectau a'r partneriaethau canlynol:

- Mae'r Worthenbury and Wych Rural Diffuse Pollution Project yn anelu at leihau ffosffadau a llygryddion eraill (fel nitradau, plaleiddiaid a gwaddod) sy'n mynd mewn i bedwar corff dŵr, ac i wella eu statws ecolegol erbyn 2021. Cyfanswm cost y prosiect hwn hyd yma yw £146,000 (gan gynnwys cyfraniadau ymarferol), gyda £70,000 yn dod o goffrau United Utilities a Dŵr Cymru/Welsh Water. Cyfrannodd partneriaeth gydweithio Cyfoeth Naturiol Cymru at hyn yn 2015/16 a bydd y gwaith hwn yn ymestyn i Nant Emral yn 2016.
- Mae Aldford Brook Rural Diffuse Pollution Project wedi derbyn £39,000 gan Gronfa Gweithredu Partneriaeth Dalgylch a Chronfa Partneriaid Defra i dargedu llygredd amaethyddol gwasgaredig mewn corff dŵr sy'n dirywio. Mae'r prosiect yn defnyddio patrwm prosiectau llygredd gwasgaredig gwledig y Bartneriaeth ond yn ei ymestyn ymhellach trwy anelu at gynyddu bioamrywiaeth dorlannol, adnabod safleoedd i leihau effaith rhywogaethau estron goresgynnol a hefyd adnabod cyfleoedd i wanhau'r llif.
- Yn dilyn adroddiad ar SoDdGA Dyfrdwy, penderfynodd Natural England ariannu gwaith arolygu ar ddalgylch Ceiriog, a arweiniodd at nodi 13 o gynlluniau gwella cynefin. Mae un cynllun sy'n canolbwyntio ar 1.1km ar lan afon, ac sydd wedi'i ariannu gan Asiantaeth yr Amgylchedd, wedi'i gwblhau.
- Love my Estuary project. Prosiect sy'n ymgysylltu â'r gymuned ac sy'n codi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid o'u heffaith ar yr amgylchedd dŵr a'i fywyd gwyllt, ac sy'n hwyluso gwelliant yn yr amgylchedd dŵr drwy adnabod problemau llygredd a mynd i'r afael â nhw.

- West Kirby Outfall project. Lleihau llygredd yn Nŵr Ymdrochi Dynodedig West Kirby drwy adnabod a datrys y broblem o ddŵr wyneb llygredig yn llifo i'r traeth. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd, United Utilities a Chyngor Bwrdeistref y Wirral wedi gweithio mewn partneriaeth.
- Mae gwaith arolygu afon yn cael ei drefnu ar Afon Alun, o'r Wyddgrug at Gymer Afon Dyfrdwy, gyda gwirfoddolwyr yn cerdded ar hyn glannau'r afonydd. Bydd hyn yn adnabod problemau, fel rhwystrau i bysgod ymfudol, erydiad y glannau a phrinder cynefinoedd yn y nentydd, y gellid rhoi sylw iddynt gyda cheisiadau am gyllid yn y dyfodol.

Mae syniadau ar gyfer gwaith partneriaeth/prosiect ychwanegol i'r rhai o Ddyfrdwy Lanwol a Dyfrdwy Ganol yn cynnwys:

- Rhaglen bartneriaeth ledled y dalgyrch sy'n anelu at gydlynw'r gwaith o reoli a monitro Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) o fewn dalgyrch Dyfrdwy i weithredu dull cydgysylltiedig o reoli'r rhywogaethau hyn. Bydd y prosiect hefyd yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o rywogaethau estron goresgynnol a bioddiogelwch o fewn dalgyrch Dyfrdwy i sicrhau bod ein bywyd gwylt brodorol yn cael ei warchod i'r dyfodol.
- Mae Diwrnod Mawr Dyfrdwy yn fenter flynyddol a gydlynir gan Gyngor Sir y Fflint ac sy'n cynnwys awdurdodau lleol eraill o amgylch aber Dyfrdwy i gefnogi gwirfoddolwyr a grwpiau a mudiadau eraill i ddathlu Afon Dyfrdwy gyda ffocws ar lanhau'r amgylchedd.
- Mae'r Goresgyniad yn sgil-ddigwyddiad o Ddiwrnod Mawr Dyfrdwy ac yn digwydd yng Ngorffennaf. Caiff pobl eu hannog i ddod ynghyd i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol yn nalgylch Dyfrdwy.
- Adfer Mill Brook, Tattenhall – Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio gyda Grŵp Bywyd Gwylt Tattenhall ac Ystad Bolesworth i adfer 240 metr o Mill Brook, i fyny'r afon o Tattenhall ger Caer. Bydd cors bori, pyllau a chynefinoedd gwely cyrs â blaenoriaeth hefyd yn cael eu creu.
- Dulliau lliniaru gwahanol i stocio. Archwilio a sicrhau, lle bo hynny'n flaenoriaeth, mwy o fynediad at ardaloedd claddu i bysgod salmonid, ynghyd â mwy ohonynt a'r rheiny o well safon, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar ran uchaf dalgyrch Dyfrdwy.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda'r sawl a chanddynt ddiddordeb yn nalgylch Dyfrdwy uchaf, er mwyn adnabod achosion posibl prinder pysgod, blaenoriaethu gwaith ymchwiliol a chyflenwi atebion lle bo angen hynny.
- Prosiect tirweddau byw Alun/Wheeler – Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt, trawsffiniol gydag Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru.

4. Amcanion a Chanlyniadau Amgylcheddol

Mae Proses Gynllunio Rheolaeth Basn Afon yn golygu defnyddio ein tystiolaeth i ddatblygu Rhaglen o Fesurau a deall beth mae hyn yn ei olygu yn nhermau cyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o fewn yr amserlen a bennwyd. Yn unol â chanllawiau Cynllun Rheoli Basn Afon, rydym wedi gosod amcanion a nodi mesurau ar gyfer pob corff dŵr.

Mae statws presennol ac amcanion amgylcheddol i bob corff dŵr ar gael ar **Arsylwi Dyfroedd Cymru**. Mae cyfiawnhad ar gyfer amcanion amgen ar gael yn yr **Atodiad/Rhan 2**.

4.1 Amcanion y cyrff dŵr

Yn achos dyfroedd wyneb, gosodir amcanion ar gyfer statws ecolegol a chemegol. Yn achos cyrff dŵr artiffisial neu wedi'u haddasu'n sylweddol, gosodir amcanion ar gyfer potensial ecolegol a statws cemegol. Yn achos dŵr daear, gosodir amcanion ar gyfer statws meintiol a chemegol. Mae dau ddarn o wybodaeth yn amcanion y cyrff dŵr: y statws (er enghraifft, da) a dyddiad i nodi erbyn pryd y dylid cyflawni'r statws hwnnw (er enghraifft, erbyn 2021).


Gellir ond defnyddio amcanion ac amddiffynfeydd amgen y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr mewn perthynas â'r safonau a'r amcanion sy'n codi o fecanweithiau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ei hunan, ac nid mewn perthynas â safonau neu amcanion sy'n codi o ddeddfwriaeth Ewropeaidd arall. Mae Tabl 9 yn crynhoi'r rhain.

Tabl 9. Crynodeb o amcanion amgen a chyfiawnhad. Mae'n bosibl i gorff dŵr gael mwy nag un cyfiawnhad.

Cyfiawnhad	Nifer y cyrff dŵr
Technegol anymarferol – achos yr effaith anffafriol yn anhysbys.	13
Amser adfer ecolegol	7
Amodau cefndir	0
Technegol anymarferol – dim datrysiad technegol hysbys ar gael.	5
Cost anghymesur – cydbwysedd costau a buddion anffafriol.	1
Beichiau anghymesur (Lloegr yn unig)	7

Mae 28 o gyrff dŵr (29%) yr ydym yn cynnig amcan amgen ar eu cyfer (h.y. gwahanol i da erbyn 2021). Mae Ffigur 5 yn dangos statws presennol cyffredinol yn 2015 a'r canlyniadau erbyn 2021 a 2027 os yw'r holl fesurau dichonadwy a buddiannol o ran cost yn cael eu rhoi yn eu lle. Yn 2015, mae 27 o gyrff dŵr, gyfwrth â 28% mewn statws da neu well. Mae gan 70 o gyrff dŵr, gyfwrth â 71%, amcan o statws da neu well i'w gyflawni erbyn 2021, fodd bynnag, mae yna gryn dipyn o ansicrwydd y bydd cynnydd mor sylweddol yn cyflawni statws da neu well erbyn 2021. Yng Nghymru, bwriadwn wella ein cyfradd gydymffurfio gyda statws da drwy gyflenwi mesurau yn lleol mewn ffordd integredig i sicrhau gwelliannau amgylcheddol yng nghyffwrdd dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac Ardaloedd Gwarchodedig. Bydd hyn yn cynnwys targedu 7% cyrff dŵr i sicrhau gwelliant o 7% o ran cydymffurfio gyda'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr erbyn 2021.

Ffigur 5. Canran cyffredinol statws ac amcanion cyrff dŵr ar gyfer 2015, 2021 a 2027



Canlyniadau ac ansicrwydd

Mae yna gryn dipyn o ansicrwydd yn nhermau cyflenwi'r mesurau a'r gwelliannau amgylcheddol sy'n ofynnol erbyn 2021. Dyma'r prif ffactorau:

- y nifer sy'n dewis gweithredu'r mesurau gwirfoddol, yn enwedig wrth weithio gyda nifer o reolwyr tir ar draws dalgylch
- arian ac adnoddau fydd ar gael y tu hwnt i 2015/16. Mae ansicrwydd yn cynyddu wrth i symud ymlaen
- deall adferiad ecolegol. Mae ein dealltwriaeth yn gyfyng ynghylch sut a phryd fydd yr ecoleg yn ymateb yn dilyn gweithredu'r mesurau.

Yng Nghymru, credwn y gallwn sicrhau'r canlyniadau gorau trwy ddatblygu ein dulliau rheoli adnoddau naturiol integredig a gweithio ar lefel y dalgylch lleol.

Rydym eisoes yn gweithio gyda phartneriaid strategol a lleol i sicrhau gwelliannau (e.e. rhaglen y Diwydiant Dŵr, Awdurdod Glo a chyrff anllywodraethol) ac yn chwilio am gyfleoedd i gydgyfylltu gweithredoedd er budd amgylchedd, economi a chymdeithas Cymru. Rydym wedi darparu gwybodaeth leol ar fesurau sydd wedi'u cynllunio a'u hariannu ar Arsylwi Dyfroedd Cymru er mwyn hwyluso gwaith partneriaeth. Bwriadwn adolygu rhaglenni cyflenwi gyda'n partneriaid er mwyn mireinio ac alinio'r prosesau cyflenwi ar y cyd.

Mae partneriaethau dalgylch yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy yn fentrau o bwys i symbylu gweithredoedd lleol a fydd yn gwarchod a gwella'r amgylchedd dŵr. Mae'r partneriaethau'n cynnwys ystod eang o grwpiau a chanddynt ddiddordeb yn yr amgylchedd dŵr, gan gynnwys llywodraeth leol, grwpiau pysgotwyr, mudiadau bywyd gwyllt, cwmnïau dŵr, rheolwyr tir, cynrychiolwyr busnes ac asiantaethau'r llywodraeth. Disgrifir y gweithredoedd sydd wedi'u nodi gan bartneriaeth dalgylch Dyfrdwy Lanwol a Dyfrdwy Ganol yn Adran 3.4. Ceir gwybodaeth bellach am y bartneriaeth yn:

<http://www.welshdeetrust.com/>

4.2 Ardaloedd Gwarchodedig – cydymffurfio ac amcanion

Mae ardaloedd gwarchodedig â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu i sicrhau eu bod yn cyflawni eu hamcanion ac yn gwarchod y buddiannau y maent yn eu darparu. Isod, nodir yn fras i ba raddau y mae ardaloedd gwarchodedig yn cydymffurfio gyda'u safonau a'u hamcanion presennol:

Ardaloedd Gwarchodedig Dŵr Yfed

Yng Nghymru, mae'r amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchodedig dŵr yfed i fod i sicrhau'r canlynol:

- dan y drefn trin dŵr a ddefnyddir, mae'r dŵr yfed a gynhyrchir yn bodloni'r safonau'r Gyfarwydddeb Dŵr Yfed yn ogystal ag unrhyw ofynion penodol i Gymru i sicrhau bod dŵr yfed yn ddiogel i'w yfed
- gwarchodaeth angenrheidiol i rwystro ansawdd y dŵr yfed rhag dirywio yn yr ardal warchodedig er mwyn sicrhau nad oes yn rhaid yn y dyfodol gynyddu'n sylweddol y trefniadau puro a ddefnyddir ar hyn o bryd

Yn Lloegr, mae'r amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchodedig dŵr i fod i sicrhau'r canlynol:

- dan y drefn trin dŵr a ddefnyddir, mae'r dŵr yfed a gynhyrchir yn bodloni'r safonau'r Gyfarwydddeb Dŵr Yfed yn ogystal ag unrhyw ofynion penodol i'r DU i sicrhau bod dŵr yfed yn ddiogel i'w yfed
- gwarchodaeth angenrheidiol i rwystro ansawdd y dŵr yfed rhag dirywio yn yr ardal warchodedig er mwyn gostwng lefel y driniaeth buro sydd ei hangen

Mae'r amcanion hyn mewn perygl pan fydd lefelau llygredd a achosir gan weithgaredd dynol yn codi, a hynny'n golygu bod angen mwy o driniaeth yn y dyfodol, a hefyd pan fydd angen mesurau i leihau llygredd. Yn achos cyrff dŵr daear yn unig, mae methu â chyflawni'r amcanion hyn yn gallu golygu bod y corff dŵr yn cael statws cemegol gwael. Mae parthau diogelu yn ardaloedd anstatudol y nodwyd bod 'perygl' wrth dynnu dŵr, gan fod arferion rheoli defnydd y tir a gweithgareddau eraill yn gallu effeithio ar ansawdd y dŵr sydd heb ei drin. Caiff mesurau i rwystro a lleihau llygredd eu targedu o fewn y parthau hyn. Mae Tabl 10 yn rhoi crynodeb o'r rhai sydd mewn perygl (dŵr wyneb) a'r rhai sydd â statws gwael (dŵr daear).

Tabl 10. Ardaloedd gwarchodedig dŵr yfed – statws presennol ac mewn perygl

Math o gorff dŵr	Nifer yr ardaloedd gwarchodedig dŵr yfed	% mewn perygl (dŵr wyneb) /% ar statws gwael (dŵr daear)
Dŵr wyneb	18	39
Dŵr daear	4	0

Rhywogaethau ag arwyddocâd economaidd (dyfroedd pysgod cregyn)

Mae rhai ardaloedd o'r dyfroedd aberol ac arfordirol wedi'u dynodi'n ddyfroedd pysgod cregyn. Mae dyfroedd pysgod cregyn yn ardaloedd sydd angen eu gwarchod neu eu gwella i gynnal bywyd a thwf pysgod cregyn er mwyn cyfrannu at y pysgod cregyn safon uchel y bydd pobl yn eu bwyta. Ers 2013, mae'r gofynion parthed Ardaloedd Gwarchodedig Dyfroedd Pysgod Cregyn wedi trosglwyddo i'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Mae 2 ardal warchodedig pysgod cregyn yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Mae'r **Adroddiad Cynnydd** yn trafod y sefyllfa o ran cydymffurfio gyda'r safonau yn ystod y

cylich cyntaf. Mae angen llawer gwell dealltwriaeth o ymddygiad pathogenau microbaidd yn yr amgylchedd aberol ac arfordirol, a'r rhyngweithiad gyda Physgod Cregyn cyn y gallwn fod yn hyderus y byddwn yn cyflawni ac yn cynnal y safon microbaidd. O ganlyniad, rydym wedi ymestyn yr amcan i geisio cyflawni'r safon microbaidd hyd 2027. Mae Tabl 11 yn rhoi crynodeb o'r amcanion ardaloedd gwarchodedig pysgod cregyn.

Tabl 11. Amcanion ardaloedd gwarchodedig pysgod cregyn

Nifer y dyfroedd pysgod cregyn	Amcan	Statws presennol 2015 (yn cydymffurfio)	Cyflawni'r amcan erbyn 2021	Cyflawni'r amcan erbyn 2027
2	Ceisio cyflawni safon ganllaw cnawd pysgod cregyn	0	0	2

Dyfroedd hamdden (dyfroedd ymdrochi)

Mae dyfroedd ymdrochi yn ddyfroedd a thraethau dynodedig y mae nifer fawr o ymdrochwyr yn eu defnyddio. Yn achos dyfroedd ymdrochi, yr amcan yw cynnal, gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd a gwarchod iechyd cyhoeddus drwy fodloni safonau ansawdd dŵr 'digonol' y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi, ac i gymryd mesurau yr ystyrir eu bod yn realistig a rhesymol gyda golwg ar gynyddu nifer y dyfroedd ymdrochi sydd wedi'u dosbarthu'n 'rhagorol' neu 'da'. Daeth Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi ddiwygiedig i rym gan gyflwyno amcanion ansawdd dŵr newydd ar gyfer ardaloedd gwarchodedig dyfroedd ymdrochi o 2015. 2015 yw blwyddyn gyntaf y Gyfarwyddeb newydd sy'n gosod safonau llymach ar ddsbarthiadau ansawdd dŵr ymdrochi, gyda'r nod o gyflawni safonau uwch na'r Gyfarwyddeb flaenorol. Yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy, mae 1 dŵr ymdrochi yn West Kirby. Mae Tabl 12 yn rhoi crynodeb o statws presennol yr Ardaloedd Gwarchodedig dyfroedd ymdrochi mewn perthynas â safonau'r Gyfarwyddeb ddiwygiedig.

Tabl 12. Amcanion ardaloedd gwarchodedig dyfroedd ymdrochi

Nifer y dyfroedd ymdrochi	Amcan	Nifer sydd wedi cyflawni'r dosbarthiad digonol o leiaf yn 2014*	Nifer y disgwyliwn iddynt gyflawni digonol o leiaf yn 2015	Nifer mewn perygl o beidio â chyflawni digonol yn 2015
1	Dosbarthiad digonol o leiaf	1	1	0

* Dyma'r nifer a fyddai wedi cyflawni'r dosbarthiad digonol o leiaf petai safonau newydd 2015 wedi bod mewn grym

Mae dosbarthiadau yn erbyn safonau'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi ddiwygiedig wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio data 2012-2015. Llwyddodd yr un dŵr ymdrochi dynodedig i gyflawni'r safon 'Rhagorol'.

Ardaloedd sensitif i faetholion (Parthau Perygl Nitradau)

Amcan y Gyfarwyddeb Nitradau yw lleihau'r llygredd dŵr a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol, ac atal llygredd pellach. Mae Parthau Perygl Nitradau wedi'u dynodi lle mae crynodiadau nitrad mewn cyrff dŵr yn uchel neu'n cynyddu, neu lle mae cyrff dŵr yn, neu mewn perygl o ddod yn ewtroffig oherwydd llygredd nitrad amaethyddol. Mae'n rhaid i ffermwyr o fewn Parthau Perygl Nitradau gydymffurfio gyda mesurau rhaglen weithredu gorfodol i leihau colledion nitrad amaethyddol. Ymhellach, mae cod arfer amaethyddol da wedi'i sefydlu ar gyfer ei weithredu'n wirfoddol gan holl ffermwyr. Mae 19% o Ardal Basn Afon Dyfrdwy wedi'i ddynodi'n Barth Perygl Nitradau, ac mae'r ffigurau yn Nhabl 13 yn dangos y rheswm dros y dynodiad.

Tabl 13. Graddfa ardaloedd gwarchodedig parthau perygl nitrad

Rheswm dros ddynodiad	Nifer y Parthau Perygl Nitrad	Arwynebedd tir (ha) yn ôl y math o Barth Perygl Nitrad	% o'r Ardal Basn Dŵr yn ôl y math o Barth Perygl Nitrad
Nitrad uchel mewn dŵr arwyneb	7	40,545	89%
Nitrad uchel mewn dŵr daear	4	5,346	12%
Ewtroffigedd mewn llynnoedd neu gronfeydd dŵr	1	104	<1%
Ewtroffigedd mewn aberoedd neu ddyfroedd arfordirol	0	-	0%

Ardaloedd sensitif i nitradau (Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol)

Amcan y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol yw gwarchod yr amgylchedd rhag effeithiau andwyol gollyngiadau dŵr gwastraff. Caiff ardaloedd sensitif eu dynodi yn ôl cyrff dŵr sydd wedi'u heffeithio gan ewtroffigedd neu ble mae crynodiadau nitrad uchel yn effeithio ar y broses tynnu dŵr. Mae'n rhaid sicrhau bod lleihad neu fod safonau gollyngiadau ar gyfer maetholion mewn carthion yn cael eu bodloni o fewn ardaloedd sy'n sensitif i llygredd maetholion. Ceir crynodeb o'r rhain yn Nhabl 14.

Tabl 14. Ardaloedd gwarchodedig Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol yn ôl math a graddfa

Rheswm dros ddynodiad	Nifer yr ardaloedd sensitif	Hyd (Km) /Arwynebedd (Km ²) a ddynodwyd
Ewtroffigedd mewn afonydd	1	27
Ewtroffigedd mewn camlesi	0	0
Ewtroffigedd mewn llynnoedd neu gronfeydd dŵr	0	0
Ewtroffigedd mewn aberoedd neu ddyfroedd arfordirol	0	0
Nitrad uchel mewn dŵr arwyneb ffres	0	0

Safleoedd Natura 2000: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig neu Ardaloedd Gwarchoddedig Arbennig sy'n ddibynnol ar ddŵr

Amcan cyffredinol y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yw cynnal neu adfer, ar statws cadwraeth ffafriol, gynefinoedd naturiol a rhywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion gwyllt sydd o bwysigrwydd i'r gymuned. Gelwir y rhwydwaith o ardaloedd gwarchoddedig a sefydlwyd gan y Gyfarwyddebau Adar Gwyllt a Chynefinoedd yn Natura 2000. Bydd cyflawni amcanion cadwraeth y safle yn sicrhau bod hygyrdd y safle Natura 2000 yn cael ei gynnal neu ei adfer fel sy'n briodol, ac yn sicrhau bod y safle yn cyfrannu at gyflawni 'statws cadwraeth ffafriol' y nodweddion sy'n ei wneud yn gymwys yn y lle cyntaf.

Mae darpariaethau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn berthnasol i safleoedd Natura 2000 sy'n ddibynnol ar ddŵr yn unig, neu gynefinoedd sy'n ddibynnol ar ddŵr a rhywogaethau ar safleoedd sy'n cyfuno nodweddion gwlyb a sych. Yr amcan yw gwarchod a, lle bo angen hynny, gwella'r amgylchedd dŵr i gyflawni'r amcanion cadwraeth i'r nodweddion ar y safle sy'n ddibynnol ar ddŵr.

Safleoedd Natura 2000 yn Lloegr

Mae Natural England yn esbonio beth yw ystyr cyflawni amcanion cadwraeth yn nhermau'r amodau amgylcheddol (targedau) a'r gofynion ecolegol a ddisgwyllir ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig ar safleoedd Natura 2000 yn Lloegr. Mae'r targedau a osodwyd yn benodol i fesur cyflwr nodweddion dynodedig, a'r cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion, yn seiliedig ar Safonau Cyffredin y DU ar gyfer Canllawiau Monitro (CSMG), a gyhoeddir gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Mae rhai o nodweddion monitro safleoedd Natura 2000 yr un fath, neu yn debyg i amcanion elfennau o'r cyrff dŵr. Mae Natural England yn monitro trefniadau cydymffurfio gyda'r amcanion hyn. Lle mae yna dargedau CSWMG ar gyfer elfennau llif ac ansawdd dŵr, maent wedi'u hystyried wrth osod amcanion statws y corff dŵr. Lle mae'r dyddiad ar gyfer cyflawni amcanion corff dŵr Natura 2000 wedi'i ymestyn y tu hwnt i 2021, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cytuno ar nodau interim yn lleol gyda Natural England.

Mae safleoedd Ramsar yn safleoedd gwlyptiroedd o bwysigrwydd cenedlaethol. Er diben cynllunio rheoli basn afon, caiff safleoedd Ramsar eu hystyried yn un modd â safleoedd Natura 2000.

Noder, er mwyn gwahaniaethu rhwng amser adfer ecolegol a ffactorau eraill all fod angen ymestyn y dyddiad ar eu cyfer, yng nghyd-destun y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn unig, ystyrir bod ardal warchoddedig Natura 2000 yn cyflawni ei hamcanion cadwraeth lle mae'r holl fesurau ar gyfer nodweddion dibynnol ar ddŵr wedi'u cwblhau, ac felly amser yn unig i nodweddion biolegol y safle adfer sydd ei angen.

Caniateir ymestyn y dyddiad cwblhau i Natura 2000 yn seiliedig ar farn arbenigol a data sydd yn y Cynlluniau Gwella Safle. Mae Cynlluniau Gwella Safle wedi cael eu defnyddio i adnabod pa safleoedd oedd â materion perthnasol i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ac mae gweithredoedd adfer wedi'u nodi o 2021 ymlaen, a hefyd safleoedd lle nad oes unrhyw rai wedi'u hadnabod neu lle nad yw problem wedi'i chadarnhau hyd yma.

Safleoedd Natura 2000 yng Nghymru

Yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n barnu beth yw ystyr cyflwr ffafriol yn nhermau'r amodau amgylcheddol (targedau) a'r ecoleg a ddisgwyllir ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig. Mae'r targedau sy'n ofynnol yn seiliedig ar Safonau Cyffredin y DU ar gyfer Canllawiau Monitro (CSMG), a gyhoeddir gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Mae rhai o nodweddion monitro safleoedd Natura 2000 yr un fath, neu yn debyg i

amcanion elfennau o'r cyrff dŵr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro trefniadau cydymffurfio gyda'r amcanion hyn.

Yng Nghymru, mae cyflwr cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig yn amlwg mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer y Cyfarwydddebau Cynefinoedd ac Adar, ac adroddir arnynt dros gylchoedd chwe blynedd. Mae'r trefniadau adrodd hyn yn wahanol yn Lloegr a Chymru. Yn Lloegr, bydd adrodd ar gyflwr yn digwydd ar sail uned, ac yng Nghymru, bydd adrodd ar sail cynefin neu rywogaeth ddynodedig. Ymhellach, mae mân wahanïaethau yn rhai o'r categorïau a ddefnyddir i adrodd. Mae Tabl 13 yn rhoi crynodeb o'r data ar gyfer rhan Cymru Ardal Basn Afon Dyfrdwy yn seiliedig ar nifer y cynefinoedd a'r rhywogaethau dynodedig sy'n ymddangos ymhob categori. Defnyddiwyd y data diweddaraf sydd ar gael. Mae yna rai bylchau yn y data oherwydd y gwahaniaethau yng ngofynion adrodd statws rhai o'r nodweddion dynodedig. Er enghraifft, mae nodweddion Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn cael eu hadrodd ar lefel DU ac nid ar lefel safle. Felly, yn Nhabl 13, nodir bod cyflwr y nodweddion unigol yn anhysbys. Mae ffin rhai o'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn croesi mwy nag un ardal basn afon hefyd. Yn yr achosion hyn, mae'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig berthnasol wedi'u hystyried ymhob ardal basn afon lle mae'r ffiniau'n gorgyffwrdd.

Yr amcan diodyn i holl safleoedd N2K yw cyflwr ffafriol erbyn 2021. Caniatwyd ymestyn y dyddiad lle mae tystiolaeth gadarn nad oes modd cyflawni erbyn 2021. Yn achos Ardal Basn Afon Dyfrdwy, mae gall hynny fod yn berthnasol mewn dau achos:

1. Amser adfer ecolegol. Mae dyddodiad asid hanesyddol yn parhau i effeithio ar nifer o safleoedd. Mae mesurau i leihau allyriadau wedi'u rhoi ar waith ac mae tystiolaeth leol ac ar lefel DU i ddangos bod adferiad yn bosibl; fodd bynnag, mae'n anhebygol y bydd yr amcanion yn cael eu cyflawni erbyn 2021.
2. Technegol amhosibl. Mae rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) yn effeithio ar nifer o safleoedd, er enghraifft, cimychiaid yr afon America, jac y neidiwr. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n dechnegol amhosibl i ddifa'r INNS erbyn 2021.

Mae Tabl 15 yn nodi amcanion ardaloedd gwarchodedig dŵr safleoedd Natura 2000 yn Lloegr a Chymru yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy. Dylid nodi bod ffiniau rhai o'r safleoedd Natura 2000 yn croesi mwy nag un Ardal Basn Afon. Yn yr achosion hyn, ystyriwyd y safle perthnasol ymhob Ardal Basn Afon lle mae'r ffiniau'n gorgyffwrdd.

Tabl 15. Amcanion ardaloedd gwarchodedig dŵr Natura 2000

Amcan	Nifer yr ardaloedd gwarchodedig		
	Erbyn 2015	Erbyn 2021	Erbyn 2027
Holl fesurau wedi'u cwblhau er mwyn cyflawni'r amcanion cadwraeth (Lloegr)	2	0	1
Cyflawni'r amcanion cadwraeth (Cymru)	0	6	6

4.3 Canlyniadau ar gyfer 2021

Am y chwe blynedd nesaf, bydd y ffocws yng Nghymru ar:

- Rhwystro dirywiad yn yr holl gyrff dŵr o ran y safonau llymach newydd ar gyfer rhai elfennau.
- Gwella cydymffurfiaeth gyda statws da yng Nghymru drwy dargedu mesurau yn lleol mewn modd integredig i sicrhau gwelliannau amgylcheddol yng nghyrff dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac Ardaloedd Gwarchoddedig. Bydd hyn yn golygu targedu 7 corff dŵr y rhagfynegir y byddant yn cyflawni da ar draws Cymru i sicrhau gwelliant o 7% yng nghydymffurfiaeth gyda'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
- Yng Nghymru, gwella rhai o'n cyrff dŵr sy'n perfformio waelaf er mwyn gwella statws cyffredinol o un dosbarth i 1 corff dŵr.
- Nodi ble bydd gwelliannau lefel elfen yn digwydd, a hefyd lle bydd angen mesurau pellach i sicrhau newid statws ecolegol yn gyffredinol. Bydd hyn yn ein galluogi i fesur cynnydd tuag at sicrhau statws da a bydd yn arwain at fuddion pwysig i'r amgylchedd ac yn gwella cadernid ecolegol.
- Datblygu ein hymagwedd at reoli adnoddau naturiol drwy weithio ar lefel dalgylch lleol ac elwa ar y buddion ehangach a ddaw drwy'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae dŵr yn adnodd naturiol gwerthfawr, ac mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn erfyn allweddol wrth reoli adnoddau naturiol. Byddwn hefyd yn gwneud yn fawr o gyfleoedd a ddarperir gan ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Gynllunio (Cymru) 2015 a Mesur yr Amgylchedd (Cymru) i'n helpu i gyflawni amcanion.
- Rydym eisoes yn gweithio gyda phartneriaid i gyflenwi gwelliannau (e.e. rhaglen Diwydiant Dŵr, Awdurdod Glo a chyrrff anllywodraethol) ac yn edrych am gyfleoedd i gydlynu gweithredoedd lleol i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i amgylchedd, economi a chymdeithas Cymru.

Ceir manylion ynghylch sut y rheolir yr amgylchedd dŵr yn Lloegr yn Adran 2 o **Ran 2** a'r ddogfen gwybodaeth ychwanegol yn <https://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plan-update>.

4.4 Arfarniad economaidd

Arfarniad economaidd yng Nghymru

Wrth ymgynghori ar ddiweddarau'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon, roeddem wedi cynnal asesiad lefel uchel o'r costau a'r manteision o gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr dan bedwar senario.

Lle rydym wedi nodi'r rheswm dros fethiant a'r mesurau y mae angen eu gweithredu i sicrhau statws cyffredinol da erbyn 2021, rydym wedi defnyddio costau dangosol ar gyfer y mesurau hynny. Lle bo costau cywirach ar gael (er enghraifft, cynlluniau cwmnïau dŵr) rydym wedi defnyddio'r wybodaeth hon.

I gyfrifo'r manteision, rydym wedi defnyddio gwerthoedd ariannol (£ fesul km neu km²) ar gyfer cyrff dŵr o safonau gwahanol (h.y. Da, Cymedrol, Gwael, Gwael lawn) yn seiliedig ar yr Arolwg Manteision Amgylchedd Dŵr Cenedlaethol (NWEBS). Mae gwerth net y gwelliant rhwng safonau wedi'i gyfrifo a'i luosi gyda hyd y corff dŵr neu ardal.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym wedi datblygu gwell dealltwriaeth o gostau rhai gweithredoedd Natura 2000.

Ceir manylion pellach yn yr **Atodiad**.

Arfarniad economaidd yn Lloegr

Yn 2005, wrth baratoi ar gyfer cynlluniau 2009, cynhaliwyd dadansoddiad economaidd eang ac adroddwyd ar hynny drwy raglen ymchwil gydweithredol dan arweiniad awdurdodau'r DU (cynhaliwyd hyn gan Defra yn Lloegr) a mudiadau rhanddeiliaid. O ganlyniad, cyhoeddwyd adroddiadau Erthygl 5 'Dadansoddiad Economaidd o Ddefnydd Dŵr' sy'n disgrifio nodweddion defnyddio dŵr cymdeithasol-economaidd pob ardal basn afon a sector. Mae'r adroddiadau hyn wedi'u hadolygu ar gyfer y cynlluniau rheoli basn afon ond nid ydynt wedi'u diweddarau gan nad yw'r nodweddion cymdeithasol-economaidd wedi newid rhyw lawer.

Bydd Defra ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn parhau i ddatblygu dadansoddiad economaidd i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer datblygiad polisi dŵr. Bydd dadansoddiadau economaidd yn y dyfodol yn cynnwys rhagamcanion o filiau dŵr a gwasanaethau carthffosiaeth i gwsmeriaid eiddo preswyl a chwsmeriaid eraill gan ddefnyddio model a gomisiynwyd. Lle caiff polisiau newydd neu newidiadau mewn polisiau cysylltiedig â dŵr eu hystyried, bydd dadansoddiad economaidd priodol yn cael ei gynnal.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd, fel corff cyhoeddus, yn ceisio adnabod y meysydd hynny lle gellid gwario arian i gyflawni'r canlyniadau gorau i'r gymdeithas.

Yng Ngham 4 y broses gosod amcanion, ceir arfarniadau economaidd dalgylch i asesu manteision, cost ac unrhyw effeithiau negyddol a geir wrth weithredu mesurau i wella'r amgylchedd dŵr. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynllunio ymagwedd gadarn, sy'n seiliedig ar ganllawiau'r Trysorlys, ac sy'n gymesur ac yn addas i'r pwrpas. Bwriedir i'r ymagwedd gynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ar osod amcanion.

Datblygwyd Canllawiau Arfarnu Dŵr a dulliau dadansoddi cost a budd cysylltiol mewn ymgynghoriad gydag ystod o randdeiliaid. Dyma nodweddion yr ymagwedd arfarnu economaidd:

- Mae'n seiliedig ar ddalgylch, ac yn ymwneud â holl fathau o gyrff dŵr. Mae hyn yn bwysig i sicrhau bod rheolaeth dros yr amgylchedd dŵr yn integredig ac yn cynnal pwysau ar draws y cyfan.
- Mae'n ceisio adnabod y lefel uchaf o welliant y gellir ei gyfiawnhau lle mae'r budd i'r amgylchedd a'r gymdeithas yn fwy na chost gweithredu mesurau.
- Mae'n adeiladu llun ehangach o ganlyniadau a manteision amgylcheddol y mesurau mewn ffordd ddisgrifiadol, gan ddefnyddio fframwaith gwasanaethau ecosystem, ac yn cynnwys amcangyfrif ariannol o'r prif fanteision.
- Mae'n fframwaith systematig a thryloyw sy'n annog ymgysylltiad ag eraill wrth reoli'r amgylchedd dŵr.

Mae canlyniadau'r arfarniadau economaidd yn helpu sicrhau bod manteision ehangach yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau. Mae manylion pellach i'w cael yn adran 5.3 o **Ran 2** a'r ddogfen gwybodaeth ychwanegol yn <https://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plan-update>.

5. Cynllunio i'r Trydydd Cylch – Blaengynllunio a'r heriau ar gyfer 2021–2027

Os ydym am gyflawni dyheadau ac amcanion gwaith y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, mae angen i ni ddechrau ar rai o'r atebion mwy heriol i wella'r amgylchedd dŵr. Mewn rhai achosion, bydd yn cymryd sawl blwyddyn i adnabod ac yna gweithredu atebion cost effeithiol a gwireddu manteision amgylcheddol y gweithredoedd a gynhelir. Cydnabyddir hefyd ein bod eisoes, mewn rhai sefyllfaoedd, yn gwybod beth yw'r atebion a bod yr offer gennym, ond bod angen i ni roi'r rhain ar waith mewn rhaglen arfaethedig gydag adnoddau digonol (bobl ac arian). Yn Lloegr, mae hyn wedi arwain at gyfiawnhau ymestyn dyddiadau ar sail cost anghymesur. Yn ystod y cylch hwn, ein nod yw gosod y camau sy'n angenrheidiol i gyflawni gwelliant pellach. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd cyfle i symud y gwelliannau hyn yn eu blaenau yn hytrach nag aros am yr adolygiad chwe blynedd nesaf yn 2021, neu o leiaf sicrhau bod y camau cywir yn eu lle i gyflawni'r gwelliannau hyn erbyn 2027 er mwyn bodloni dyheadau cyffredinol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o fewn tri chylch cynllunio cyflawn o 2009 hyd 2027. Lle bynnag bo hynny'n bosibl, byddwn yn symud gwelliannau yn eu blaenau i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, a bydd yr ymagwedd at reoli adnoddau naturiol a nodir yn Adran 1.6 ynghyd â'r Dull sy'n Canolbwyntio ar Ardal (CaBA) yn Lloegr yn allweddol o ran cyflawni'r canlyniadau ehangach hyn i bobl a bywyd gwyllt.

Mae'r amgylchedd dan bwysau parhaus yn sgil newidiadau ac mae'n rhaid cydnabod hyn fel rhan o'r broses cynllunio basn afon; gall hyn gynnwys effeithiau:

- Newidiadau ym mholisi'r llywodraeth
- Newid yn yr Hinsawdd
- Twf a dosbarthiad poblogaeth
- Prosiectau seilwaith mawr newydd
- Ein capasiti cynhyrchiol
- Galw newidiol ar ein hadnoddau naturiol
- Rhywogaethau estron goresgynnol
- Pryderon newydd ynghylch llygryddion cemegol
- Tystiolaeth newydd, gwyddoniaeth sy'n dod i'r amlwg ac ymchwil.